# Papur Testun 10B: Proffil Ieithyddol Ynys Môn

10B







CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd & Môn

Chwefror 2015

# Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn

Mawrth 2014

Cynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd
ymchwil@gwynedd.gov.uk

**Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd**
**Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**
**☎ 01286 679380 ✉ ymchwil@gwynedd.gov.uk**

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 6
Demograffeg y Gymraeg ........ 8
*Siaradwyr Cymraeg ........ 8*
*Sgiliau ehangach yn y Gymraeg ........ 17*
*Y Gymraeg – Effaith Mudo ........ 25*
Bwrlwm Cymdeithasol a Diwylliannol ........ 28
Trosglwyddo Iaith yn y cartref ........ 32
Addysg ........ 34
*Y Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar ........ 34*
*Addysg Cynradd ac Uwchradd ........ 35*
Iechyd a Lles ........ 38
Y gweithle a'r economi ........ 39
*Y gweithle a'r gweithlu ........ 39*
*Diwydiant & Galwedigaethau Cyflogaeth ........ 41*
*Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol (NS-Sec) ........ 45*
*Cymwysterau ........ 46*
*Incwm ........ 47*
Tai ac aelwydydd ........ 51
*Cartrefi fesul math o lety a daliadaeth ........ 51*
*Lefelau preswyliaeth ac eiddo gwag ........ 51*
*Cartrefi fesul daliadaeth ........ 55*
*Nifer a thwf aelwydydd ........ 56*
*Y farchnad dai ........ 58*
*Fforddiadwyedd ........ 61*
*Polisïau Cynllunio ........ 66*
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Ynys Môn a Gwynedd) ........ 68
Atodiad 1: Ystadegau cychwynnol am yr Iaith Gymraeg yn Ynys Môn, 2001-2011 ........ 86
Atodiad 2: Ystadegau cychwynnol am yr Iaith Gymraeg yng Nghymru, 2001-2011 ........ 87
Atodiad 3: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg a Grŵp Iaith, fesul ward, 2001 & 2011 ........ 88
Atodiad 4: Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith, ........ 89
Llyfryddiaeth ........ 100

## Rhestr Tablau

Tabl 1: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2001 & 2011 ........ 9
Tabl 2: Dosbarthiad wardiau yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg, 2011........ 11
Tabl 3: Dosbarthiad wardiau yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg, 2001........ 11
Tabl 4: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001 & 2011 ........ 12
Tabl 5: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd â sgiliau yn y Gymraeg, 2001 & 2011 ........ 17
Tabl 6: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, yn ôl oedran, 2001-2011........ 18
Tabl 7: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001 & 2011 ........ 20
Tabl 8: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl gwlad enedigol, 2001 & 2011 ........ 27
Tabl 9: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, yn ôl gwlad enedigol, 2001 & 2011........ 27
Tabl 10: Cymdeithasau / Gweithgareddau sydd yn hybu bwrlwm cymdeithasol a diwylliannol Cymreig ........ 28
Tabl 11: Cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg, 2001 & 2011 ........ 32
Tabl 12: Disgyblion yn siarad Cymraeg yn Ynys Môn, Ionawr 2013........ 36
Tabl 13: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn yn ôl iechyd cyffredinol, 2001 & 2011 ........ 38
Tabl 14: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn yn ôl problem iechyd tymor-hir neu anabledd, 2001 & 2011 ........ 38
Tabl 15: Diwydiant cyflogaeth a siaradwyr Cymraeg, 2011 ........ 41
Tabl 16: Galwedigaethau a siaradwyr Cymraeg, 2011 ........ 42
Tabl 17: Cymwysterau a siaradwyr Cymraeg, 2011 ........ 45
Tabl 18: Cymwysterau a siaradwyr Cymraeg, 2011 ........ 46
Tabl 19: Incymau Aelwydydd Canolrif a Chwartel Isaf, 2013........ 47
Tabl 20: Nifer a chanran o aelwydydd yn ôl ardal o dan 60% incwm aelwyd canolrif Prydain Fawr, 2013........ 47
Tabl 21: Cartrefi fesul math o lety, 2011........ 51
Tabl 22: Cartrefi yn ôl math o breswyliaeth, 2011........ 52
Tabl 23: Eiddo trethadwy yn ôl math o breswyliaeth, Ebrill 2013........ 52
Tabl 24: Daliadaeth Aelwydydd, 2011 ........ 55
Tabl 25: Person cyswllt y cartref yn siarad Cymraeg yn ôl daliadaeth ar Ynys Môn, 2011........ 55

Tabl 26: Amcangyfrifon aelwydydd, 2011 ........ 56
Tabl 27: Newid yn y math o aelwydydd yn Ynys Môn, 2001 & 2011 ........ 57
Tabl 28: Prisiau tai yn Ynys Môn, 2012 ........ 58
Tabl 29: Cymhareb prisiau tai i incwm aelwyd yn Ynys Môn ........ 61
Tabl 30: Casgliadau dogfen 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005) ........ 66
Tabl 31: Argymhellion dogfen 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005) ........ 67
Tabl 32: Crynodeb o Asesiad Effaith Ieithyddol o'r Hoff Strategaeth yn seiliedig ar ddefnyddio'r 18 o gwestiynau "Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen" (2005) ........ 70
Tabl 33: Trothwyon datblygu lle bydd angen asesiad llawnach o'r effaith ar yr iaith yn Ynys Môn . 84
Tabl 34: Gwybodaeth a allai fod ei hangen ar gyfer datganiad ieithyddol ........ 85

## Rhestr Ffigyrau

Ffigwr 1: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2001 & 2011 ........ 9
Ffigwr 2: Canran o ddisgyblion a aseswyd mewn Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA1/CS/CA2/CA3, 2003-2013 ........ 37
Ffigwr 3: Lefelau diweithdra, Ionawr 2007 – Hydref 2013 ........ 40
Ffigwr 4: Diwydiant cyflogaeth ar Ynys Môn, 2011 ........ 43
Ffigwr 5: Galwedigaethau cyflogaeth ar Ynys Môn, 2011 ........ 44

## Rhestr Mapiau

Map 1: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2011 ........ 13
Map 2: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001 ........ 14
Map 3: Newid (%) yn nifer y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001-2011 ........ 15
Map 4: Newid (pwynt %) yng nghyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001 - 2011 ........ 16
Map 5: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2011 21
Map 6: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001 22
Map 7: Newid (%) yn nifer y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001-2011 ........ 23
Map 8: Newid (pwynt %) yng nghyfran y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001 - 2011 ........ 24
Map 9: Incwm canolrif, fesul ward, 2013 ........ 48

Map 10: Incwm chwartel isaf, fesul ward, 2013 ..... 49
Map 11: Canran o aelwydydd ag incwm aelwyd sydd yn 60% neu lai o'r incwm aelwyd canolrif Brydeinig, fesul ward, 2013 ..... 50
Map 12: Canran o eiddo trethadwy sydd yn wag, fesul cymuned, 2013 ..... 53
Map 13: Canran o eiddo trethadwy sydd yn ail gartrefi / tai haf, fesul cymuned, 2013 ..... 54
Map 14: Pisiau tai canolrif, fesul ward, 2012 ..... 59
Map 15: Pisiau tai chwartel isaf, fesul ward, 2012 ..... 60
Map 16: Cymhareb prisiau tai canolrif i incwm aelwyd canolrif, fesul ward, 2012 ..... 62
Map 17: Cymhareb prisiau tai chwartel isaf i incwm aelwyd chwartel isaf, fesul ward, 2012 ..... 63
Map 18: Canran o aelwydydd 'wedi eu prisio allan o'r farchnad' dai, fesul ward, 2012 ..... 65

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn wedi ei gynhyrchu ar ran Cyngor Sir Ynys Môn gan y Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd. Bydd yr adroddiad yn rhan o sail dystiolaeth Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ar sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn. Mae'r adroddiad yn bwrw golwg ar ystod eang o ystadegau yn ymwneud â'r Gymraeg gan ganolbwyntio yn bennaf ar ganlyniadau diweddaraf Cyfrifiad 2011 ynghyd â chanlyniadau hanesyddol Cyfrifiad 2001.

Bydd y sail tystiolaeth am yr Iaith Gymraeg yn Ynys Môn yn cynorthwyo CSYM gyda'i amcan o ddarparu polisïau sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth a hynny yn ei dro yn cefnogi a chreu cymunedau cynaliadwy. Bydd y wybodaeth hon yn galluogi CSYM i:

- Gyfrannu tuag at sicrhau cydbwysedd yng nghyfansoddiad cymdeithasol ac ieithyddol yr ynys;
- Adnabod dulliau cadarnhaol gogyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg;
- Hyrwyddo datblygiadau newydd a fydd yn annog pobl i aros yn eu cymunedau;
- Annog cyfleoedd cyflogaeth gogyfer cefnogi a chreu cymunedau cynaliadwy.

Mae CSYM yn cydnabod fod yr Iaith Gymraeg yn elfen hanfodol yng ngwneuthuriad cymunedau Môn ac yn adlewyrchiad o draddodiadau a diwylliant. I sicrhau fod cymunedau'n datblygu mewn modd cynaliadwy, mae'n hanfodol wrth ystyried newid i sicrhau fod yr holl ffactorau dylanwadol ac unrhyw ddatblygiadau newydd yn briodol a pherthnasol. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gynyddu a datblygu proffil y diwylliant Cymreig trwy hyrwyddo a sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r Iaith Gymraeg.

Mae cynaliadwyedd yr Iaith Gymraeg yn ddibynnol ar wella cymunedau hyfyw sydd â siaradwyr Cymraeg ac sy'n darparu digon o gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol i siarad, dysgu a throsglwyddo'r iaith. Darperir y cyfleoedd trwy ddulliau ffurfiol (e.e. y gyfundrefn addysg, dosbarthiadau iaith ar gyfer dysgwyr) a dulliau anffurfiol (cymdeithasau, clybiau).

Wrth ystyried nodweddion cymdeithasol ac economaidd yr ynys a'r angen i hyrwyddo a gwarchod ei diddordebau trwy greu a chefnogi cymunedau cynaliadwy a datblygu'r economi, mae CSYM yn cydnabod yr angen i greu sail tystiolaeth gadarn am yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant. Bydd y sail tystiolaeth hon yn rhoi siâp ar ac yn dylanwadu ac yn cefnogi'r broses o baratoi a darparu cynlluniau a strategaethau CSYM (a'i bartneriaid) sy'n seiliedig ar dystiolaeth megis y Cynllun Integredig Sengl, y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer yr Orsaf Niwclear Newydd yn Wylfa.

Y brif ffynhonnell ystadegol am yr Iaith Gymraeg yw'r wybodaeth a ddaw o'r Cyfrifiad. Cynhaliwyd y Cyfrifiad diweddaraf ar 27 Mawrth 2011. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n gyfrifol am y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr.

Yng Nghyfrifiad 2011, gofynnwyd y cwestiwn 'A allwch ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?' – ac roedd modd ateb drwy dicio un neu ragor o bum blwch (un i bob categori ac un ar gyfer 'Dim un o'r rhain') mewn unrhyw gyfuniad. Dim ond yng Nghymru y gofynnwyd y cwestiwn

hwn, a chyflwynir atebion ar gyfer pobl 3 oed a throsodd. Nid oedd y Cyfrifiad yn casglu gwybodaeth ynghylch pa mor rhugl na pha mor aml yr oedd person yn defnyddio'r Gymraeg.

Bydd yr adroddiad yma felly yn cyflwyno canlyniadau cychwynnol o Gyfrifiad 2011 o safbwynt yr Iaith Gymraeg yn Ynys Môn.

# Demograffeg y Gymraeg

## *Siaradwyr Cymraeg*

Yn ôl ffigyrau'r cyfrifiad 2011 mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn wedi gostwng o 38,893 (60.1%) yn 2001 i 38,568 (57.2%) yn 2011. Mae'r gostyngiad hwn o 325 o unigolion yn gyfystyr â gostyngiad o 0.8% yn nifer siaradwyr Cymraeg yn y sir.

Rhwng 2001 a 2011, gwelwyd cynnydd o oddeutu 3,000 ym mhoblogaeth y sir - sef cynnydd o 4.4%. O ystyried y cynnydd hwn yn y boblogaeth, mae'r ganran o bobl Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng o 60.1% i 57.2%.

Mae'n debyg bod y gostyngiad yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg ym Môn o ganlyniad i newidiadau demograffig yn y boblogaeth (gan gynnwys llai o blant, mwy o oedolion hŷn, a cholled carfannau hŷn gyda lefelau uwch o siaradwyr Cymraeg), pobl yn mudo, a newidiadau o ran sgiliau pobl rhwng y ddau Gyfrifiad. Mae'r newidiadau yma yn debyg o fod yn gymharol ag ardaloedd eraill o Gymru.

Mae **Ffigwr** 1 yn dangos cyfran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grwpiau oedran, yn 2001 a 2011. Mae Tabl 1 ar y dudalen nesaf hefyd yn cynnwys gwybodaeth am niferoedd siaradwyr Cymraeg fesul grŵp oedran ar gyfer y ddau gyfnod.

Fel y gwelir yn **Ffigwr** 1, yn 2011 gallai cyfrannau cymharol uwch o'r boblogaeth yn y grwpiau oedran iau siarad Cymraeg, gyda'r gyfran uchaf yn y grŵp oedran 5-15 (80.1%). O'r grŵp oedran yma ymlaen, mae'r gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg yn gostwng yn barhaus gan gyrraedd isafswm o 46.8% ymysg y boblogaeth 60-64 mlwydd oed. Yna, mae'r gyfran yn cynyddu'n raddol, gan gyrraedd 51.8% ar gyfer y boblogaeth 75 oed a throsodd.

Roedd cynnydd yng nghyfran y plant 5-15 mlwydd oed sy'n gallu siarad Cymraeg o 77.8% yn 2001 i 80.1% yn 2011, sef cynnydd o 2.3 pwynt canran. Er y cynnydd yma yn y gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg, gwelwyd gostyngiad o 924 o unigolion (12.6%) yn nifer y siaradwyr Cymraeg 5-15 mlwydd oed. Dyma'r dirywiad mwyaf o ran nifer y siaradwyr Cymraeg o blith pob grŵp oedran. Mae'n debyg bod y ffaith fod 1,426 yn llai o blant 5-15 oed yn 2011 nag yn 2001 yn cyfrannu'n sylweddol at y sefyllfa.


Gwelwyd cynnydd o 1.3 pwynt canran yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg ymysg y grŵp oedran 25-39, gan newid o 59.0% yn 2001 i 60.3% yn 2011. Unwaith eto, nid yw'r cynnydd yma o ran cyfran o siaradwyr Cymraeg yr un sefyllfa o ran y nifer o siaradwyr Cymraeg. Gwelwyd gostyngiad o 496 o unigolion (7.0%) yn nifer y siaradwyr Cymraeg 25-39 mlwydd oed dros gyfnod o ddeg mlynedd.

Oni bai am y ddau grŵp oedran 5-15 a 25-39 mlwydd oed, mae pob grŵp oedran arall wedi gweld lleihad yn y gyfran o siaradwyr, fel y gwelir yn Nhabl 1 (colofn 'Mewn pwynt canran').

Fel y gwelir yn Nhabl 1, o ran newid yn y nifer o siaradwyr Cymraeg, mae pob grŵp oedran oni bai am y rhai 5-15, 16-19, 25-39 a 50-59 mlwydd oed wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg dros y degawd diwethaf.

Yn 2011 roedd cyfran ychydig yn uwch o ferched (58.4%) yn gallu siarad Cymraeg o gymharu â dynion (56.0%).

**Ffigwr 1: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2001 & 2011**




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl CS146; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2203WA*

**Tabl 1: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2001 & 2011**

| Grŵp Oedran | 2001 | | 2011 | | Newid 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Mewn nifer | Mewn nifer (%) | Mewn Pwynt Canran |
| 3-4 | 797 | 54.5% | 827 | 54.1% | 30 | 3.8% | -0.4% |
| 5-15 | 7,318 | 77.8% | 6,394 | 80.1% | -924 | -12.6% | 2.3% |
| 16-19 | 2,371 | 76.8% | 2,196 | 71.3% | -175 | -7.4% | -5.5% |
| 20-24 | 2,306 | 69.8% | 2,467 | 63.9% | 161 | 7.0% | -5.9% |
| 25- 39 | 7,131 | 59.0% | 6,635 | 60.3% | -496 | -7.0% | 1.3% |
| 40- 49 | 4,854 | 55.6% | 4,992 | 53.2% | 138 | 2.8% | -2.4% |
| 50- 59 | 5,105 | 51.4% | 4,755 | 50.4% | -350 | -6.9% | -1.0% |
| 60- 64 | 2,144 | 52.8% | 2,557 | 46.8% | 413 | 19.3% | -6.0% |
| 65- 74 | 3,693 | 54.6% | 4,080 | 47.6% | 387 | 10.5% | -7.0% |
| 75+ | 3,174 | 54.4% | 3,665 | 51.8% | 491 | 15.5% | -2.6% |
| Pob oedran (3+) | 38,893 | 60.1% | 38,568 | 57.2% | -325 | -0.8% | -2.9% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl CS146; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2203WA*

Mae **Atodiad** 1 ac **Atodiad** 2 yn dangos yn sydyn y prif dueddiadau ar gyfer Ynys Môn a Chymru gyfan.

Ym mis Ebrill 2011, pan gynhaliwyd y Cyfrifiad diweddaraf, roedd 40 o wardiau (adrannau etholiadol) yn Ynys Môn. Wedi arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer y Sir gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, bu i'r nifer o wardiau leihau i 11 yn 2013. Nid yw ffiniau'r 11 ward newydd yn cyfateb i gyfuniad o ffiniau'r 40 ward blaenorol, felly nid oes modd cyfuno data o Gyfrifiad 2011 ar gyfer creu gwybodaeth ar gyfer yr 11 ward newydd. Bydd yr adroddiad yma felly, ar wybodaeth a gyflwynir ynddo, yn seiliedig ar y 40 ward cyn y newidiadau yn 2013.

Mae **Error! Reference source not found.** yn dangos y gyfran o bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl wardiau Ynys Môn yn 2011, gyda **Error! Reference source not found.** yn dangos gwybodaeth debyg ar gyfer 2001.

Mae **Error! Reference source not found.** yn dangos y newid (fel %) o ran nifer y bobl 3 oed a throsodd sydd yn gallu siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011, tra bod **Error! Reference source not found.** yn dangos y newid (fel pwynt %) yng nghyfran y bobl 3 oed a throsodd sydd yn gallu siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011. Gwelir y data cyflawn yn **Nhabl 4**.

Mae **Tabl** 2 a **Thabl 3** yn dangos dosbarthiad y wardiau yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 a 2001, yn y drefn honno. Mae'r tablau hefyd yn dangos nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg ym mhob grŵp.

Yn 2011, roedd llai o wardiau yn Ynys Môn gyda mwyafrif y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg nag yn 2001. Roedd 27 o wardiau (67.5%) lle'r oedd dros hanner y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn yn 2011. Mae hyn yn is na'r 31 o wardiau (77.5%) yn 2001.

Cafwyd gostyngiad yn nifer y wardiau lle'r oedd dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg o 10 (25.0%) yn 2001 i 8 (20%) yn 2011.

Yn 2011, roedd gan dair ward dros 80% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, a lleolir y tair ward yma yn Llangefni. Ward Cyngar oedd y ward gyda'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg (80.8%), wedi'i ddilyn gan wardiau Tudur (80.7%) a Chefni (80.5%).

Roedd y gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg yn 2011 yn ward Rhosneigr, gydag ond 36.0% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

Mae 17 (42.5%) o'r 40 ward yn Ynys Môn wedi gweld newid yn eu grŵp iaith gan ddisgyn i grŵp iaith is yn 2011 o gymharu â'i sefyllfa ieithyddol yn 2001. Yr 17 ward sydd wedi disgyn i grŵp iaith is yn 2011 o gymharu â 2001 yw: Aberffraw, Amlwch - Ward y Port, Bodorgan, Brynteg, Cadnant, Caergybi - Ward y Dref, Llaneilian, Llangoed, Llannerchymedd, Ffordd Llundain, Morawelon, Parc a'r Mynydd, Porthyfelin, Rhosneigr, Rhosyr, Trearddur a Tysilio. Gweler **Atodiad 3** am fwy o fanylder.

Mae **Tabl 4** yn cynnwys gwybodaeth o ran y nifer a chyfran o bobl 3 oed a throsodd sydd yn gallu siarad Cymraeg ar gyfer y 40 ward yn Ynys Môn yn ôl Cyfrifiad 2001 a 2011.

O edrych ar Dabl 4 gellir gweld, heblaw am wardiau Cwm Cadnant a Moelfre, mae pob ward yn Ynys Môn wedi gweld dirywiad yn y gyfran o bobl sydd yn gallu siarad Cymraeg ers 2001. Gwelwyd y dirywiad mwyaf yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg yn Aberffraw, ble bu gostyngiad o 69.4% yn 2001 i 60.4% yn 2011.

Bu i 11 o'r 40 ward (27.5%) weld cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg o 2001 i 2011. Yr 11 ward yma oedd: Bodorgan, Bryngwran, Cadnant, Cefni, Cwm Cadnant, Cyngar, Llanfaethlu, Llanfair-yn-Neubwll, Llanidan, Llannerch-y-medd a Tudur.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn nifer o siaradwyr Cymraeg yn ward Cyngar, ble bu cynnydd o 151 o siaradwyr Cymraeg o 1,425 yn 2001 i 1,576 yn 2011 (cyfystyr â chynnydd o 10.6% mewn nifer).

Bu'r dirywiad mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ward Porthyfelin, ble bu lleihad o 156 o siaradwyr Cymraeg o 1,019 yn 2001 i 863 yn 2011 (cyfystyr â lleihad o 15.3% mewn nifer).

**Tabl 2: Dosbarthiad wardiau yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg, 2011**

| % 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg | Nifer y wardiau | Cyfran o'r wardiau | Nifer sy'n gallu siarad Cymraeg | Cyfran o'r cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| ≤ 10 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| > 10 ≤20 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| > 20 ≤30 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| > 30 ≤40 | 5 | 12.5% | 3,244 | 8.4% |
| > 40 ≤50 | 8 | 20.0% | 5,441 | 14.1% |
| > 50 ≤60 | 11 | 27.5% | 11,155 | 28.9% |
| > 60 ≤70 | 8 | 20.0% | 8,727 | 22.6% |
| > 70 ≤80 | 5 | 12.5% | 6,059 | 15.7% |
| > 80 ≤90 | 3 | 7.5% | 3,942 | 10.2% |
| > 90 ≤100 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| Cyfanswm | 40 | 100.0% | 38,568 | 100.0% |

*Yn seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu; ≤ Llai na neu hafal i; > Mwy na*
*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl KS207WA*

**Tabl 3: Dosbarthiad wardiau yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg, 2001**

| % 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg | Nifer y wardiau | Cyfran o'r wardiau | Nifer sy'n gallu siarad Cymraeg | Cyfran o'r cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| ≤ 10 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| > 10 ≤20 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| > 20 ≤30 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| > 30 ≤40 | 1 | 2.5% | 791 | 2.0% |
| > 40 ≤50 | 8 | 20.0% | 5,833 | 15.0% |
| > 50 ≤60 | 12 | 30.0% | 10,298 | 26.5% |
| > 60 ≤70 | 9 | 22.5% | 9,707 | 25.0% |
| > 70 ≤80 | 7 | 17.5% | 8,499 | 21.9% |
| > 80 ≤90 | 3 | 7.5% | 3,765 | 9.7% |
| > 90 ≤100 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| Cyfanswm | 40 | 100.0% | 38,893 | 100.0% |


*Yn seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu; ≤ Llai na neu hafal i; > Mwy na*
*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl UV84*

**Tabl 4: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001 & 2011**

| Ward | 2001 | | 2011 | | Newid 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Mewn nifer | Mewn nifer (%) | Mewn Pwynt Canran |
| Aberffraw | 878 | 69.4% | 810 | 60.4% | -68 | -7.7% | -9.0% |
| Amlwch – Ward y Porth# | 906 | 67.3% | 1,559 | 64.5% | # | # | # |
| Amlwch – Ward Wledig | 686 | 57.0% | 675 | 54.3% | -11 | -1.6% | -2.7% |
| Biwmares | 791 | 39.7% | 748 | 39.5% | -43 | -5.4% | -0.2% |
| Bodffordd | 1,162 | 77.9% | 1,098 | 73.3% | -64 | -5.5% | -4.6% |
| Bodorgan | 1,092 | 72.7% | 1,130 | 68.3% | 38 | 3.5% | -4.4% |
| Braint | 1,113 | 77.1% | 1,078 | 73.2% | -35 | -3.1% | -3.9% |
| Bryngwran | 1,234 | 76.1% | 1,311 | 71.2% | 77 | 6.2% | -4.9% |
| Brynteg | 904 | 51.0% | 890 | 48.7% | -14 | -1.5% | -2.3% |
| Cadnant | 539 | 51.8% | 571 | 47.4% | 32 | 5.9% | -4.4% |
| Cefni | 1,151 | 83.1% | 1,160 | 80.5% | 9 | 0.8% | -2.6% |
| Cwm Cadnant | 1,225 | 56.2% | 1,261 | 57.5% | 36 | 2.9% | 1.3% |
| Cyngar | 1,425 | 84.7% | 1,576 | 80.8% | 151 | 10.6% | -3.9% |
| Gwyngyll | 1,118 | 73.9% | 1,093 | 70.5% | -25 | -2.2% | -3.4% |
| Caergybi – Ward y Dref | 451 | 43.2% | 447 | 39.1% | -4 | -0.9% | -4.1% |
| Kingsland | 660 | 48.0% | 627 | 42.9% | -33 | -5.0% | -5.1% |
| Llanbadrig | 736 | 54.4% | 690 | 52.4% | -46 | -6.3% | -2.0% |
| Llanbedrgoch | 710 | 45.5% | 654 | 43.9% | -56 | -7.9% | -1.6% |
| Llanddyfnan | 881 | 69.9% | 829 | 64.7% | -52 | -5.9% | -5.2% |
| Llaneilian | 1,337 | 61.5% | 1,295 | 58.9% | -42 | -3.1% | -2.6% |
| Llanfaethlu | 1,021 | 67.1% | 1,025 | 64.4% | 4 | 0.4% | -2.7% |
| Llanfair-yn-Neubwll | 1,341 | 51.5% | 1,396 | 50.5% | 55 | 4.1% | -1.0% |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 1,528 | 78.3% | 1,479 | 75.8% | -49 | -3.2% | -2.5% |
| Llangoed | 676 | 54.6% | 585 | 48.4% | -91 | -13.5% | -6.2% |
| Llanidan | 1,111 | 68.7% | 1,162 | 65.1% | 51 | 4.6% | -3.6% |
| Llannerch-y-medd | 1,252 | 72.3% | 1,294 | 69.9% | 42 | 3.4% | -2.4% |
| Ffordd Llundain | 742 | 51.8% | 645 | 45.3% | -97 | -13.1% | -6.5% |
| Maeshyfryd | 932 | 43.7% | 885 | 40.6% | -47 | -5.0% | -3.1% |
| Mechell | 949 | 64.0% | 918 | 61.1% | -31 | -3.3% | -2.9% |
| Moelfre | 564 | 51.4% | 544 | 52.3% | -20 | -3.5% | 0.9% |
| Morawelon | 676 | 45.3% | 584 | 40.4% | -92 | -13.6% | -4.9% |
| Parc a'r Mynydd | 596 | 53.8% | 563 | 50.4% | -33 | -5.5% | -3.4% |
| Pentraeth | 1,006 | 58.2% | 987 | 54.8% | -19 | -1.9% | -3.4% |
| Porthyfelin | 1,019 | 45.7% | 863 | 39.7% | -156 | -15.3% | -6.0% |
| Rhosneigr | 406 | 42.6% | 351 | 36.0% | -55 | -13.5% | -6.6% |
| Rhosyr | 1,339 | 63.7% | 1,272 | 59.3% | -67 | -5.0% | -4.4% |
| Trearddur | 979 | 42.6% | 835 | 38.1% | -144 | -14.7% | -4.5% |
| Tudur | 1,189 | 83.6% | 1,206 | 80.7% | 17 | 1.4% | -2.9% |
| Tysilio | 1,285 | 64.4% | 1,219 | 59.2% | -66 | -5.1% | -5.2% |
| Y Fali | 1,283 | 55.0% | 1,253 | 54.7% | -30 | -2.3% | -0.3% |
| | | | | | | | |
| Ynys Môn | 38,893 | 60.1% | 38,568 | 57.2% | -325 | -0.8% | -2.9% |
| Cymru | 582,368 | 20.8% | 562,016 | 19.0% | -20,352 | -3.5% | -1.7% |


*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl UV84; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS207WA*
*#Nodyn: Yn 2001 bu i 450 o ffurflenni'r Cyfrifiad a methu a chael eu prosesu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a fu arwain i dan gyfrif o 1,035 ym mhoblogaeth y ward. Golygai hyn y na ellir cymharu ffigyrau 2001 a 2011*

**Map 1: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2011**





Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl KS207WA
Cynhyrchwyd gan yr Uned Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd
Cynnwys data Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013
Cynnwys data Arolwg Ordnans Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387

**Map 2: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl UV84
Cynhyrchwyd gan yr Uned Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd
Cynnwys data Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013
Cynnwys data Arolwg Ordnans Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387


**Map 3: Newid (%) yn nifer y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001-2011**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl UV84; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS207WA
Cynhyrchwyd gan yr Uned Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd

Cynnwys data Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013
Cynnwys data Arolwg Ordnans Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387

**Map 4: Newid (pwynt %) yng nghyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy’n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001 - 2011**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl UV84; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS207WA
Cynhyrchwyd gan yr Uned Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd
Cynnwys data Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013
Cynnwys data Arolwg Ordnans Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387

### *Sgiliau ehangach yn y Gymraeg*

O ran sgiliau ehangach yn y Gymraeg gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y boblogaeth 3 oed a throsodd sydd â sgiliau yn y Gymraeg rhwng 2001 a 2011 yn Ynys Môn (Tabl 5).

**Tabl 5: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd â sgiliau yn y Gymraeg, 2001 & 2011**

| Sgiliau Cymraeg | 2001 | | 2011 | | Newid 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Mewn nifer | Mewn nifer (%) | Mewn Pwynt Canran |
| Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu | 32,672 | 50.5% | 30,756 | 45.6% | -1,916 | -5.9% | -4.9% |
| Yn gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu | 1,902 | 2.9% | 2,905 | 4.3% | 1,003 | 52.7% | 1.4% |
| Yn gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu | 4,135 | 6.4% | 4,726 | 7.0% | 591 | 14.3% | 0.6% |
| Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig | 5,649 | 8.7% | 7,215 | 10.7% | 1,566 | 27.7% | 2.0% |
| Cyfuniad arall o sgiliau | 1,176 | 1.8% | 1,277 | 1.9% | 101 | 8.6% | 0.1% |
| Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg | 45,534 | 70.4% | 46,879 | 69.6% | 1,345 | 3.0% | -0.8% |
| Dim sgiliau | 19,145 | 29.6% | 20,524 | 30.4% | 1,379 | 7.2% | 0.8% |
| Cyfanswm y boblogaeth (3+) | 64,679 | | 67,403 | | 2,724 | 4.2% | |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl KS025; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS207WA*
*Ffigwr un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg wedi'i gyfrifo drwy ddiddymu'r nifer heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg o'r cyfanswm poblogaeth 3+*

Yn 2011, roedd bron i draean y boblogaeth 3 oed a throsodd (30.4%) yn Ynys Môn heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg, sydd yn gynnydd o'r gyfran o 29.6% yn 2001. Mae hyn yn cyfateb i 1,379 yn fwy o bobl heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg (cyfystyr â chynnydd o 7.2% o ran nifer y bobl).

Ar gyfer yr un cyfnod roedd 69.6% yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, sydd yn ddirywiad o'r gyfran o 70.4% a welwyd yn 2001. Er y dirywiad o ran cyfran, o ran nifer mae cynnydd wedi bod o 45,534 yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg yn 2001 i 46,879 erbyn 2011, sef twf o 1,345 person (cyfystyr â chynnydd o 3.0% mewn nifer).

Bu cynnydd sylweddol o 52.7% yn y nifer o bobl sydd yn gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg (cyfystyr â chynnydd o 1,003 o bobl). Mae'n bosib bod cyfran sylweddol o'r cynnydd hwn oherwydd bod pobl yn llai rhugl neu'n llai hyderus wrth ysgrifennu'r Gymraeg, a bod hynny oherwydd diffyg cyfleoedd i wneud defnydd ymarferol o'r iaith.

Er cynnydd bach o 2 bwynt canran yn y gyfran sy'n gallu deall Cymraeg llafar yn unig (o gyfran o 8.7% yn 2001 i 10.7% yn 2011), mae hyn yn gynnydd o 1,566 (neu 27.7%) mewn nifer.

Yn gyffredinol, felly gellir datgan bod sgiliau yn y Gymraeg yn Ynys Môn wedi dirywio dros y degawd diwethaf.

**Tabl 6: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, yn ôl oedran, 2001-2011**

| Grŵp Oedran | 2001 | | 2011 | | Newid 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Mewn nifer | Mewn nifer (%) | Mewn Pwynt Canran |
| 3-4 | 977 | 66.8% | 1,033 | 67.5% | 56 | 5.7 % | 0.7 % |
| 5-15 | 8,092 | 86.0% | 7,150 | 89.6% | -942 | -11.6 % | 3.6 % |
| 16-19 | 2,670 | 86.5% | 2,598 | 84.4% | -72 | -2.7 % | -2.1 % |
| 20-24 | 2,724 | 82.4% | 3,000 | 77.7% | 276 | 10.1 % | -4.7 % |
| 25- 39 | 8,925 | 73.8% | 8,362 | 75.9% | -563 | -6.3 % | 2.1 % |
| 40- 49 | 5,956 | 68.2% | 6,483 | 69.0% | 527 | 8.8 % | 0.8 % |
| 50- 59 | 6,171 | 62.1% | 6,105 | 64.7% | -66 | -1.1 % | 2.6 % |
| 60- 64 | 2,422 | 59.7% | 3,167 | 58.0% | 745 | 30.8 % | -1.7 % |
| 65- 74 | 4,125 | 61.0% | 4,796 | 55.9% | 671 | 16.3 % | -5.1 % |
| 75+ | 3,472 | 59.5% | 4,185 | 59.2% | 713 | 20.5 % | -0.3 % |
| Pob oedran (3+) | 45,534 | 70.4% | 46,879 | 69.6% | 1,345 | 3.0 % | -0.8 % |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl CS133; Cyfrifiad 2011 – Tabl DC2106WA*
*Ffigwr un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg wedi'i gyfrifo drwy ddiddymu'r nifer heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg o'r cyfanswm poblogaeth 3+*

O gymharu â'r grwpiau oedran hŷn, mae'r grwpiau 'ifengach yn tueddu i gynnwys cyfran gymharol uwch o'r boblogaeth yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg. Yn 2011, roedd y gyfran uchaf o bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg ymysg y grŵp oedran 5-15 mlwydd oed (89.6%), tra bod y gyfran isaf ymysg y grŵp oedran 65-74 mlwydd oed (55.9%).

Mae hanner y grwpiau oedran wedi gweld cynnydd yn y gyfran sydd yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg rhwng 2001 a 2011, gyda'r hanner arall wedi gweld dirywiad, fel y gwelir yn **Nhabl 6**.

Dros y degawd diwethaf, mae chwe grŵp oedran wedi gweld cynnydd yn y nifer sydd yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg. Bu'r cynnydd mwyaf ymysg y grŵp oedran 60-64, gyda 745 yn fwy o bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg yn 2011 o gymharu â 2001 (cyfystyr â chynnydd o 30.8% mewn nifer).

Mae'r grwpiau oedran 5-15; 16-19; 25-39 a 50-59 mlwydd oed wedi gweld dirywiad yn y nifer o bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg ers 2001. Bu'r dirywiad mwyaf ymysg y grŵp oedran 5-15, ble roedd 942 yn llai o bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg yn 2011 o gymharu â 2001 (cyfystyr â dirywiad o 11.6% mewn nifer).

Mae **Map 5** yn dangos y gyfran o bobl 3 oed a throsodd sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg yn ôl wardiau Ynys Môn yn 2011, gyda **Map 6** yn dangos gwybodaeth debyg ar gyfer 2001.

Mae **Map 7** yn dangos y newid (fel %) o ran nifer y bobl 3 oed a throsodd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg rhwng 2001 a 2011, tra bod **Map 8** (Tudalen 26) yn dangos y newid (fel pwynt %) yng nghyfran y bobl 3 oed a throsodd sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg rhwng 2001 a 2011. Gwelir y data cyflawn yn **Nhabl 7**.

Mae Tabl 7 yn cynnwys gwybodaeth o ran y nifer a chyfran o bobl 3 oed a throsodd sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer y 40 ward yn Ynys Môn yn ôl Cyfrifiad 2001 a 2011.

O edrych ar Dabl 7 gellir gweld, heblaw am 7 ward, mae gweddill Ynys Môn wedi gweld dirywiad yn y gyfran o bobl sydd yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg rhwng 2001 a 2011. Gwelwyd y dirywiad mwyaf yn y gyfran o'r bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg yn Aberffraw, ble bu i'r gyfran ddirywio o 76.8% i 71.6% dros y cyfnod.

Ers 2001, mae 7 ward wedi profi cynnydd bach yn y gyfran o'r boblogaeth sydd yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg. Y saith ward yma yw: Biwmares, Cwm Cadnant, Llaneilian, Llanfair-yn-Neubwll, Maeshyfryd, Moelfre a'r Fali. Cwm Cadnant a welodd y cynnydd mwyaf yn y gyfran o bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, gan gynyddu o 67.6% yn 2001 i 69.8% yn 2011.

Bu i 19 o'r 40 ward, sef bron i hanner (47.5%), weld cynnydd yn y nifer o'r bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg o 2001 i 2011. Gwelwyd y cynnydd mwyaf o ran y nifer yn ward Cyngar, ble bu cynnydd o 199 o bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg (o 1,503 yn 2001 i 1,702 yn 2011, sy'n gyfystyr â chynnydd o 13.2% mewn nifer).


Gwelwyd y dirywiad mwyaf o ran y nifer yn ward Trearddur ble bu lleihad o 88 o bobl yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg (o 1,249 yn 2001 i 1,161 yn 2011, sy'n gyfystyr â dirywiad o 7.0% mewn nifer).

**Tabl 7: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001 & 2011**


| Ward | 2001 | | 2011 | | Newid 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Mewn nifer | Mewn nifer (%) | Mewn Pwynt Canran |
| Aberffraw | 972 | 76.8% | 961 | 71.6% | -11 | -1.1% | -5.2% |
| Amlwch – Ward y Porth# | 1,035 | 76.8% | 1,862 | 77.1% | # | # | # |
| Amlwch – Ward Wledig | 799 | 66.4% | 798 | 64.3% | -1 | -0.1% | -2.1% |
| Biwmares | 1,123 | 56.4% | 1,082 | 57.2% | -41 | -3.7% | 0.8% |
| Bodffordd | 1,249 | 83.8% | 1,208 | 80.7% | -41 | -3.3% | -3.1% |
| Bodorgan | 1,183 | 78.8% | 1,255 | 75.8% | 72 | 6.1% | -3.0% |
| Braint | 1,206 | 83.5% | 1,205 | 81.8% | -1 | -0.1% | -1.7% |
| Bryngwran | 1,326 | 81.8% | 1,441 | 78.3% | 115 | 8.7% | -3.5% |
| Brynteg | 1,071 | 60.4% | 1,065 | 58.3% | -6 | -0.6% | -2.1% |
| Cadnant | 641 | 61.6% | 721 | 59.8% | 80 | 12.5% | -1.8% |
| Cefni | 1,220 | 88.1% | 1,254 | 87.0% | 34 | 2.8% | -1.1% |
| Cwm Cadnant | 1,473 | 67.6% | 1,529 | 69.8% | 56 | 3.8% | 2.2% |
| Cyngar | 1,503 | 89.4% | 1,702 | 87.3% | 199 | 13.2% | -2.1% |
| Gwyngyll | 1,233 | 81.5% | 1,223 | 78.9% | -10 | -0.8% | -2.6% |
| Caergybi – Ward y Dref | 636 | 61.0% | 691 | 60.4% | 55 | 8.6% | -0.6% |
| Kingsland | 912 | 66.4% | 943 | 64.6% | 31 | 3.4% | -1.8% |
| Llanbadrig | 881 | 65.1% | 838 | 63.7% | -43 | -4.9% | -1.4% |
| Llanbedrgoch | 860 | 55.2% | 789 | 52.9% | -71 | -8.3% | -2.3% |
| Llanddyfnan | 968 | 76.8% | 930 | 72.5% | -38 | -3.9% | -4.3% |
| Llaneilian | 1,479 | 68.1% | 1,515 | 69.0% | 36 | 2.4% | 0.9% |
| Llanfaethlu | 1,121 | 73.7% | 1,153 | 72.4% | 32 | 2.9% | -1.3% |
| Llanfair-yn-Neubwll | 1,537 | 59.0% | 1,668 | 60.4% | 131 | 8.5% | 1.4% |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 1,661 | 85.1% | 1,630 | 83.6% | -31 | -1.9% | -1.5% |
| Llangoed | 789 | 63.7% | 747 | 61.8% | -42 | -5.3% | -1.9% |
| Llanidan | 1,240 | 76.7% | 1,356 | 76.0% | 116 | 9.4% | -0.7% |
| Llannerch-y-medd | 1,368 | 79.0% | 1,424 | 76.9% | 56 | 4.1% | -2.1% |
| Ffordd Llundain | 1,014 | 70.8% | 946 | 66.5% | -68 | -6.7% | -4.3% |
| Maeshyfryd | 1,331 | 62.3% | 1,396 | 64.1% | 65 | 4.9% | 1.8% |
| Mechell | 1,043 | 70.3% | 1,030 | 68.6% | -13 | -1.2% | -1.7% |
| Moelfre | 670 | 61.1% | 645 | 62.0% | -25 | -3.7% | 0.9% |
| Morawelon | 945 | 63.4% | 915 | 63.2% | -30 | -3.2% | -0.2% |
| Parc a'r Mynydd | 800 | 72.2% | 806 | 72.1% | 6 | 0.8% | -0.1% |
| Pentraeth | 1,191 | 68.8% | 1,210 | 67.1% | 19 | 1.6% | -1.7% |
| Porthyfelin | 1,453 | 65.2% | 1,377 | 63.4% | -76 | -5.2% | -1.8% |
| Rhosneigr | 498 | 52.3% | 483 | 49.5% | -15 | -3.0% | -2.8% |
| Rhosyr | 1,484 | 70.6% | 1,482 | 69.1% | -2 | -0.1% | -1.5% |
| Trearddur | 1,249 | 54.3% | 1,161 | 52.9% | -88 | -7.0% | -1.4% |
| Tudur | 1,284 | 90.2% | 1,335 | 89.3% | 51 | 4.0% | -0.9% |
| Tysilio | 1,522 | 76.3% | 1,528 | 74.2% | 6 | 0.4% | -2.1% |
| Y Fali | 1,564 | 67.0% | 1,575 | 68.7% | 11 | 0.7% | 1.7% |
| | | | | | | | |
| Ynys Môn | 45,534 | 70.4% | 46,879 | 69.6% | 1,345 | 3.0% | -0.8% |
| Cymru | 797,717 | 28.4% | 787,854 | 26.7% | -9,863 | -1.2% | -1.7% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 – KS25; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS208WA*
*Ar gyfer 2001 mae'r ffigwr un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg wedi'i gyfrifo drwy ddiddymu'r nifer heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg o'r cyfanswm poblogaeth 3+*
*#Nodyn: Yn 2001 bu i 450 o ffurflenni'r Cyfrifiad a methu a chael eu prosesu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a fu arwain i dan gyfrif o 1,035 yn boblogaeth y ward. Golygai hyn y na ellir cymharu ffigyrau 2001 a 2011*

**Map 5: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2011**




**Map 6: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001**





Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl KS25
Cynhyrchwyd gan yr Uned Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd
Cynnwys data Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013
Cynnwys data Arolwg Ordnans Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387

**Map 7: Newid (%) yn nifer y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001-2011**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl KS25; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS208WA
Cynhyrchwyd gan yr Uned Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd
Cynnwys data Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013
Cynnwys data Arolwg Ordnans Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387

**Map 8: Newid (pwynt %) yng nghyfran y bobl (3 oed a throsodd) ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, fesul ward, 2001 - 2011**



## *Y Gymraeg – Effaith Mudo*

Bu i boblogaeth Ynys Môn gynyddu o 2,922 yn ystod y cyfnod rhwng 2001 a 2011. Yn seiliedig ar newid naturiol yn unig (h.y. genedigaethau a marwolaethau), ni fyddai poblogaeth y sir wedi tyfu dros y cyfnod yma. Felly, mae'r newid hwn yn y boblogaeth oherwydd effaith mudo - gan gynnwys mudo mewnol (oddi fewn i'r Deyrnas Unedig) a mudo o dramor.

Mae ystadegau am fudo mewnol o weddill y DU a mewnfudo o dramor yn gyfyngedig. Mae mewnfudo o dramor i'r DU yn bwnc gwleidyddol sensitif, ac yn ddiweddar mae cryn sylw wedi ei roi i sut mae mesur ei faint a'r camau naill ai sydd wedi eu cymryd yn barod neu sydd mewn llaw i wella dibynadwyedd yr ystadegau. Er hyn, mae'r prif sylw wedi ei roi ar wella'r ystadegau ar raddfa'r DU yn ei chyfanrwydd, ac nid yw'r ystadegau ar fewnfudo i Gymru o dramor yn ddibynadwy iawn nac yn debyg o fod cystal â'r ystadegau ar lefel y DU cyfan (Jones, 2012). Mae ystadegau ar lefel awdurdod lleol felly yng Nghymru yn llai dibynadwy, a dylid eu trin gyda gofal.

Drwy'r ddegawd ddiwethaf (canol 2001 i ganol 2011) mae ar gyfartaledd 2,350 o bobl bob blwyddyn wedi mewnfudo i Ynys Môn o weddill y DU. (Mae hyn yn cyfateb i boblogaeth Y Fali yn symud i'r Sir bob blwyddyn[1].) Crynswth y mewnfudo yw hyn. Mae pobl wedi bod yn symud allan o'r sir bob blwyddyn hefyd, ond gan fod llai wedi bod yn symud allan bob blwyddyn nag sydd wedi bod yn symud i mewn, yn gyffredinol bu mudo net positif o oddeutu 150 o bobl bob blwyddyn [2].

Ym Môn, mae mudo net negyddol yr uchaf ymysg y grŵp oedran 15-29, gydag ar gyfartaledd oddeutu 180 mwy o bobl o'r grŵp oedran hwn yn symud allan o'r sir nag yn symud i mewn iddi[3]. Gall y rhesymau am hyn gynnwys myfyrwyr llawn-amser yn symud i ffwrdd i astudio a graddedigion diweddar a phobl ifanc yn mynd du-allan i Fôn er mwyn dilyn gyrfaoedd.

Mae mudo net positif yr uchaf ymysg y grŵp oedran 45-59, gydag ar gyfartaledd oddeutu 130 yn fwy o bobl o'r grŵp oedran hwn yn symud i mewn i'r sir nag yn symud allan ohoni[4]. Mae'n debygol mai'r brîf reswm am hyn yw bod pobl yn dewis byw yn Ynys Môn wedi iddynt ymddeol.

Gan nad oes cymunedau brodorol o siaradwyr Cymraeg tramor, ag eithriad Gwladfa'r Ariannin efallai, mae'n debyg mai di-gymraeg fydd mwyafrif mawr y mewnfudwyr p'un ydynt yn dod o wledydd eraill Prydain neu o dramor. Felly, hyd yn oed petai'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg yn sefydlog, un canlyniad mewnfudo fyddai bod y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn gostwng (Jones, 2012).

Mewnfudwyr amlwg o siaradwyr Cymraeg fyddai'r Cymry Cymraeg sy'n dychwelyd ar ôl allfudo mewn blynyddoedd blaenorol (Jones, 2012). Gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2001 gallwn amcangyfrif bod oddeutu 491 o siaradwyr Cymraeg wedi mewnfudo i Ynys Môn yn ystod y 12 mis cyn y Cyfrifiad[5], yn bennaf, mae'n debyg, myfyrwyr Cymraeg yn dychwelyd i'r Sir ar ôl astudio mewn prifysgol.

---

[1] Poblogaeth Y Fali yn 2,361 o bobl yn 2011; Cyfrifad 2011 – Tabl KS101EW

[2] Dadansoddiad gan Uned Ymchwil Corfforaethol, Cyngor Gwynedd o Ystadegau mudo mewnol o weddill y DU y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Data ar gael drwy StatsCymru: https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Population-and-Migration/Migration/Internal/MigrationBetweenWalesAndTheRestOfTheUK-by-LocalAuthority-Flow-PeriodOfChange

[3] Fel yr uchod

[4] Fel yr uchod

[5] Cyfrifiad 2001 – Tabl ST146. Ar sail y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg ymhlith y rhai dros 15 oed. Methodoleg a ddefnyddwyd yn troednodyn **Error! Bookmark not defined.**

Mae'n debygol bod allfudiad net o siaradwyr Cymraeg, hynny yw, bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn symud o Ynys Môn nac sy'n symud yn ôl, ond mae'n fwy anodd amcangyfrif faint o siaradwyr Cymraeg sy'n allfudo. Yn y 12 mis cyn Cyfrifiad 2001, hwyrach fod oddeutu 849 o siaradwyr Cymraeg wedi allfudo o Ynys Môn[6]. Gan ddefnyddio'r amcangyfrif am y rhai a fewnfudodd a roddwyd yn flaenorol, byddai hynny'n awgrymu fod ychydig dros 42% yn allfudo a ddim yn dychwelyd.

Beth bynnag yw maint yr allfudo net, y peth arwyddocaol o ran cynaliadwyedd y Gymraeg ymhlith poblogaeth Ynys Môn yw bod allfudiad net. Golyga hynny bod yn rhaid, os am gynnal niferoedd presennol y siaradwyr, atgynhyrchu (trwy drosglwyddiad iaith rhwng y cenedlaethau) neu gynhyrchu (trwy addysg) mwy o siaradwyr Cymraeg bob blwyddyn nag sy'n marw, dim ond er mwyn cadw'r ddysgl yn wastad.

Un newidyn y gellir edrych arno o ran ystadegau'r Gymraeg a mudo yw gwlad enedigol y boblogaeth o ran eu sgiliau Cymraeg. Ym Môn, roedd cyfran y boblogaeth a anwyd y tu allan i Gymru wedi cynyddu o 32.4% (21,670 o bobl)[7] yn 2001 i 33.6% (23,448 o bobl)[8] yn 2011.

Mae **Tabl 8** a **Thabl 9** yn dangos y nifer a chyfran o siaradwyr Cymraeg a'r nifer a chyfran sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg yn ôl gwlad enedigol yn 2001 a 2011. Fel y disgwylir, yn 2011 roedd cyfran is o boblogaeth Ynys Môn a anwyd tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg (17.6%) o gymharu â'r bobl hynny a anwyd yng Nghymru (78.2%). Mae cyfran is o'r boblogaeth a anwyd tu allan i Gymru yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg (30.6%) o gymharu â'r rhai hynny a ganwyd yng Nghymru (90.2%).

Er dirywiad o ran y gyfran o siaradwyr Cymraeg, o ran niferoedd mae'r nifer sydd wedi eu geni tu allan i Gymru ond yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn wedi cynyddu o 65 person (cyfystyr â chynnydd o 1.6%) dros y 10 mlynedd ddiwethaf. O gymharu, mae'r nifer o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg a anwyd yng Nghymru wedi lleihau o 390 o bobl (cyfystyr â lleihad o 1.1%) yn y deg mlynedd ddiwethaf, gan leihau o gyfran o 80.8% yn 2001 i gyfran o 78.2% yn 2011.

O ran y bobl hynny sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, mae'r sefyllfa yn fwy cadarnhaol. Mae'r nifer wedi cynyddu ers 2001 ymysg y rhai hynny a ganwyd yng Nghymru ynghyd â'r bobl hynny a ganwyd tu allan i Gymru. Yn wir, gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nhermau'r gyfran o gynnydd ymysg y bobl hynny a ganwyd tu allan i Gymru, gan gynyddu o 9.2% (cyfystyr â chynnydd o 598 person).

Mae Awdurdod Addysg Ynys Môn yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion y sir, ac mae effaith y polisi yma yn bendant yn un gadarnhaol o ran gallu plant a anwyd tu allan i Gymru yn y Gymraeg. Yn 2011, roedd 71.9%[9] o'r boblogaeth 3 i 15 mlwydd oed Ynys Môn a anwyd tu allan i Gymru yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg. Mae hyn yn gynnydd ers 2001, ble roedd y gyfran gyfatebol yn 66.3%[10].

[6] Wedi ei seilio ar y niferoedd fu allfudo o Ynys Môn yn y flwyddyn cyn Cyfrfiad 2001 (Cyfrfiad 2001 – Tabl ST008) a'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhygl yn 5-15 mlwydd oed yn ôl Cyfrfiad Ysgolion 2002/2003 (46.5%). Methodoleg a ddefnyddwyd yn nhroednodyn **Error! Bookmark not defined.**
[7] Cyfrifiad 2001 – Tabl KS005
[8] Cyfrifiad 2011 – Tabl KS204EW
[9] Cyfrifiad 2011 – Tabl DC2206WA
[10] Cyfrifiad 2001 – Tabl TT015 & ST133

**Tabl 8: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl gwlad enedigol, 2001 & 2011**

| Grŵp Oedran | 2001 | | 2011 | | Newid 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Mewn nifer | Mewn nifer (%) | Mewn Pwynt Canran |
| Ganwyd yng Nghymru | 34,855 | 80.8% | 34,465 | 78.2% | -390 | -1.1% | -2.6% |
| Ganwyd tu allan i Gymru | 4,038 | 18.7% | 4,103 | 17.6% | 65 | 1.6% | -1.1% |
| Pob oedran (3+) | 38,893 | 60.1% | 38,568 | 57.2% | -325 | -0.8% | -2.9% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl CT009; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2206WA*

**Tabl 9: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg, yn ôl gwlad enedigol, 2001 & 2011**

| Grŵp Oedran | 2001 | | 2011 | | Newid 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Mewn nifer | Mewn nifer (%) | Mewn Pwynt Canran |
| Ganwyd yng Nghymru | 39,008 | 90.4% | 39,755 | 90.2% | 747 | 1.9% | -0.2% |
| Ganwyd tu allan i Gymru | 6,526 | 30.3% | 7,124 | 30.6% | 598 | 9.2% | 0.3% |
| Pob oedran (3+) | 45,534 | 70.4% | 46,879 | 69.6% | 1,345 | 3.0% | -0.8% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 – Tabl CT006; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2206WA*

O ran cymhathu mewnfudwyr mae yna weithgareddau ac adnoddau wedi eu sefydlu o fewn y rhwydweithiau Cymraeg lleol i addysgu a chodi ymwybyddiaeth mewnfudwyr o gefndir ieithyddol a diwylliannol yr ardal. Un prosiect sydd yn helpu newydd ddyfodiaid i ddysgu mwy am yr ardal, cael gwybodaeth am ddysgu Cymraeg a sut i helpu eu plant wrth iddynt gael addysg Gymraeg yw'r prosiect Blas ar Gymru sydd yn brosiect ar y cyd y Fenter Iaith a Chanolfannau Iaith Môn (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 17)

Yn 2008 gweithredodd Menter Iaith Môn gynllun cymhathu yn ardal dde-orllewin Môn gyda'r bwriad o '*greu cyfleoedd i fewnfudwyr fod yn rhan o'u cymunedau lleol*'. Dangosodd y gwerthusiad o'r prosiect bod y math yma o fuddsoddiad yn medru creu newid sylweddol o ran nid yn unig lleihau dieithrwch/ ofn ymysg newydd-ddyfodiaid, ond o ran symud tuag at 'berthyn' i ardal / bro, ac o ran newid agweddau at y Gymraeg yn sylweddol (y math mwyaf anodd o newid i'w greu). O gofio'r awydd i osgoi "cymunedau cyfochrog" ieithyddol, mae'n sicr bod y math yma o weithredu yn medru cyfrannu yn arwyddocaol tuag at hynny (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 4).

## Bwrlwm Cymdeithasol a Diwylliannol

Mae **Tabl 10** yn cynnig ychydig o enghreifftiau o'r cyfleoedd creadigol a chymdeithasol cyfrwng Cymraeg sydd yn bodoli ar Ynys Môn. Dangosir y tabl yma bod presenoldeb cryf o fudiadau a sefydliadau Cymraeg traddodiadol yn y sir sy'n helpu i gynnal a hyrwyddo rhwydweithiau diwylliannol a chreadigol Cymreig ynghyd a chynnal y profiad o fod yn perthyn i gymdogaeth fywiog.

**Tabl 10: Cymdeithasau / Gweithgareddau sydd yn hybu bwrlwm cymdeithasol a diwylliannol Cymreig**

| Cymdeithas / Gweithgaredd | Nodiadau |
|---|---|
| Efo Babi? Efo Pram? | Teithiau cerdded i rieni â phlant ifanc ar hyd llwybrau arfordirol Môn. Pwrpas y prosiect yw darparu cyfleoedd i rieni sgwrsio yn Gymraeg gyda'i gilydd, hyrwyddo cadw'n heini a darparu cyfleoedd a chymorth i rieni sydd yn dysgu Cymraeg ac yn ddi-gymraeg. Gweithredir y prosiect gan Fenter Iaith Môn mewn partneriaeth â THWF a Chyngor Sir Ynys Môn (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 17). |
| Amser Twf | Sesiwn mwytho babi, canu hwyangerddi a storïau drwy gyfrwng y Gymraeg, cyfle am baned yn y sesiwn, dod i adnabod Cymry Cymraeg, ag iddynt hwy drosglwyddo'r iaith i fabis o deuluoedd di-gymraeg (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 4). |
| Rhannu Rhigwm | Mae Swyddogion TWF yn cynnal sesiynau Rhannu Rhigwm, mewn patrwm â phartneriaid eraill, ymhob llyfrgell sy'n ei gynnal yn wythnosol, canu a storïau (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 4). |
| Clybiau Babis | Rhain yn eu harwain gan ymwelwyr iechyd, ond yn gwahodd amryw o wahanol sefydliadau i'r grŵp yn achlysurol. Cyfle i drosglwyddo'r neges, a rhoi esiampl ar sut i drosglwyddo'r Iaith, sesiwn canu, stori, a dangos esiamplau Cyw, llyfrau, rhoi cyngor ar gylchoedd Ti a Fi a chylchoedd meithrin iddynt fynychu (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 4). |
| Cylchoedd Ti a Fi | Pwrpas cylch Ti a Fi yw rhoi cyfle i rieni neu warchodwyr gwrdd yn rheolaidd i fwynhau chwarae gyda'u plant a chymdeithasu dros baned neu ddisgled o de!<br><br>Mae'r cylchoedd Ti a Fi yn cynnig gweithgareddau sy'n helpu datblygiad plant o enedigaeth hyd at oed ysgol. Mae'n gyfle gwych i rieni/gwarchodwyr gwrdd i rannu profiadau a chymdeithasu mewn awyrgylch Gymreig.<br><br>Wrth fynd i'r cylch Ti a Fi bydd plant yn cael cyfle i:<br><br>• fwynhau chwarae a gneud ffrindiau bach newydd<br>• chwarae gyda phob math o deganau<br>• dysgu caneuon bach syml y gall y teulu eu canu gyda'i gilydd gartref<br>• gwrando ar storiau<br>• chwarae gyda thywod a chlai (Mudiad Meithrin, Ar-lein) |
| Cylchoedd Meithrin | Nod y cylch meithrin yw hyrwyddo addysg a datblygiad plant o ddwy flwydd oed hyd at oed ysgol. Mae cyfle i blant gymdeithasu a dysgu trwy |

| | |
|---|---|
| | chwarae dan arweiniad staff proffesiynol, cymwys a brwdfrydig.<br><br>• Mae dros 500 o gylchoedd meithrin yng Nghymru<br>• Mae tua 13,000 o blant yn mwynhau dysgu trwy chwarae yn y cylchoedd meithrin<br>• Cymraeg yw iaith y cylch meithrin ond mae croeso i bob plentyn yn y cylch dim ots beth yw’r iaith sy’n cael ei siarad yn y cartref.<br><br>Mae chwarae yn bwysig i bob agwedd o ddatblygiad plant. Felly, mae’r profiadau a gweithgareddau'r yn y cylch wedi cael eu seilio ar ddysgu trwy chwarae. Mae pwyslais arbennig ar ddatblygiad iaith, datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol plant yn y cylchoedd.<br><br>Mae croeso cynnes i bob plentyn ddod i'r cylchoedd Meithrin waeth beth fo'i liw, hil, dosbarth cymdeithasol, sefyllfa deuluol neu anghenion addysgol. Mae cefnogaeth ychwanegol ar gael i blant gydag anghenion ychwanegol i'w galluogi i ymuno yn holl weithgareddau'r cylch (Mudiad Meithrin, Ar lein). |
| Cymraeg o'r Crud / Hwyl i'r teulu | Gwersi Cymraeg anffurfiol, drwy Goleg Harlech a Menai, mewn lleoliadau amrywiol ar yr Ynys, hyd at 10 tymor yma, Twf yn ei hyrwyddo a'n mynychu'r cynta' a'r ola', a'n rhoi cyngor ar grwpiau i'w mynychu i ymarfer y Gymraeg wedi'r cwrs (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 4). |
| Clybiau Ieuenctid | Mae’r Cyngor Sir yn gyfrifol am 38 o glybiau Ieuenctid Môn. Mae’r ddarpariaeth ar gael yn ddwyieithog (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 10). |
| Menter Iaith Môn | • Prosiect Radio yn yr ysgolion Uwchradd er mwyn hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg a meithrin sgiliau cyfryngau i bobl ifanc;<br>• Chwaraeon a hamddena-gweithdai awyr agored i bobl ifanc;<br>• Gweithdai creu cerddoriaeth i bobl ifanc.<br>• Teithiau pramiau er mwyn annog trosglwyddiad Iaith a hyrwyddo cyfleoedd i gymdeithasu;<br>• Prosiect Blas ar Gymru mewn partneriaeth â’r canolfannau Iaith er mwyn helpu newydd ddyfodiaid i’r ardal (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 11). |
| Yr Urdd | Mae gan yr Urdd 5 aelod o staff ym Môn ac oddeutu 150 o Wirfoddolwyr. Mae’r Urdd yn cael ei gefnogi gan Bwyllgor o Wirfoddolwyr brwd. Mae Ynys Môn wedi ei rannu yn 4 Cylch sef Cefni, Glannau Menai, Eilian ac Alaw/Cybi. Mae Pwyllgor Cylch yn bodoli ymhob cylch sef tîm o wirfoddolwyr ei hadrannau sydd yn dod at ei gilydd er mwyn trin a thrafod gweithgareddau’r Cylch. Cefnogir y Pwyllgorau Cylch gan y Pwyllgor Rhanbarth sef tîm o bobl o ar draws y Rhanbarth sydd â chyswllt gyda’r Mudiad. Mae gan bob pwyllgor Gadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd.<br><br>Pwyllgorau yw asgwrn cefn y Mudiad ym Môn. Mae aelodau’r pwyllgorau yn trefnu a mynychu nosweithiau a digwyddiadau codi arian er mwyn cefnogi gwaith y swyddogion oddi fewn i’r Rhanbarth. Gweithgareddau megis Ocsiwn Addewidion, sioeau ffasiwn a diwrnod codi arian mewn archfarchnad (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 11).<br><br>Chwaraeon - Dros y flwyddyn bu 2,780 (o’i gymharu â 2,716 y llynedd) |

| | |
|---|---|
| | sef cynnydd o 2.3% yn cystadlu yng nghystadlaethau Chwaraeon yr Urdd o fewn y Rhanbarth gyda 108 o'r rheini yn yr oedran Uwchradd, Cynnydd o 31.7%. Mae'r rhain yn cynnwys Nofio Cynradd/Uwchradd, rygbi, pêl droed, pêl rwyd, gymnasteg, mabolgampau, trawsgwlad a rownderi. Cafodd 104 o'r Oedran Uwchradd gyfle i gynrychioli'r Rhanbarth mewn cystadlaethau Taleithiol a Chenedlaethol megis Nofio, Pêl Droed a Gymnasteg.<br><br>Cyrsiau Chwaraeon (16+) - Drwy'r swyddog Chwaraeon mae sawl person ifanc o Fôn wedi manteisio ar y cyfleoedd i ennill cymwysterau Cenedlaethol Chwaraeon yn ogystal â Chymorth Cyntaf gan gynnwys:<br>• Cwrs CSLA - 3<br>• Cwrs Gymnasteg A-Z - 1<br>• Cwrs Dechrau allan - 10<br>• Cwrs Athletau - 3<br><br>Eisteddfodau - Eleni, bu i 6,417 o blant a phobl ifanc gystadlu mewn cystadlaethau dawns, celf, llenyddol, cerddorol, offerynnol neu adrodd mewn 5 Eisteddfod Cylch a 3 Eisteddfod Rhanbarth. |
| Mudiad Ffermwyr Ifanc | Mae Mudiad y Ffermwyr Ifanc yn parhau yn fudiad pwysig a phoblogaidd ym Môn gyda chyfanswm o 177 o aelodau yn y 6 chlwb (Rhosybol, Bodedern, Dwyran, Llangefni, Penmynydd a Llangoed). Gweithredir yr holl weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg a cheir cyfleoedd i fwynhau rali flynyddol, cystadlu mewn eisteddfodau a gigs (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 11). |
| Merched y Wawr | Mae Merched y Wawr yn darparu cyfle i gymdeithasu a gwneud rhywbeth cadarnhaol trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma gyfle i hyrwyddo Cymreictod a chael hwyl wrth wneud hynny. Mae Merched y Wawr yn ymgyrchu dros hawliau'r iaith Gymraeg a hawliau merched. Ym Môn, mae 21 - 20 clwb + 1 cangen: Amlwch, Benllech, Bodedern, Bodwrog, Brynsiencyn, Caergybi, Cemaes, Gaerwen, CG Y Gors Goch, Llanddeusant, Llandegfan, Llanfairpwllgwyngyll, Llanfechell, Llangefni, Llannerchymedd, Maelog, Porthaethwy, Rhosmeirch, Rhosybol, Talwrn, Y Fali (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 13). |
| Capeli ac Eglwysi | Mae Cymdeithasau Capeli ac Eglwysi Môn yn weithgar yn trefnu nosweithiau i'r gymdeithas leol, prynhawniau te a gweithgareddau codi arian amrywiol.Mae'r traddodiad Cymreig o gynnal Cymanfaoedd Canu yn parhau gyda nifer yn ystod y flwyddyn. Ceir hefyd ambell I Ysgol Sul ar hyd a lled y sir (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 13). |
| Papurau Bro | Mae 4 papur bro yn gwasanaethu dalgylchoedd Môn. Mewn partneriaeth â Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru, mi ellir cael detholiad o gynnwys y rhan fwyaf o'r papurau lleol wedi ei ddarllen gan wirfoddolwyr a'i recordio ar dâp. Dyma un o'r prif ffynonellau pwysicaf y dylid cyfeirio atynt wrth lunio proffil Iaith ar gyfer ardal benodol. Maen nhw'n cynnwys gwybodaeth eang am yr hyn sydd wedi ei gynnal yn y Gymraeg yn lleol, hysbysebion am ddigwyddiadau sydd ar y gweill ac yn rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau ysgolion, capeli, cymdeithasau a chynghorau tref a chymuned leol (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 14). |
| Eisteddfodau, Gwyliau | Caiff Eisteddfod Môn ei chynnal yn flynyddol mewn gwahanol ardaloedd |

| | |
|---|---|
| a Digwyddiadau Lleol | ar hyd a lled yr Ynys. Cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Môn nesaf Mai 17 2013 ym Mro Cefni. Yn ystod 2012 fe fydd Eisteddfod Bodffordd, Eisteddfod Talwrn ac Eisteddfod Marian-glas. Mae Eisteddfod Ieuenctid yn cael ei gynnal hefyd ym Marian-glas.<br><br>Ym Môn mae nifer cynyddol o wyliau amrywiol-rhai cyfrwng Cymraeg a rhai dwyieithog. Yn eu mysg yn wyliau sydd yn hyrwyddo cerddoriaeth ac adloniant Gymraeg mae Gŵyl Cefni (uniaith Gymraeg) a Gŵyl Gopr a Gŵyl y Llychlynwyr (dwyieithog) yn Amlwch. Mae'r ddwy ŵyl yma am ddim.<br><br>Ceir Gŵyl Gerdded ym mis Mai-Mehefin gyda dewis o deithiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a theithiau i ddysgwyr,<br><br>Cynhelir amrywiaeth o wyliau bwyd, fel Gŵyl Llymarch Môn ym Mae Trearddur pob mis Hydref ac mae marchnad ffermwyr bob mis ym Mhorthaethwy (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 13). |
| Theatr Ieuenctid Môn | Darpariaeth perfformio gelfyddydol a'i ail sefydlwyd yn 2002 gan y Fenter Iaith ac sydd â thros 120 o aelodau rhwng 7-18 oed yn mynychu. Cynhelir grwpiau dysgu sgiliau actio a pherfformio o bob math mewn 4 lleoliad ar yr Ynys-Bodedern, Amlwch, Llangefni a Phorthaethwy. Mae 3 Tîm Bach (7-11oed) a TÎM Mawr ar gyfer rhai 11-18. Mae'r ddarpariaeth yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg ac yn darparu cyfleoedd blynyddol i'r aelodau ymweld â sioeau, llwyfannu eu sioeau eu hunain a pherfformio mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 11). |
| Côr Ieuenctid Môn | Mae Côr Ieuenctid Môn yn cyfarfod yn wythnosol ac wedi adeiladu ar eu llwyddiant yn darparu cyfleoedd perfformio cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc. Mae dros ** o aelodau yn perthyn i'r côr (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 11). |

## Trosglwyddo Iaith yn y cartref

Mae trosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r llall yn cael ei ystyried yn un o'r ddau faes pwysicaf o ran cynllunio ieithyddol, ynghyd ag addysg. "Nid yw'r Gymraeg yn debygol o ffynnu fel iaith gymunedol a chymdeithasol os yw'n dibynnu ar y system addysg yn unig fel ffordd o alluogi siaradwyr newydd i ddysgu'r iaith. Mae angen iddi fod yn iaith y cartref i gynifer o blant â phosibl, ac yn ddiamau, mae caffael yr iaith yn y modd hwn yn ffordd naturiol ac effeithiol o ddatblygu'n siaradwr Cymraeg rhugl" (Llywodraeth Cymru, 2012, Tud 25).

Mae **Tabl 11** yn dangos canlyniadau allweddol o ran trosglwyddo'r iaith yn y cartref o edrych ar ddata sydd ar gael o Gyfrifiad 2011 a 2001. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar aelwydydd un teulu sydd â phlant 3-4 mlwydd oed ac mae'r raddfa drosglwyddo yn cael ei ddiffinio fel y gyfran o blant 3-4 mlwydd oed mewn teulu sydd yn gallu siarad Cymraeg.

Ceir corff o dystiolaeth sy'n awgrymu bod y Gymraeg yn llai tebygol o gael ei defnyddio o fewn teuluoedd lle nad yw ond un oedolyn yn siarad Cymraeg, ac mae'r data yn Nhabl 11 yn cefnogi'r awgrym yma.

**Tabl 11: Cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg, 2001 & 2011**

| Aelwydydd un teulu â phlant 3-4 oed | Ynys Môn | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | **2001** | **2011** | **2001** | **2011** |
| Pâr – Dau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg | 79.0% | 80.1% | 82.0% | 82.2% |
| Pâr - Un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg | 49.1% | 47.5% | 39.9% | 45.4% |
| Pâr - Dim oedolyn yn gallu siarad Cymraeg | 15.5% | 20.6% | 8.6% | 13.2% |
| Un rhiant – Oedolyn yn gallu siarad Cymraeg | 69.8% | 60.8% | 55.3% | 53.3% |
| Un rhiant - Oedolyn ddim yn gallu siarad Cymraeg | 25.2% | 25.4% | 9.8% | 14.4% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 –C0156; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2601WA*

Mae'r ystadegau yn Nhabl 11 yn dangos bod y gyfradd drosglwyddo ym Môn ar gyfer aelwydydd pâr, lle gallai dau oedolyn siarad Cymraeg, wedi cynyddu o 79.0% yn 2001 i 80.1% yn 2011. Ar gyfer Cymru gyfan bu i'r gyfradd drosglwyddo aros yn sefydlog ar oddeutu 82%.

Mae'r gyfradd drosglwyddo ar gyfer aelwydydd pâr, lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg, wedi lleihau o 49.1% yn 2001 i 47.5% yn 2001 yn Ynys Môn. I'r gwrthwyneb mae Cymru gyfan wedi gweld cynnydd o 39.9% yn 2001 i 45.4% yn 2011.

Ers 2001 gwelwyd dirywiad ym Môn a Chymru gyfan o ran y gyfradd drosglwyddo ar gyfer aelwydydd un rhiant lle gallai'r oedolyn siarad Cymraeg. Bu i Ynys Môn weld dirywiad o gyfradd o 69.8% yn 2001 i 60.8% yn 2011.

Mae amryw o ffactorau yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau rhieni/gofalwyr ynghylch trosglwyddo iaith. "Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod dewis yn fater greddfol i raddau helaeth a bod rhieni/gofalwyr yn dueddol o ddefnyddio'r iaith y maent fwyaf cyfarwydd â hi, neu'r iaith y maent yn ei siarad â'u partner. O ran y ffactorau sy'n dylanwadu ar yr iaith a gaiff ei dewis gan y plentyn, maent yn cynnwys eu 'cymuned' o siaradwyr - sy'n cynnwys rhieni/gofalwyr, brodyr a chwiorydd, neiniau a theidiau, athrawon a ffrindiau - yn ogystal â dylanwadau cymdeithasol eraill fel y cyfryngau a gweithgareddau cymunedol" (Ibid. Tud 25-26)

Dros y deg mlynedd diwethaf, bu i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynt fuddsoddi cryn egni ac arbenigedd ym maes trosglwyddo iaith. Ei brif fenter oedd Twf, sef prosiect arloesol ac eang ei gwmpas sy'n ceisio annog rhieni/gofalwyr Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg â'u plant, bu ei brif fenter. Mae prosiect Twf yn cyfleu i rieni/gofalwyr, darpar rieni/gofalwyr a'r cyhoedd fanteision siarad Cymraeg gartref, ynghyd â manteision diwylliannol ac economaidd magu plant yn ddwyieithog (Ibid., Tud 26).

Mae Cynllun Twf yn weithredol yn Ynys Môn gyda dau swyddog maes sy'n trefnu gweithgareddau a chlybiau ac yn ymweld â chlinigau er mwyn trafod efo rhieni a chynorthwyo gan hyrwyddo manteision cyflwyno'r Gymraeg o'r crud (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 4). Yn ogystal ceir amryw o weithgareddau cefnogol i rieni yn bodoli ar yr Ynys er enghraifft sesiynau Rhannu Rhigwm; Amser Twf; clybiau babis; cylchoedd Ti a Fi a sesiynau Cymraeg o'r Crud/Hwyl i'r teulu. Gwelir mwy o wybodaeth am y rhain yn Nhabl 10.

# Addysg

## *Y Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar*

Ers mis Medi 2004, mae pob plentyn 3 oed wedi cael y cynnig o addysg hanner amser am ddim. Gall yr addysg honno gael ei ddarparu un ai mewn ysgol a gynhelir neu mewn lleoliadau a gyllidir (Jones, 2012, Tud 64). Mae Cynllun Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau darpariaeth addysg feithrin o ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd yn 3 oed. Mae'r addysg feithrin a gynigir yn ddi-dâl am o leiaf 2 awr y dydd ac yn dechrau'r tymor yn dilyn y 3ydd pen-blwydd i'r Medi yn dilyn y 3ydd pen-blwydd yn ddieithriad yn y sector gwirfoddol. Mae'r ddarpariaeth o'r Medi yn dilyn y 3ydd pen-blwydd mewn ysgolion a gynhelir mewn rhai ardaloedd ac yn y sector gwirfoddol mewn ardaloedd eraill. Amcan penodol addysg feithrin Cyngor Sir Ynys Môn yw sicrhau y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 4).

Mae'r Awdurdod Addysg Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi'r ddarpariaeth i blant o'r oedran 3 i fyny drwy un o ddwy ffordd (Cyngor Sir Ynys Môn, 2011-2012, Tud 2):

- Cefnogir drwy grant 44 o leoliadau nas cynhelir - 36 drwy'r Mudiad Meithrin a 8 drwy'r WPPA. Gwneir y ddarpariaeth uchod ar y ddealltwriaeth bod y lleoliadau'n gweithredu Polisi Iaith yr Awdurdod.

- Cyllido'r ysgolion drwy'r fformiwla Ariannu Teg i gynnal dosbarth meithrin. Ym mis Medi 2012 roedd gan 39 o ysgolion ddosbarth meithrin ar gyfer XX o ddisgyblion.

Arfarnwyd safon darpariaeth yr Iaith Gymraeg yn y lleoliadau nas cynhelir yn ystod Tymor yr Haf 2012. Barnwyd y ddarpariaeth yn dda mewn 33 lleoliad, yn ddigonol mewn 8 ac yn anfoddhaol mewn 3. Mae'r 3 lleoliad yma wedi derbyn llythyr swyddogol gan Awdurdod Addysg Cyngor Sir Ynys Môn yn eu cymell i gydweithio gyda'r Awdurdod i wella'r ddarpariaeth gogyfer â datblygu'r Gymraeg. Os na cheir gwelliant yna bydd yr Awdurdod yn ystyried a ddylid parhau gyda'r gefnogaeth gyllidol (Cyngor Sir Ynys Môn, 2011-2012, Tud 2-3).

Mae 74 o warchodwyr plant wedi eu cofrestru ar Ynys Môn gyda'r rhan helaeth ohonynt yn ddi-gymraeg. Mae deg meithrinfa ar yr ynys, naw ohonynt yn cael eu rhedeg yn breifat er y ceir cyswllt gyda mudiad gwirfoddol mewn pedair ohonynt. Mae'r un arall yn cael ei chynnal drwy bwyllgor Cymunedau Gyntaf yng Nghaergybi. Mae arfarnu ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg yn fater mae angen i'r Awdurdod ystyried (Cyngor Sir Ynys Môn, 2011-2012, Tud 3).

Mudiad gwirfoddol sydd yn arbenigo mewn gofal ac addysg blynyddoedd cynnar yw'r Mudiad Meithrin. Sefydlwyd Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) yn ôl yn 1971 er mwyn sefydlu cylchoedd meithrin a chefnogi a hyrwyddo addysg Gymraeg (Mudiad Meithrin, Ar-lein), bu i'r mudiad fabwysiadu enw newydd, Mudiad Meithrin yn 2011. Nod y Mudiad Meithrin yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.

O ran y Mudiad Ysgolion Meithrin ym Môn cyflogir dau swyddog datblygu - un yn gyfrifol am gylchoedd gogledd yr ynys a'r llall am gylchoedd de'r ynys. Hefyd mae swyddog iaith yn gweithio i gefnogi'r cylchoedd sydd â nifer uchel o blant di-gymraeg ac mae swyddog Ti a Fi teithiol yn gweithio gyda chylchoedd mewn ardaloedd penodol (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 5).

## Addysg Cynradd ac Uwchradd

Mae Awdurdod Addysg Môn yn gweithredu polisi addysg ddwyieithog drwy holl ysgolion y Sir. Mae Polisi Iaith yr Adran Addysg Cyngor Sir Ynys Môn yn gosod y nod uchelgeisiol o sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Cydwedda hyn yn dda gyda phrif nod Cynllun Strategol y Gymraeg sef gwella sgiliau holl ddisgyblion Ynys Môn yn y Gymraeg. Er mwyn gwireddu'r agenda uchelgeisiol hon, mae'r materion canlynol yn cael eu blaenoriaeth ar lefel Awdurdod ym Môn (Cyngor Sir Ynys Môn, 2011-2012, Tud 1):

- Gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar, er mwyn sicrhau bod disgyblion o gefndir Saesneg yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl.

- Yn CA1/CS, adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg.

- Yn CA2, parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg Iaith Gyntaf a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

- Yn CA3, sicrhau bod pob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol.

- Yn CA4, sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn cael asesiad yn y Gymraeg ar ddiwedd CA4.

- Sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2 a CA3 yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl.

- Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru gan eu datblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol sydd yn cyfrannu'n dda i'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni.

Bydd y mwyafrif o blant sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn yr ysgol yn cael eu hasesu mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1, neu Cyfnod Sylfaen ers 2011 (sef diwedd Blwyddyn 2).

Mae cymharu'r canrannau a aseswyd mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 / Cyfnod Sylfaen â'r ganran a aseswyd mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn rhoi mesur o gysondeb dilyniant cyfrwng dysgu trwy flynyddoedd yr ysgol gynradd gan mai diwedd Blwyddyn 6 yw diwedd Cyfnod Allweddol 2 (Jones, 2012, Tud 66).

Fel y gwelir o **Ffigwr 2**, mae dilyniant ieithyddol trwy addysg gynradd yn dda yn Ynys Môn. Er nad union yr un plant fyddai wedi bod yn yr ysgol, mae'n debyg oherwydd mudo, ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn 2013 aseswyd 74.9%. Gallwn ystyried hyn fel arwydd bod bron yr holl blant sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ym Mlwyddyn 2 yn parhau i ddysgu Cymraeg fel iaith gyntaf hyd at ddiwedd eu hamser yn yr ysgol gynradd.

Fodd bynnag, mae'r dilyniant ieithyddol yma yn dirywio wrth i ddisgyblion drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Yn Ynys Môn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn 2013 aseswyd 61.8%, sy'n cymharu â 74% a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 tair blynedd ynghynt yn 2010. Mae hyn yr un duedd a welir ledled Cymru.

Yn Ionawr 2013 roedd 45% o ddisgyblion yn Ynys Môn yn rhugl yn y Gymraeg tra bod 41.4% yn siarad Cymraeg ond ddim yn rhugl a 13.4% ddim yn gallu siarad Cymraeg, fel y gwelir yn **Nhabl 12**.


Mae'r ffigyrau yma ar gyfer disgyblion sydd yn cael eu haddysgu yn Ynys Môn gan yr awdurdod addysg leol ac felly ddim yn cynnwys plant sydd yn byw yn y sir ond sydd yn cael eu haddysgu tu allan i'r Sir na phlant mewn ysgolion annibynnol preifat. Mae'r ffigyrau hefyd yn cynnwys ychydig o blant sydd yn byw tu allan I Ynys Môn ond sydd yn cael eu haddysgu mewn ysgol awdurdod addysg Ynys Môn. Rhaid nodi ar gyfer yr ystadegau yma bod y data yn bennaf yn cynrychioli canfyddiadau rhieni o ruglder eu plentyn ac felly ni fydd o angenrheidrwydd yr un fath a'r gallu a ddangosir gan ddisgybl yn eu gwaith ysgol.

**Tabl 12: Disgyblion yn siarad Cymraeg yn Ynys Môn, Ionawr 2013**

| | **Pob Ysgol** | | **Cynradd** | | **Uwchradd** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Pob disgybl | 9,485 | | 5,508 | | 3,977 | |
| Yn siarad Cymraeg yn rhugl | 4,265 | 45.0% | 2,223 | 40.4% | 2,042 | 51.3% |
| Yn siarad Cymraeg ond ddim yn rhugl | 3,923 | 41.4% | 2,047 | 37.2% | 1,876 | 47.2% |
| Ddim yn gallu siarad Cymraeg | 1,271 | 13.4% | 1,217 | 22.1% | 54 | 1.4% |
| Dim gwybodaeth | 26 | 0.3% | 21 | 0.4% | 5 | 0.1% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Lefel Disgyblion Ysgolion Blynyddol*

**Ffigwr 2: Canran o ddisgyblion a aseswyd mewn Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA1/CS/CA2/CA3, 2003-2013**




*Ffynhonnell: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol*

## Iechyd a Lles

Mae **Tabl 13** a **Thabl 14** yn dangos iechyd cyffredinol siaradwyr Cymraeg Môn ynghyd a'r nifer a chyfran o siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys sydd â phroblem iechyd neu anabledd hirdymor, a'r newid sydd wedi bod rhwng 2001 a 2011.

Yn 2011 roedd 81.1% (31,268 o bobl) o'r boblogaeth 3+ oedd yn gallu siarad Cymraeg ar Ynys Môn yn datgan bod eu hiechyd yn dda neu dda iawn tra bod 13.8% yn datgan iechyd gweddol a 5.1% yn datgan iechyd gwael neu wael iawn. Ers 2001 mae iechyd cyffredinol y boblogaeth 3+ sy'n siarad Cymraeg ar Ynys Môn wedi gwella, gyda chynnydd o 14.3% yn y nifer yn datgan iechyd da neu dda iawn.

Mae cyfran uwch o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg (81.1%) yn nodi bod ganddynt iechyd da neu dda iawn o gymharu â'r boblogaeth gyfan (78.6%) ar Ynys Môn yn 2011.

**Tabl 13: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn yn ôl iechyd cyffredinol, 2001 & 2011**

| Iechyd Cyffredinol | 2001 | | 2011 | | Newid 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Mewn nifer | Mewn nifer (%) | Mewn Pwynt Canran |
| Iechyd da neu dda iawn | 27,358 | 70.3% | 31,268 | 81.1% | 3,910 | 14.3% | 10.8% |
| Iechyd gweddol | 8,018 | 20.6% | 5,330 | 13.8% | -2,688 | -33.5% | -6.8% |
| Iechyd gwael neu wael iawn | 3,517 | 16.8% | 1,970 | 5.1% | -1,547 | -44.0% | -11.7% |
| Pob oedran (3+) | 38,893 | | 38,568 | | -325 | -0.8% | |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 – Tabl TT039; Cyfrifiad 2011 – Tabl DC3202WA*

Roedd un rhan o bump (20.9%) o'r boblogaeth 3+ oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 yn nodi bod ganddynt broblem iechyd neu anabledd tymor hir sydd yn gyfran ychydig yn is na phoblogaeth gyfan Ynys Môn (23.1%) ac sydd yr un tuedd a deng mlynedd yn ddiweddarach.

**Tabl 14: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn yn ôl problem iechyd tymor-hir neu anabledd, 2001 & 2011**

| Problem iechyd neu anabledd tymor-hir | 2001 | | 2011 | | Newid 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Mewn nifer | Mewn nifer (%) | Mewn Pwynt Canran |
| Gyda phroblem iechyd neu anabledd tymor hir | 7,873 | 20.2% | 8,076 | 20.9% | 203 | 2.6% | 0.7% |
| Heb broblem iechyd neu anabledd tymor hir | 31,020 | 79.8% | 30,492 | 79.1% | -528 | -1.7% | -0.7% |
| Pob oedran (3+) | 38,893 | | 38,568 | | -325 | -0.8% | |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 – Tabl TT039; Cyfrifiad 2011 – Tabl DC3202WA*

# Y gweithle a'r economi

## *Y gweithle a'r gweithlu*

Fel unigolion rydym yn treulio cyfran sylweddol o'n hamser yn y gwaith, felly'r gweithle yw un o'r meysydd allweddol sy'n pennu pa iaith y mae pobl yn ei defnyddio. Bu i nifer sylweddol o ymatebwyr yr ymgynghoriad Llywodraeth Leol ar y strategaeth *Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-17* gytuno "bod gan y gweithle rôl allweddol o ran ennyn hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn agweddau eraill ar eu bywydau… a bod datblygu statws yr iaith yn y gweithle yn bwysig o safbwynt pwysleisio gwerth addysg cyfrwng Cymraeg" (Llywodraeth Cymru, 2012, Tud 37).


Gall "nifer o wahanol ffactorau ddylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle gan gynnwys arferion sydd wedi hen ennill eu plwyf lle ffafrir defnydd o'r Saesneg; materion yn gysylltiedig â gallu yn y Gymraeg, a rhesymau sefydliadol megis y ffaith nad oes digon o gymorth gan sefydliadau i gefnogi defnydd o'r iaith; a'r graddau y mae diwylliant y sefydliad yn hwyluso neu'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg" (Ibid. Tud 38).

Yn 2012[11], roedd 76.2% (30,800 o bobl) o boblogaeth oed gweithio (16-64 mlwydd oed) Ynys Môn yn economaidd weithgar o gymharu â 73.5% yng Nghymru a 76.8% yn y Deyrnas Unedig. O'r rhai economaidd weithgar mae 94.8% (29,200 o bobl) mewn gwaith sydd yn gyfran ychydig yn uwch na Chymru (91.5%) a'r Deyrnas Unedig (92.0%).

Mae gwybodaeth fisol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) o ran y nifer o hawlwyr lwfans 'Jobseekers Allowance' yn ddangosydd o ddiweithdra ymysg y boblogaeth breswyl mewn ardal. Mae **Ffigwr 3** yn dangos y newid yn y gyfran o bobl oed gwaith sydd yn hawlio'r lwfans JSA yn Ynys Môn a ledled Cymru ers Ionawr 2007 hyd at y cyfnod diweddaraf o Hydref 2013. Er bod y duedd o ran diweithdra ym Môn yn dilyn yr un duedd a welir ledled Cymru, mae'r gyfran ddiweithdra ychydig yn uwch ar yr Ynys o gymharu â chyfran Cymru, gyda chyfran o hawlwyr JSA Ynys Môn yn Hydref 2013 yn 4.2% o gymharu â 3.4% yng Nghymru. Ar y cyfan, mae'r nifer o hawlwyr JSA ar Ynys Môn ym mis Hydref 2013 yn 30.9% yn uwch na'r ffigwr ar gyfer Ionawr 2007.

[11] ONS Annual Population Survey, Jan 2012 – Dec 2012

**Ffigwr 3: Lefelau diweithdra, Ionawr 2007 – Hydref 2013**




*Ffynhonnell: ONS Cyfrif Hawlwyr*

## *Diwydiant & Galwedigaethau Cyflogaeth*

Bydd dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg yn ôl diwydiant a galwedigaethau mewn ardal yn adlewyrchu'r mathau o gyfleoedd gwaith sy'n bodoli iddynt ac mae **Tabl 15** a **Tabl 16** yn dangos strwythur diwydiant a galwedigaethau Ynys Môn yn ôl Cyfrfiad 2011.

Yn gyffredinol mae Ynys Môn o ran diwydiant yn ddibynol ar y sector gyhoeddus (sef Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol; addysg; iechyd pobl a gweithgareddau gwaith cymdeithasol) gyda 35.1% o bob preswylydd arferol 16+ oed mewn cyflogaeth yn gweithio yn y secotr gyhoeddus yn 2011 o gymharu a 32.4% yn Gymru gyfan.

Sector cyflogaeth bwysig arall ym Môn yw'r sector amaethyddiaeth, egni a dŵr gyda 7.2% o weithwyr yn gweithio yn y sector yma yn 2011 o gymharu â 3.8% yn Gymru gyfan.

Mae 58.3% o'r preswylwyr arferol 16+ oed sydd mewn cyflogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn. O'r rhain, mae'r cyfrannau yn gweithio ym mhob diwydiant yn debyg iawn i'r darlun cyffredinol ar yr Ynys fel y gwelir o **Ffigwr 4**.

**Tabl 15: Diwydiant cyflogaeth a siaradwyr Cymraeg, 2011**

| Diwydiant | Ynys Môn | | | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Yn siarad Cymraeg | | % | % yn siarad Cymraeg |
| | | | Nifer | % | | |
| Pob preswylydd arferol 16+ oed mewn cyflogaeth | 30,726 | | 17,920 | | | |
| A, B, D, E Amaethyddiaeth, egni a dŵr | 2,200 | 7.2% | 1,512 | 8.4% | 3.8% | 6.7% |
| C Gweithgynhyrchu | 2,363 | 7.7% | 1,223 | 6.8% | 10.5% | 6.3% |
| F Adeiladu | 2,711 | 8.8% | 1,758 | 9.8% | 8.2% | 8.1% |
| G Masnach manwerthu a chyfanwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur | 4,423 | 14.4% | 2,441 | 13.6% | 15.6% | 13.4% |
| H Trafnidiaeth a storio | 1,614 | 5.3% | 835 | 4.7% | 3.9% | 3.1% |
| I Llety a gweithgareddau gwasanaeth bwyd | 2,105 | 6.9% | 1,072 | 6.0% | 6.2% | 6.0% |
| J Gwybodaeth a chyfathrebu | 470 | 1.5% | 243 | 1.4% | 2.3% | 2.2% |
| K Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 339 | 1.1% | 195 | 1.1% | 3.0% | 2.2% |
| L Gweithgareddau eiddo tiriog | 336 | 1.1% | 192 | 1.1% | 1.3% | 1.1% |
| M Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 1,105 | 3.6% | 539 | 3.0% | 4.3% | 4.0% |
| N Gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth | 983 | 3.2% | 485 | 2.7% | 4.0% | 2.8% |
| O Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol | 2,764 | 9.0% | 1,520 | 8.5% | 7.9% | 8.8% |
| P Addysg | 3,425 | 11.1% | 2,401 | 13.4% | 10.1% | 16.2% |
| Q Iechyd pobl a gweithgareddau gwaith cymdeithasol | 4,610 | 15.0% | 2,796 | 15.6% | 14.4% | 14.0% |
| R, S, T, U Arall | 1,278 | 4.2% | 708 | 4.0% | 4.6% | 5.1% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl DC6110EW & Tabl DC2611WA*

O ran galwedigaethau ceir y gyfran uchaf o weithwyr Ynys Môn yn gweithio mewn galwedigaethau crefftau medrus (16.9%) wedi'i ddilyn gan alwedigaethau proffesiynol (15.3%). Mae'r gyfran isaf o weithwyr yn weithredwyr prosesau, offer a pheiriannau (7.5%) neu yn gweithio mewn galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid (7.8%).


Unwaith eto ceir y cyfrannau tebyg o weithwyr sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yng ngalwedigaethau o gymharu â'r darlun cyffredinol ar gyfer pob gweithiwr fel y gwelir o **Ffigwr 5**.

**Tabl 16: Galwedigaethau a siaradwyr Cymraeg, 2011**

| Galwedigaeth | Ynys Môn | | | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Yn siarad Cymraeg | | % | % yn siarad Cymraeg |
| | | | Nifer | % | | |
| Pob preswylydd arferol 16+ oed mewn cyflogaeth | 30,726 | | 17,920 | | | |
| 1. Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion | 3,009 | 9.8% | 1,304 | 7.3% | 9.3% | 7.6% |
| 2. Galwedigaethau proffesiynol | 4,693 | 15.3% | 2,780 | 15.5% | 15.8% | 19.9% |
| 3. Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cyswllt | 3,099 | 10.1% | 1,624 | 9.1% | 10.8% | 10.6% |
| 4. Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol | 3,041 | 9.9% | 1,872 | 10.4% | 11.1% | 10.4% |
| 5. Galwedigaethau crefftau medrus | 5,179 | 16.9% | 3,270 | 18.2% | 13.5% | 15.4% |
| 6. Gofalu, hamdden a galwedigaethau gwasanaethau eraill | 3,570 | 11.6% | 2,351 | 13.1% | 10.5% | 11.9% |
| 7. Galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid | 2,399 | 7.8% | 1,293 | 7.2% | 9.0% | 7.9% |
| 8. Gweithredwyr prosesau, offer a pheiriannau | 2,310 | 7.5% | 1,420 | 7.9% | 8.1% | 6.1% |
| 9. Galwedigaethau elfennol | 3,426 | 11.2% | 2,006 | 11.2% | 11.9% | 10.1% |


*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl DC6112EW & Tabl DC612EW*

**Ffigwr 4: Diwydiant cyflogaeth ar Ynys Môn, 2011**




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2611WA*

**Ffigwr 5: Galwedigaethau cyflogaeth ar Ynys Môn, 2011**




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl DC612EW*

### *Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol (NS-Sec)*

Mae Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol (NS-SEC) yn dynodi sefyllfa economaidd-gymdeithasol ar sail galwedigaeth ac mae'n un o ddosbarthiadau safonol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Er mwyn pennu categori NS-SEC i unigolyn, caiff teitl ei alwedigaeth ei gyfuno â gwybodaeth am ei statws cyflogaeth, p'un a yw'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig a ph'un a yw'n goruchwylio gweithwyr cyflogedig eraill. Caiff myfyrwyr sydd mewn addysg amser llawn eu cofnodi yn y categori 'myfyriwr mewn addysg amser llawn' p'un a ydynt yn gweithio ai peidio.

**Tabl 17: Cymwysterau a siaradwyr Cymraeg, 2011**

| Galwedigaeth | Ynys Môn | | | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Yn siarad Cymraeg | | % | % yn siarad Cymraeg |
| | | | Nifer | % | | |
| Pob preswylydd arferol 16+ oed | 57,890 | | 31,347 | | | |
| 1. Galwedigaethau rheoli uwch, gweinyddol a phroffesiynol | 4,685 | 8.1% | 1,994 | 6.4% | 7.6% | 7.6% |
| 2. Galwedigaethau rheoli is, gweinyddol a phroffesiynol | 11,643 | 20.1% | 6,275 | 20.0% | 19.4% | 23.0% |
| 3. Galwedigaethau canolraddol | 6,491 | 11.2% | 3,639 | 11.6% | 12.1% | 11.8% |
| 4. Cyflogwyr bach a gweithwyr hunangyfrif | 6,996 | 12.1% | 3,524 | 11.2% | 9.5% | 11.1% |
| 5. Galwedigaethau goruchwylio is a thechnegol | 5,092 | 8.8% | 2,773 | 8.8% | 8.3% | 7.1% |
| 6. Galwedigaethau lled-arferol | 9,295 | 16.1% | 5,165 | 16.5% | 16.0% | 13.5% |
| 7. Galwedigaethau arferol | 6,839 | 11.8% | 3,976 | 12.7% | 13.3% | 10.1% |
| 8. Erioed wedi gweithio a di-waith am gyfnod hir | 3,408 | 5.9% | 1,716 | 5.5% | 5.8% | 4.0% |
| Heb ei ddosbarthu (Myfyriwr amser llawn) | 3,441 | 5.9% | 2,285 | 7.3% | 8.1% | 11.9% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2613WA*

## *Cymwysterau*

Fel y gwelir o **Dabl 18**, yn gyffredinol mae poblogaeth breswyl 16+ mlwydd oed Ynys Môn yn fwy cymwysedig na Chymru gyfan gyda chyfran uwch (38.0%) yn meddu a chymwysterau lefel 3 neu uwch o gymharu â chyfran Cymru (36.8%)

**Tabl 18: Cymwysterau a siaradwyr Cymraeg, 2011**

| Galwedigaeth | Ynys Môn | | | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Yn siarad Cymraeg | | % | % yn siarad Cymraeg |
| | | | Nifer | % | | |
| Pob preswylydd arferol 16+ oed | 57,890 | | 31,347 | | | |
| Dim cymwysterau | 13,991 | 24.2% | 7,715 | 24.6% | 25.9% | 20.2% |
| Cymwysterau Lefel 1 | 7,342 | 12.7% | 3,890 | 12.4% | 13.3% | 11.6% |
| Cymwysterau Lefel 2 | 9,406 | 16.2% | 5,401 | 17.2% | 15.7% | 18.1% |
| Prentisiaeth | 2,739 | 4.7% | 1,499 | 4.8% | 3.9% | 3.4% |
| Cymwysterau Lefel 3 | 6,887 | 11.9% | 3,996 | 12.7% | 12.3% | 13.7% |
| Cymwysterau Lefel 4 ac uwch | 15,098 | 26.1% | 7,749 | 24.7% | 24.5% | 30.2% |
| Cymwysterau eraill | 2,427 | 4.2% | 1,097 | 3.5% | 4.3% | 2.8% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl DC501Wala*

*Nodyn:*

*Dim Cymwysterau: Dim cymwysterau academaidd na phroffesiynol*

*Cymwysterau Lefel 1: 1-4 Lefel O/TAU/TGAU (unrhyw radd), Lefel Mynediad, Diploma Sylfaen, NVQ lefel 1, GNVQ Sylfaen, Sgiliau Sylfaenol/Allweddol*

*Cymwysterau Lefel 2: 5+ Lefel O (wedi pasio)/TAU (Gradd 1)/TGAU (Graddau A*-C), Tystysgrif Ysgol, 1 Lefel A/ 2-3 Lefel AS/VCE, Diploma Canolradd/Uwch, Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru, NVQ lefel 2, GNVQ Canolradd, City and Guilds Craft, Diploma Cyntaf/Cyffredinol BTEC, Diploma RSA Prentisiaeth*

*Cymwysterau Lefel 3: 2+ Lefel A/VCE, 4+ Lefel AS, Tystysgrif Ysgol Uwch, Diploma Uwch, Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru, NVQ Lefel 3; GNVQ Uwch, Crefft Uwch City and Guilds, ONC, OND, BTEC Cenedlaethol, Diploma Uwch RSA*

*Cymwysterau Lefel 4+: Gradd (er enghraifft BA, BSc), Gradd Uwch (er enghraifft MA, PhD, TAR), NVQ Lefel 4-5, HNC, HND, Diploma Uwch RSA, Lefel Uwch BTEC, Gradd sylfaen (Gogledd Iwerddon),Cymwysterau proffesiynol (er enghraifft addysgu, nyrsio, cyfrifyddiaeth)*

*Cymwysterau eraill: Cymwysterau Galwedigaethol/Cysylltiedig â Gwaith, Cymwysterau Tramor (Heb eu nodi/lefel yn anhysbys).*

## *Incwm*

Yn 2013 roedd incwm aelwyd canolrif yn Ynys Môn (£23,937) yn 3.9% yn is na'r ffigwr i Gymru (£24,909) a 13.0% yn llai na'r ffigwr i Brydain Fawr (£27,512).

Ar gyfer yr un cyfnod roedd incwm aelwyd chwartel isaf Ynys Môn (£13,112) yn 15.9% yn is na'r ffigwr i Gymru (£15,597) a 23.0% yn is na'r ffigwr i Brydain Fawr (£17,024).

**Tabl 19: Incymau Aelwydydd Canolrif a Chwartel Isaf, 2013**

| | Ynys Môn | Cymru | Prydain Fawr |
|---|---|---|---|
| Incwm aelwyd canolrif | £23,937 | £24,909 | £27,512 |
| % o Brydain Fawr | 87.0% | 90.5% | 100% |
| Incwm aelwyd chwartel isaf | £13,112 | £15,597 | £17,024 |
| % o Brydain Fawr | 77.0% | 91.6% | 100% |

*Ffynhonnell: CACI Paycheck 2013*

Dengys **Map 9** incymau canolrif aelwyd ar lefel ward yn Ynys Môn ar gyfer 2013. Yn ystod 2013, gwelwyd yr incwm canolrif aelwyd isaf o £16,304 yn ward Tudur yn Llangefni tra gwelir y ffigwr uchaf o £29,749 yn ward Gwyngyll.

O ran incymau chwartel isaf aelwydydd (**Map 10**) gwelwyd yr isafswm o £10,899 yn ward Tref Caergybi a'r uchafswm o £17,504 yn ward Cwm Cadnant.

Y trothwy incwm isel a ddefnyddir rhan amlaf yw incwm aelwyd sydd yn 60% neu lai o'r incwm aelwyd canolrif Brydeinig yn y flwyddyn honno. O ystyried ffigyrau yn **Nhabl 20**, roedd dros traean o aelwydydd Ynys Môn (34.2%) o dan 60% canolrif Prydain Fawr yn 2013.


**Tabl 20: Nifer a chanran o aelwydydd yn ôl ardal o dan 60% incwm aelwyd canolrif Prydain Fawr, 2013**

| Ardal | Cyfanswm Aelwydydd | Aelwydydd o dan 60% o ganolrif Prydain Fawr | |
|---|---|---|---|
| | | Nifer | % |
| Ynys Môn | 31,150 | 10,640 | 34.2% |
| Cymru | 1,332,201 | 368,119 | 27.6% |
| Prydain Fawr | 26,323,250 | 6,222,620 | 23.6% |

*Ffynhonnell: CACI Paycheck 2013*


Mae **Map 11** yn dangos y gyfran o aelwydydd sydd ag incwm aelwyd sydd yn 60% neu lai o'r incwm aelwyd canolrif Brydeinig ar gyfer 2013 ar lefel ward yn Ynys Môn. Gwelwyd y gyfran isaf o 23.3% yn ward Cwm Cadnant tra bod y gyfran uchaf o 50.5% yn ward Tudur yn Llangefni.

**Map 9: Incwm canolrif, fesul ward, 2013**





Ffynhonnell: CACI Paycheck
Cynhyrchwyd gan yr Uned Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd
Cynnwys data Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013
Cynnwys data Arolwg Ordnans Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387

**Map 10: Incwm chwartel isaf, fesul ward, 2013**



**Map 11: Canran o aelwydydd ag incwm aelwyd sydd yn 60% neu lai o'r incwm aelwyd canolrif Brydeinig, fesul ward, 2013**



# Tai ac aelwydydd

## *Cartrefi fesul math o lety a daliadaeth*

Mae cartref (gofod aelwyd) yn llety a breswylir gan aelwyd unigol neu, os yn wag, sydd ar gael fel cartref unigol. Mae'r math o lety yn disgrifio'r math o lety a breswylir gan aelwyd unigol, neu os nad oes unrhyw un yn preswylio ynddo, sydd ar gael fel cartref aelwyd unigol, er enghraifft tŷ teras cyfan neu fflat mewn bloc o fflatiau wedi ei adeiladu'n bwrpasol[12].

Daw'r wybodaeth ddiweddaraf am gartrefi yn ôl math o lety o Gyfrifiad 2011 fel y gwelir yn **Nhabl 21**. Nodweddir stoc tai Ynys Môn gan eiddo ar wahân (47.9%) gyda'r gyfran o'r math yma o gartref yn uwch ym Môn o gymharu â ffigyrau Cymru. O gymharu â Chymru ceir cyfran ychydig yn uwch o garafanau neu fath arall o gartref symudol neu dros dro (0.9%) ar Ynys Môn.

Rhwng 2001 a 2011 bu i'r nifer o gartrefi gynyddu o 3,140 (10.1%) ar Ynys Môn. Roedd 1,313 o'r cynnydd hwn (41.8%) yn y nifer o eiddo ar wahân a 1,050 (33.4%) o'r cynnydd yn y nifer o eiddo semi.

**Tabl 21: Cartrefi fesul math o lety, 2011**

| Math o lety | Ynys Môn | | Cymru |
|---|---|---|---|
| | Nifer | % | |
| Cyfanswm o Gartrefi | 34,183 | | 1,385,521 |
| Tŷ neu fyngalo cyfan: Ar wahân | 16,382 | 47.9% | 27.7% |
| Tŷ neu fyngalo cyfan: Semi | 7,281 | 21.3% | 31.0% |
| Tŷ neu fyngalo cyfan: Teras (gan gynnwys ar y pen) | 7,620 | 22.3% | 27.8% |
| Fflat neu maisonette: Bloc o fflatiau neu denement a adeiladwyd yn bwrpasol | 1,661 | 4.9% | 9.6% |
| Fflat neu maisonette: Rhan o dŷ wedi'i addasu neu dŷ sy'n cael ei rannu (gan gynnwys fflatiau un ystafell) | 563 | 1.6% | 2.4% |
| Fflat neu maisonette: Mewn adeilad masnachol | 352 | 1.0% | 1.0% |
| Carafán neu fath arall o gartref symudol neu dros dro | 324 | 0.9% | 0.4% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Tabl KS401EW*

## *Lefelau preswyliaeth ac eiddo gwag*

Cyfrifiad 2011

Mae angen rhyw lefel o lety gwag yn y stoc tai, i ganiatáu ar gyfer trosiant yn y farchnad dai. Nid oes lefel gorau posibl o eiddo gwag, gan fod y farchnad dai ym mhob ardal yn wahanol ac yn newid dros amser.

Gall cartref (gofod aelwyd) heb breswylydd arferol dal i gael ei ddefnyddio gan breswylwyr tymor-byr, ymwelwyr oedd yn bresennol ar noson y cyfrifiad neu gyfuniad o breswylwyr tymor-byr neu ymwelwyr. Mae cartrefi gwag a chartrefi a ddefnyddiwyd fel ail gyfeiriadau hefyd yn cael eu dosbarthu yng nghanlyniadau'r cyfrifiad fel 'cartrefi heb unrhyw breswylwyr arferol'.

[12] Diffiniad Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

O ran cartrefi gweigion yn 2011, Ynys Môn oedd â'r gyfran 3ydd uchaf o holl awdurdodau lleol Cymru, ar ôl Gwynedd (14.1%) a Sir Benfro (12.5%). Gyda chyfran o gartrefi heb unrhyw breswylwyr arferol o 10.5%, roedd yn fwy na chyfartaledd Cymru.

**Tabl 22: Cartrefi yn ôl math o breswyliaeth, 2011**

| Preswyliaeth | Ynys Môn | | Cymru | Lloegr a Chymru |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | | |
| Pob cartref | 34,183 | | 1,385,521 | 24,429,618 |
| Ag o leiaf un preswylydd arferol | 30,594 | 89.5% | 94.0% | 95.6% |
| Heb unrhyw breswylwyr arferol | 3,589 | 10.5% | 6.0% | 4.4% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Tabl KS401EW*

Cofrestr Treth Cyngor Ynys Môn

Gall gofrestr Treth y Cyngor rhoi rhywfaint o'r ffigyrau diweddaraf a rhannu'r ffigyrau ar gyfer anheddau gwag ac ail gartrefi / tai haf yng Ngwynedd, fel y gwelir yn **Nhabl 23**.

Yn ôl y ffigyrau ar gyfer 2013, roedd 725 o eiddo trethadwy yn wag yn Ynys Môn, sef 2.1% o'r holl eiddo trethadwy, tra bod 6.2% o'r holl eiddo trethadwy, sef 2,158 eiddo, yn ail gartrefi / tai haf.

**Tabl 23: Eiddo trethadwy yn ôl math o breswyliaeth, Ebrill 2013**


| Preswyliaeth | Ynys Môn | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| Cyfanswm o Eiddo Trethadwy | 34,655 | |
| Â phreswylwyr | 31,772 | 91.7% |
| Gwag | 725 | 2.1% |
| Ail gartrefi / tai haf | 2,158 | 6.2% |

*Ffynhonnell: Cofrestr treth y Cyngor, Cyngor Sir Ynys Môn, 2013*


Mae **Map 12** yn dangos y canran o'r eiddo trethadwy oedd yn wag yn Ynys Môn yn 2013, yn ôl cymuned. Mae'r tair cyfran uchaf o eiddo trethadwy sydd yn wag i'w gweld yng nghymunedau Llanfaethlu (4.2%), Cylch y Garn (4.0%) a Bryngwran (3.5%) tra bod y tair cyfran isaf yng nghymunedau Trewalchmai (0.7%), Llanfairpwllgwyngyll (0.8%) a Bodedern (1.0%).

Dengys **Map 13** y canran o'r eiddo trethadwy sydd yn ail gartrefi / tai haf fesul cymuned yn Ynys Môn yn ôl y gofrestr Treth Cyngor yn 2013. Mae'r tair cyfran uchaf o eiddo trethadwy sydd yn ail gartrefi / tai haf i'w gweld yng nghymunedau Llanfaelog (25.5%), Trearddur (25.3%) a Rhoscolyn (21.6%) tra bod y tair cyfran isaf i'w gweld yng nghymunedau Llangefni (1.1%), Caergybi (1.5%) a Llanfairpwllgwyngyll (1.6%).

**Map 12: Canran o eiddo trethadwy sydd yn wag, fesul cymuned, 2013**



**Map 13: Canran o eiddo trethadwy sydd yn ail gartrefi / tai haf, fesul cymuned, 2013**




Ffynhonnell: Rhestr Treth Cyngor, Cyngor Sir Ynys Môn
Cynhyrchwyd gan yr Uned Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd
Cynnwys data Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013
Cynnwys data Arolwg Ordnans Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387

### *Cartrefi fesul daliadaeth*

O'r Cyfrifiad 2011 hefyd daw'r wybodaeth fwyaf cadarn am ddaliadaeth tai, a cyflwynir yr wybodaeth hon yn **Nhabl 24**. Mae'r data yn dangos lefelau ychydig yn is o rentu cymdeithasol yn Ynys Môn a lefelau ychydig yn uwch o rentu preifat a pherchnogaeth tai gyfan gwbl o gymharu â Chymru gyfan.

**Tabl 24: Daliadaeth Aelwydydd, 2011**

| Daliadaeth | Ynys Môn | | Cymru |
|---|---|---|---|
| | Nifer | % | |
| Cyfanswm aelwydydd | 30,594 | | 1,302,676 |
| Perchennog ddeiliaid | | | |
| Yn berchen arno'n gyfan gwbl | 12,444 | 40.7% | 35.4% |
| Yn berchen arno gyda morgais neu fenthyciad | 8,527 | 27.9% | 32.0% |
| Cynllun rhan-berchenogaeth[1] | 63 | 0.2% | 0.3% |
| Ar rent | | | |
| Awdurdod lleol | 3,899 | 12.7% | 9.8% |
| Cymdeithas tai / landlord cymdeithasol cofrestredig (RSL)[2] | 588 | 1.9% | 6.6% |
| Landlord preifat neu asiantaeth gosod tai | 3,699 | 12.1% | 12.7% |
| Arall | 1,374 | 4.5% | 3.1% |
| Cyfanswm perchennog ddeiliaid | 21,034 | 68.8% | 67.8% |
| Cyfanswm wedi'i rentu'n gymdeithasol | 4,487 | 14.7% | 16.5% |
| Cyfanswm wedi'i rhentu'n breifat | 5,073 | 16.6% | 15.7% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Tabl KS402EW*

*Nodyn: [1] Yn berchen arno'n rhannol ac yn ei rentu'n rhannol*

Mae'r wybodaeth gyfredol (Rhagfyr 2013) sydd ar gael o ran siaradwyr Cymraeg a daliadaeth yn seiliedig ar ystadegau yn ymdrin â pherson cyswllt y cartref. Yn 2011 roedd 15,893 (51.9%) o bobl gyswllt y cartref yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn. Fel y gwelir o **Dabl 25**, o gymharu â'r holl boblogaeth person cyswllt y cartref, yn 2011 roedd cyfran ychydig uwch o'r bobl gyswllt y cartref sy'n gallu siarad Cymraeg ar Ynys Môn yn rhentu'n gymdeithasol.

**Tabl 25: Person cyswllt y cartref yn siarad Cymraeg yn ôl daliadaeth ar Ynys Môn, 2011**

| Daliadaeth | Cyfanswm | | Yn siarad Cymraeg | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Pob person cyswllt y cartref[1] | 30,594 | | 15,893 | |
| Yn berchen arno neu rhan-berchenogaeth[2] | 21,034 | 68.8% | 10,911 | 68.7% |
| Rhentu cymdeithasol | 4,487 | 14.7% | 2,676 | 16.8% |
| Rhentu preifat neu ddim yn talu rhent | 5,073 | 16.6% | 2,306 | 14.5% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Tabl DC2402WA*

*Nodyn: [1] Mae Person Cyswllt y Cartref yn berson unigol o fewn cartref sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cael rhagor o ystadegau a nodweddu cartref cyfan yn ôl nodweddion y person cyswllt a ddewisir*

*[2]Yn berchen arno'n rhannol ac yn ei rentu'n rhannol*

### *Nifer a thwf aelwydydd*

Aelwyd yw un unigolyn yn byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl sy'n byw yn yr un cyfeiriad gyda'r un trefniadau cadw tŷ – hynny yw, naill ai yn rhannu ystafell fyw neu o leiaf un pryd y dydd [13].

Mae nifer yr aelwydydd a'r gwahanol fathau o aelwydydd o fewn y cyfanswm hwnnw'n rhoi rhyw fath o syniad o'r math o dai y gallai fod eu hangen. Mae ffigurau amcanol aelwydydd yn helpu i gynllunio ar gyfer anghenion tai'r dyfodol.

**Tabl 26: Amcangyfrifon aelwydydd, 2011**

| Cyfansoddiad Aelwyd | Ynys Môn | | Cymru |
|---|---|---|---|
| | Nifer | % | |
| Cyfanswm aelwydydd | 30,594 | | 1,302,676 |
| Poblogaeth mewn aelwydydd preifat | 68,941 | | 3,011,182 |
| Maint aelwydydd cyfartalog | 2.25 | | 2.31 |
| Aelwyd un person | 9,888 | 32.3% | 30.8% |
| 65 oed a throsodd | 4,802 | 15.7% | 13.7% |
| Arall | 5,086 | 16.6% | 17.1% |
| Aelwyd un teulu yn unig | 18,952 | 61.9% | 62.8% |
| Dim plant | 8,621 | 28.2% | 26.1% |
| Aelwydydd pâr | 7,322 | 23.9% | 25.3% |
| Â phlant dibynnol | 5,297 | 17.3% | 18.4% |
| Pob plentyn yn blentyn nad yw'n ddibynnol | 2,025 | 6.6% | 6.8% |
| Aelwydydd rhiant unigol | 3,009 | 9.8% | 11.4% |
| Â phlant dibynnol | 1,826 | 6.0% | 7.5% |
| Pob plentyn yn blentyn nad yw'n ddibynnol | 1,183 | 3.9% | 3.8% |
| Aelwydydd eraill | 1,754 | 5.7% | 6.5% |
| Â phlant dibynnol | 640 | 2.1% | 2.2% |
| Pawb yn 65 oed a throsodd | 122 | 0.4% | 0.3% |
| Arall | 992 | 3.2% | 3.9% |
| Yr aelwydydd â phlant dibynnol | 7,763 | 25.4% | 28.2% |
| Aelwydydd lle mae pawb yn 65+ oed | 8,177 | 26.7% | 22.9% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 - Tabl KS105EW*

Yn 2011 roedd 30,594 o aelwydydd yn Ynys Môn. Mae'r amcangyfrifon o nifer a'r mathau o aelwydydd yn dangos, oherwydd y gyfran gymharol uchel o aelwydydd un person, bod maint aelwydydd cyfartalog Ynys Môn yn is na Chymru gyfan.

Mae'r gyfran o aelwydydd un person yn Ynys Môn yn 1.5% yn uwch na ffigwr Cymru gyfan tra bod y gyfran o aelwydydd â phlant yn 2.8% yn is. Mae aelwydydd sy'n cynnwys dim ond pobl 65 oed a hŷn yn ffurfio cyfran llawer uwch yn Ynys Môn (26.7%) na o gymharu â Chymru gyfan (22.9%).

[13] Diffiniad Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

**Tabl 27: Newid yn y math o aelwydydd yn Ynys Môn, 2001 & 2011**

| Cyfansoddiad Aelwyd | 2001 Nifer | 2001 % | 2011 Nifer | 2011 % | Newid 2001-2011 Mewn nifer | Newid 2001-2011 Mewn nifer (%) | Newid 2001-2011 Mewn Pwynt Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm aelwydydd | 28,356 | | 30,594 | | 2,238 | 7.9% | |
| Poblogaeth mewn aelwydydd preifat | 66,167 | | 68,941 | | 2,774 | 4.2% | |
| Maint aelwydydd cyfartalog | 2.33 | | 2.25 | | | | |
| Aelwyd un person | 8,289 | 29.2% | 9,888 | 32.3% | 1,599 | 19.3% | 3.1% |
| Yr aelwydydd â phlant dibynnol | 8,120 | 28.6% | 7,763 | 25.4% | -357 | -4.4% | -3.2% |
| Teuluoedd – dim plant | 7,981 | 28.1% | 8,621 | 28.2% | 640 | 8.0% | 0.1% |
| Teuluoedd – pob plentyn yn blentyn nad yw’n ddibynnol | 3,003 | 10.6% | 3,208 | 10.5% | 205 | 6.8% | -0.1% |
| Aelwydydd eraill | 963 | 3.4% | 1,114 | 3.6% | 151 | 15.7% | 0.2% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 – Tabl KS020; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS105EW*

Fel y gwelir o **Dabl 27** mae’r nifer o aelwydydd wedi cynyddu o 2,238 (7.9%) rhwng 2001 a 2011 ar Ynys Môn. Yn yr un cyfnod fe syrthiodd maint cyfartalog aelwydydd o 2.33 yn 2001 i 2.25 yn 2011.

Mae cyfraddau twf aelwydydd yn uwch na chyfraddau twf y boblogaeth. Mae’n debyg mai’r rheswm am hyn yw bod y duedd hirdymor tuag at aelwydydd llai, ynghyd â thwf y boblogaeth, yn effeithio ar nifer yr aelwydydd o fewn y boblogaeth.

Y ffactor mwyaf o bell ffordd sy’n effeithio ar nifer yr aelwydydd a maint cyfartalog aelwydydd yn 2011 yw’r twf yn nifer yr aelwydydd un preswylydd. Nid yw hon yn duedd sy’n unigryw i Ynys Môn, ond mae ei heffaith yn amlycach yma oherwydd y nifer cymharol uchel o bobl hyn ym mhoblogaeth yr ardal.

Pensiynwyr sy’n byw ar eu pen eu hunain yw’r rhan fwyaf o aelwydydd un preswylydd. Yn 2011, amcangyfrifwyd bod 4,802 o aelwydydd ac ynddynt bensiynwyr unigol yn Ynys Môn - sy’n cynrychioli 15.7% o’r holl aelwydydd, a 48.6% o’r holl aelwydydd un preswylydd. Wrth i ddisgwyliad oes pobl gynyddu, gallwn ddisgwyl gweld cynnydd yn nifer yr aelwydydd ac ynddynt bensiynwyr unigol.

Ffactorau eraill sydd wedi arwain at aelwydydd llai ar gyfartaledd dros y degawdau diwethaf yw’r duedd tuag at deuluoedd llai, a’r cynnydd yn nifer yr achosion o dorteulu. Disgwylir i’r tueddiadau hyn barhau.

Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod angen i ddatblygiadau tai newydd ganolbwyntio'n bennaf ar ddarparu anheddau 1, 2 a 3 ystafell wely i fodloni'r angen. Dylid hefyd ystyried darparu tai sy'n addas i gwrdd ag anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, gyda phwyslais arbennig ar anghenion aelwydydd pensiynwyr sengl

## *Y farchnad dai*

Fel y gwelir o **Dabl 28**, bu werthu 702 o dai yn Ynys Môn yn 2012, sydd yn ostyngiad o 17 eiddo neu 2.4% ers 2011.

Y pris canolrif ar gyfer tŷ yn Ynys Môn yn 2012 oedd £150,000, sydd yn lleihad o £10,000 neu 7.1% ers 2011. Tai ar wahân yw'r math drytaf o dŷ gyda phris canolrif o £180,000, tra mai tai teras yw'r math rhataf gyda phris canolrif o £99,950.

Mae prisiau canolrif tai ar wahân a lled ar-wahân wedi gostwng ers 2011, gyda'r gostyngiad mwyaf ym mhris canolrif tai ar wahân, sydd wedi lleihau o £5,000 neu 2.7%. Mae prisiau canolrif tai teras a fflatiau wedi cynyddu ers 2011.

Ceir amrediad eang iawn o brisiau tai yn Ynys Môn gyda'r pris chwartel isaf am dŷ yn 2012 yn £110,000; pris chwartel uchaf yn £192,625 a phris 90fed canradd yn £249,950.

**Tabl 28: Prisiau tai yn Ynys Môn, 2012**


| Math o dŷ | Nifer o werthiannau | Prisiau Tai | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Canolrif | Chwartel Isaf | Chwartel Uchaf | 90ain Cynradd |
| Ar wahân | 343 | £180,000 | £150,000 | £229,000 | £280,000 |
| Lled-ar wahân | 137 | £123,000 | £100,250 | £153,500 | £182,800 |
| Tŷ teras | 176 | £99,950 | £75,750 | £130,000 | £160,600 |
| Fflat / Fflat deulawr | 46 | £155,000 | £97,500 | £176,250 | £407,465 |
| Cyfanswm | 702 | £150,000 | £110,000 | £192,625 | £249,950 |

*Ffynhonnell: Land Registry, 2012*

Dengys **Map 14** prisiau tai canolrif ar lefel ward yn Ynys Môn ar gyfer gwerthiannau yn ystod 2012. Yn ystod 2012, gwelwyd y pris canolrif isaf o £80,000 yn ward Tref Caergybi a'r pris canolrif uchaf o £241,250 yn ward Rhosneigr.

O ran prisiau tai chwartel isaf (**Map 15**) gwelwyd y pris chwartel isaf o £61,000 eto yn ward Tref Caergybi a'r pris chwartel isaf uchaf o £164,000 yn ward Llanbedrgoch.


**Map 14: Pisiau tai canolrif, fesul ward, 2012**




Ffynhonnell: Land Registry
Cynhyrchwyd gan yr Uned Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd

Cynnwys data Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013
Cynnwys data Arolwg Ordnans Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387

**Map 15: Pisiau tai chwartel isaf, fesul ward, 2012**



## *Fforddiadwyedd*

Un ffordd o fesur fforddiadwaeth tai yw edrych ar y gymhareb prisiau tai i incwm aelwyd. Mae'r mesur hwn o dai fforddiadwy yn rhoi arwydd cyffredinol os yw prisiau tai yn fforddiadwy mewn perthynas ag incwm neu beidio. Mae **Tabl 29** yn dangos y gymhareb prisiau tai i incwm aelwyd yn seiliedig ar ffigyrau canolrif a chwartel isaf. O'r tabl, gellir gweld bod prisiau tai canolrif yn 2012 yn 6.3 gwaith incwm aelwyd canolrifol, tra bod pris chwartel isaf tai yn 8.8 gwaith incwm chwartel isaf aelwyd.

Mae'r gymhareb ganlrifol wedi bod yn weddol sefydlog ers 2008 ond mae'r gyfradd chwartel isaf wedi bod yn cynyddu'n flynyddol o gyfradd o 6.9 yn 2008 hyd at gyfradd o 8.8 yn 2012, sydd yn awgrymu ei bod hi wedi mynd yn gynyddol anoddach i aelwydydd ac incymau aelwyd chwartel isaf allu fforddio eiddo eu hunain.

**Tabl 29: Cymhareb prisiau tai i incwm aelwyd yn Ynys Môn**

| | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| Incwm Canolrif Aelwyd | £25,128 | £26,210 | £24,353 | £24,733 | £23,770 |
| Pris Canolrif Eiddo | £150,250 | £149,999 | £150,000 | £140,000 | £150,000 |
| Cyfradd Canolrif | 6.0 | 5.7 | 6.2 | 5.7 | 6.3 |
| | | | | | |
| Incwm Chwartel Isaf Aelwyd | £15,906 | £16,693 | £14,373 | £14,198 | £12,504 |
| Pris Chwartel Isaf Eiddo | £110,000 | £110,000 | £103,000 | £100,000 | £110,000 |
| Cyfradd Chwartel Isaf | 6.9 | 6.6 | 7.2 | 7.0 | 8.8 |

*Ffynhonnellau: CACI Paycheck; Land Registry*


Gellir hefyd weld yn Nhabl 29 bod incwm aelwyd canolrif blynyddol wedi disgyn o £963 rhwng 2011 a 2012 i £23,770. Yn yr un cyfnod, aeth pethau'n fwy gwaeth ar aelwydydd gyda'r incymau isaf - syrthiodd incwm aelwyd chwartel isaf £1,694 i ddim ond £12,504. Mae'r aelwydydd hynny sydd ag incwm aelwyd isel yn dioddef y fwyaf o ddiffyg fforddiadwaeth yn y farchnad dai.

Mae **Map 16** yn dangos cymarebau pris tai canolrif ag incwm aelwyd canolrif ymysg wardiau Ynys Môn yn 2012. Mae'n glir bod gwahaniaethau enfawr yn bodoli ymysg y cymarebau, gyda'r gymhareb isaf yn 3.5 yn ward Llanfair-yn-Neubwll sydd yn cynnwys pentrefi Bodedern, Caergeiliog a Llanfihangel yn Nhowyn, a'r gymhareb uchaf o 10.2 yn ward Rhosneigr.


Gwelir cymarebau prisiau tai i incwm aelwyd canolrif uchel yng Ngogledd Môn yn wardiau Llanbadrig ac Amlwch Wledig ac yn Nwyrain Môn o ran wardiau Llanddyfnan, Moelfre, Llanbedrgoch a Biwmares. Gall hyn fod yn gysylltiedig â'r ffaith bod cyfrannau uchel o gartrefi yn y wardiau yma heb unrhyw breswylwyr arferol, sydd yn cynnwys ail gartrefi / tai haf.

O ran cymarebau pris tai chwarter isaf i incwm aelwyd chwartel isaf gweler y gymhareb isaf o 4.9 eto yn ward Llanfair-yn-Neubwll a'r gymhareb uchaf o 12.5 yn ward Rhosneigr (Gwelir **Map 17**)

**Map 16: Cymhareb prisiau tai canolrif i incwm aelwyd canolrif, fesul ward, 2012**




**Map 17: Cymhareb prisiau tai chwartel isaf i incwm aelwyd chwartel isaf, fesul ward, 2012**



Amcangyfrif arall o fforddiadwyedd oddi fewn i'r farchnad dai yw'r gyfran o aelwydydd sydd methu fforddio prynu tŷ lefel-mynediad, sef tŷ â phris chwartel isaf. Rhennir y pris chwartel isaf gyda 3.5 er mwyn cyfrifo'r trowthwy incwm aelwyd fyddai ei angen i fforddio tŷ lefel-mynediad. Ystyrir aelwydydd sydd o dan y trothwy hwn yn rhai sydd 'wedi eu prisio allan o'r farchnad'.

Yn Ynys Môn roedd 68.2% o aelwydydd (21,433 o aelwydydd) 'wedi eu prisio allan o'r farchnad' yn 2012. Mae **Map 18** yn dangos y gyfran o aelwydydd sydd 'wedi eu prisio allan o'r farchnad' ymysg wardiau Ynys Môn yn 2012. Gwelir y gyfran isaf o 37.2% yn ward Llanfair-yn-Neubwll tra bod y gyfran uchaf o 79.9% yn ward Llanbedrgoch.

**Map 18: Canran o aelwydydd 'wedi eu prisio allan o'r farchnad' dai, fesul ward, 2012**



## *Polisïau Cynllunio*

### Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20

Cyhoeddwyd y Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Yr Iaith Gymraeg - Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio ym Mehefin 2000.

Pan wnaethpwyd arolwg yn 2004, roedd nifer o swyddogion cynllunio o'r farn nad oedd TAN 20 (argraffiad 2000) yn rhoi digon o gyfarwyddyd i alluogi swyddogion cynllunio i asesu'n foddhaol effaith debygol polisïau neu ddatblygiad ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant. Mae'r amharodrwydd i gymryd risgiau a goblygiadau gorfod talu costau yn dilyn apeliadau aflwyddiannus wedi arwain awdurdodau cynllunio lleol i fod yn hynod ofalus. Mae hyn yn golygu fod mater yr iaith Gymraeg wedi tueddu i gael ei gweld fel is-ffactor, ac nid fel yr un sy'n penderfynu ceisiadau (Jones, 2011).

Oherwydd diffygion TAN 20 (argraffiad 2000) yn 2003 bu i bartneriaeth o 16 o gyrff cyhoeddus yn ogystal â'r Cynulliad, Bwrdd yr Iaith a Ffederasiwn Adeiladwyr Tai, gomisiynu gwaith ymchwil i geisio datblygu methodoleg y gellid ei ddefnyddio i helpu awdurdodau cynllunio i wneud asesiadau effaith ieithyddol. Bwriad arall yr astudiaeth oedd datblygu polisïau ieithyddol a chofrestr o ffynonellau gwybodaeth berthnasol (Ibid.). Roedd y gwaith ymchwil hwnnw yn heriol gan ei fod yn ymchwilio i rywbeth lle nad oedd modelau ar gael a thrwy fod adnoddau ymchwil gwreiddiol yn brin (Consortiwm o sefydliadau, 2005, Tud 5).

Yn gynnyrch o'r gwaith ymchwil fe gyhoeddwyd y ddogfen Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen yn Rhagfyr 2005. Mae casgliadau ac argymhellion y ddogfen yw gweld yn **Nhabl 30** a **Thabl 31**.

**Tabl 30: Casgliadau dogfen 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005)**

| | Casgliadau dogfen 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005) |
|---|---|
| 1. | Mae rhai awdurdodau cynllunio lleol wedi mabwysiadu ystyriaeth o'r iaith Gymraeg o fewn asesiad o effaith ar gymuned. |
| 2. | Does dim enghreifftiau ymarferol o Asesiadau Effaith ar Iaith mewn gwledydd eraill. |
| 3. | Prin iawn yw'r defnydd o'r Nodyn Technegol 20 (argraffiad 2000) |
| 4. | Mae geiriad TAN 20 (argraffiad 2000) yn aneglur â diffyg tystiolaeth. |
| 5. | Mae polisi iaith yng Nghynllun Unedol mabwysiedig Sir Ddinbych yn arloesol trwy ei wneud yn orfodol i ddatblygwr baratoi asesiad ieithyddol lle bydd niwed ieithyddol yn debygol oherwydd y datblygiad bwriedir. Roedd y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai yn gwrthwynebu'r polisi arfaethedig ond cefnogodd yr arolygwr safbwynt y Cyngor yn dilyn Ymchwiliad Cyhoeddus. |

*Ffynhonnell: Jones, 2011, Tudalen 5*

**Tabl 31: Argymhellion dogfen 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005)**

| Argymhellion dogfen 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005) |
|---|
| 1. Dylid ystyried cyd-destun strategaethau cymunedol wrth lunio polisïau cynllunio. |
| 2. Dylid creu proffil ieithyddol fel cam cyntaf i ddiffinio 'ardaloedd ieithyddol sensitif' – cyfeirir at drothwy o 25%. |
| 3. Dylai datblygwyr baratoi Datganiad o Effaith ar Iaith i gyd fynd gyda'r cais cynllunio o fewn ardaloedd ieithyddol sensitif. |
| 4. Mewn rhai amgylchiadau arbennig dylai datblygwyr baratoi Asesiad Effaith ar Iaith gan ei fodelu ar fethodoleg yn yr adroddiad. |
| 5. Yn benodol roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru sef: |
| i. Dylid gwerthuso'r syniadau a'r awgrymiadau yn yr adroddiad ac ystyried ei oblygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru a TAN 20. |
| ii. Dylid ystyried a oes angen ymchwil bellach i ysgogi datblygu polisïau newydd gan gynnwys adolygu - ar y cyd gyda Bwrdd yr Iaith - pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau data. |
| iii. Dylid gwneud yr uchod mewn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid allweddol. |

*Ffynhonell:* Jones, 2011, Tud 5 & 6

Ym mis Hydref 2013 fe gyhoeddwyd y Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg diwygiedig. Yn ôl datganiad gan Carl Sargeant, Gweinidog Tai ac Adfywio "Mae'r TAN diwygiedig hwn yn rhoi eglurder i awdurdodau lleol ynghylch sut y dylai ystyriaethau yn gysylltiedig â'r Gymraeg gael eu bwydo i'r gwaith o baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r canllawiau yn golygu bod rhaid i awdurdodau cynllunio lleol sydd wedi nodi bod yr iaith yn bwysig yn lleol ystyried y Gymraeg fel rhan o'u Cynlluniau Datblygu Lleol yn y dyfodol. Bydd rhaid iddyn nhw hefyd ymgynghori â'r Comisiynydd Iaith wrth baratoi ac adolygu'r Cynllun. Fel hyn, bydd awdurdodau cynllunio yn gallu defnyddio eu Cynlluniau Datblygu Lleol i liniaru'r effaith y gallai datblygiadau newydd ei chael ar y Gymraeg." (Llywodraeth Cymru, 2013)

Ers cyhoeddi'r TAN 20 diwygiedig mae nifer wedi beirniadu gwendidau'r ddogfen diwygiedig ynghyd a'i briodoldeb. Mae pryder wedi ei nodi bod "nifer fawr o awdurdodau wedi mabwysiadu eu cynlluniau datblygu lleol yn barod, a dyw'r canllawiau ddim yn delio â'r broblem honno" (BBC Newyddion, 2013). Hefyd "mae'r ffaith bod y nodyn yn datgan na ddylai awdurdodau gynnal asesiadau effaith iaith ar geisiadau cynllunio unigol" yn cael ei weld yn ryfedd iawn gan rai (Ibid.).

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Ynys Môn a Gwynedd)

O ran polisi cynllunio yn Ynys Môn, yn 2010 gwnaed y penderfyniad i uno Uned Polisi Cynllunio Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn a sefydlwyd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ffurfiol ym mis Mai 2011.

Y cynlluniau datblygu mabwysiedig presennol[14] ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Môn ydi Cynllun Fframwaith Gwynedd a Chynllun Lleol Ynys Môn. Mae'r Cynllun Datblygu Unedol wedi'i Stopio yn cael ei ddefnyddio fel ystyriaeth gynllunio faterol. Mae'r cynlluniau datblygu mabwysiedig yn cael eu hategu gan gyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Mae gwaith bellach yn cael ei gynnal ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru) (Cyngor Sir Ynys Môn, 2006).

Mae rhaid i bob Awdurdod Cynllunio lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd rhaid i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio gael eu gwneud yn unol ag o, oni bai fod ystyriaeth faterol yn nodi fel arall.

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi penderfynu paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn.

Mae'r CDLl yn strategaeth ddatblygu dros gyfnod o 15 mlynedd ar gyfer defnydd tir sy'n canolbwyntio ar gael datblygiad cynaliadwy. Bydd yn gwneud y canlynol:

- Llywio datblygiad ar gyfer tai, cyflogaeth, manwerthu a defnyddiau eraill
- Cynnwys polisïau a fydd yn llywio penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol am geisiadau cynllunio
- Diogelu ardaloedd ar gyfer cynnal a chyfoethogi'r amgylchedd naturiol ac adeiledig

Er mwyn sicrhau na fydd y CDLl ar y Cyd yn cael effaith niweidiol ar yr IAITH Gymraeg, bwriedir ymgymryd ag Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) o'r Cynllun fel mae'n datblygu (Cyngor Sir Ynys Môn & Cyngor Gwynedd, 2013, Tud 12-13). Drwy ymgymryd â AEIG o'r CDLL ar y Cyd, fe fydd unrhyw effaith andwyol sy'n deillio o ddatblygiad yn cael eu minimeiddio a'u lliniaru. Dylid nodi bod y fethodoleg AEIG yn broses oddrychol sy'n bwriadu sefydlu'r effeithiau tebygol a ddaw yn sgil cynnig neu bolisi datblygu. Mae AEIG o'r Hoff Strategaeth wedi cael ei ymgymryd ac mae yna Grynodeb Anhechnegol o'r asesiad ar gael (Cyngor Sir Ynys Môn, 2011).

Yn ôl y AEIG – Hoff Strategaeth "mae'r Hoff Strategaeth yn annhebygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg. Dengys yr asesiad nad yw'r strategaethau gofodol a thwf yn debygol o arwain at newidiadau sylweddol yn strwythur economaidd-gymdeithasol yr ardal a allai effeithio ar hyfywdra'r iaith Gymraeg. Dylai'r amrediad o gyfleoedd, a ddarperir gan y Strategaeth, wella atyniad yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys: cymysgedd o wahanol fathau o dai (gan gynnwys tai fforddiadwy) sy'n bodloni anghenion lleol, twf economaidd lleol, cyfleusterau cymunedol, gwelliannau amgylcheddol ynghyd â diogelu a mwyhau asedau diwylliannol gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Yn ei dro, dylai hyn gynorthwyo i gadw gafael ar y boblogaeth bresennol sy'n siarad Cymraeg a denu preswylwyr Cymraeg iaith gyntaf yn ôl i'r ardal hyd yn oed" (Cyngor Sir Ynys Môn & Cyngor Gwynedd, 2013, Tud 10).

Oherwydd y lefel o fanylder sydd wedi'i chynnwys yn y strategaeth a ffafrir roedd yn bosib i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ddefnyddio'r 18 o gwestiynau o'r ddogfen "Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y

[14] Cyhoeddwyd y papur hwn Rhagfyr 2013

Ffordd Ymlaen (2005)" fel fframwaith ar gyfer asesu'r effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae **Error! Reference source not found.** yn rhoi crynodeb o'r asesiad effaith ieithyddol o'r hoff strategaeth yn seiliedig ar y 18 cwestiwn yma.

**Tabl 32: Crynodeb o Asesiad Effaith Ieithyddol o'r Hoff Strategaeth yn seiliedig ar ddefnyddio'r 18 o gwestiynau "Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen" (2005)**

| | Asesiad Effaith Ieithyddol |
|---|---|
| **1. Ydy'r strategaeth yn debygol o arwain at gynnydd / ddirywiad yn y boblogaeth allai:**<br><br>a) Effeithio ar y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg / Saesneg (mewn ffordd negyddol / gadarnhaol)?<br><br>b) Arwain at ddirywiad llwyr neu gyfatebol yn y nifer o siaradwyr Cymraeg? | Yn y broses o baratoi'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi, mae symudiad poblogaeth wedi cael ei ystyried. Mae yna angen cyffredinol am fwy o dai i fodloni anghenion y boblogaeth gynyddol. Yn y papur pwnc: Tai a Phoblogaeth, aseswyd patrymau poblogaeth y gorffennol, y presennol a'r hyn a ragwelwyd yn Ardal y Cynllun, sydd wedi cynorthwyo i sefydlu gofyn Ardal y cynllun am dai.<br><br>Mae gan rai mathau o ddatblygiad newydd, yn enwedig tai, ddylanwad uniongyrchol ac anuniongyrchol ar boblogaeth ardal. Gall datblygiad newydd, yn enwedig tai newydd, arwain at fewnlifiad o nifer fawr o drigolion nad ydynt ar gyfartaledd yn siarad Cymraeg i ardal, ac mae'n debygol o danseilio cymunedau llai sy'n siarad Cymraeg yn bennaf. Ar y llaw arall, mae'n bosib y bydd gan lefel y twf effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg wrth i brisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy gynorthwyo i gadw'r boblogaeth bresennol. Mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu cyfleoedd tai i ddiwallu anghenion y gymuned leol, yn enwedig anghenion pobl ifanc a'r henoed. Bydd dosbarthiad tai ar draws Ardal y Cynllun yn darparu mwy o ddewis a mwy o hyblygrwydd i bobl allu aros yn eu cymunedau.<br><br>Mae'r strategaeth hefyd yn hwyluso'r ddarpariaeth o gyfleoedd economaidd drwy ardal y Cynllun. Dylai hyn hefyd gynorthwyo i gadw pobl ifanc mewn cymunedau, yn enwedig rhai o'r cymunedau mwyaf gwledig, gan felly gynnal neu wella cydbwysedd demograffig o fewn cymunedau.<br><br>Mae Polisi PS14 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) hefyd yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun yn uniongyrchol, ac yn ceisio osgoi unrhyw niwed arwyddocaol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned a grëir gan ddatblygiad amhriodol.<br><br>Yn ogystal, roedd y sefyllfa ynghylch yr iaith Gymraeg yn ffactor allweddol a gafodd ei ystyried fel rhan o'r broses wrth benderfynu ar y strategaeth anheddleoedd.<br><br>Felly, yn gyffredinol, ystyrir bod yr anghenion tai fel y'u hamlinellir yn y Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn annhebygol o arwain at gynnydd neu ostyngiadau poblogaeth arwyddocaol allai effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Saesneg / Cymraeg. |

| | |
|---|---|
| **2.Ydy'r strategaeth yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?**<br><br>a) Allai hyn olygu cynnydd parhaol yn y gyfran o aelwydydd nad ydynt yn siarad Cymraeg?<br><br>b) A fydd y newid yn barhaol neu dros dro? | Fel y nodwyd ym maen prawf 1 uchod, gall datblygiad newydd, yn enwedig tai newydd, arwain at fewnlifiad o gyfradd fawr o drigolion nad ydynt yn siarad Cymraeg i ardal, sydd yn debygol o danseilio cymunedau llai sy'n siarad Cymraeg yn bennaf a gwneud cymhathu yn anodd. Ar y llaw arall, gall fod yn bosib i lefel y cynnydd gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg oherwydd gall prisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy gynorthwyo i gadw gafael ar y boblogaeth bresennol.<br><br>Mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu cyfleoedd tai i ddiwallu anghenion y gymuned leol, yn enwedig anghenion pobl ifanc a'r henoed. Bydd y dosbarthiad tai hwn ar draws Ardal y Cynllun yn rhoi mwy o ddewis a mwy o hyblygrwydd i bobl allu aros yn eu cymunedau. Bydd y strategaeth yn darparu ar gyfer y twf poblogaeth a ragwelir.<br><br>Mae union effaith y twf mewn tai ar yr iaith Gymraeg yn ansicr ar hyn o bryd. Gall fod yn bosib i lefel y twf gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg<br><br>oherwydd gall prisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy gynorthwyo i gadw gafael ar y boblogaeth bresennol. I'r gwrthwyneb, gallant hefyd annog poblogaeth ddi-gymraeg i symud i mewn. Mae'r cwestiwn a yw'r newid mewn patrymau ymfudo yn effeithio ar y nifer o siaradwyr Cymraeg yn dibynnu i raddau helaeth ar yr ardal a'r math o gynigion a wneir i'r ardal honno. Dengys y tablau a gynhwysir yn y dadansoddiad gwaelodlin uchod bod y mwyafrif o bobl sydd yn symud i gartrefi newydd yn byw naill ai yng Ngwynedd neu Ynys Môn yn barod, sydd yn awgrymu na fydd unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg yn debygol o fod yn sylweddol.<br><br>Yn ogystal, mae'r strategaeth yn hwyluso'r ddarpariaeth o gyfleoedd economaidd drwy ardal y Cynllun. Dylai hyn hefyd gynorthwyo i gadw pobl ifanc mewn cymunedau, yn enwedig y rhai mwyaf gwledig, gan felly gynnal neu wella'r cydbwysedd demograffig o fewn cymunedau.<br><br>Mae Polisi PS14 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) hefyd yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun yn uniongyrchol, ac yn ceisio osgoi unrhyw niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned a grëir gan ddatblygiad amhriodol.<br><br>Mae'n hollbwysig bod y Cynllun yn darparu cyflenwad digonol o dai i ddiwallu anghenion lleol er mwyn cadw'r boblogaeth yn eu cymunedau. Ystyrir bod y strategaeth yn darparu ar gyfer y newidiadau a ragwelir yn y boblogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun. |

| | |
|---|---|
| **3. Ydy'r strategaeth yn debygol o arwain at allfudo?**<br><br>a) Ydy'r broses o allfudo yn debygol o arwain at golled o aelwydydd sy'n siarad Cymraeg?<br><br>b) A fydd unrhyw newid yn barhaol neu dros dro? | Dylai dosbarthiad mwy cyfatebol o ddatblygiad drwy ardal y Cynllun, yn cynnwys cefn gwlad, fod yn gymorth i gefnogi bywiogrwydd cymunedol drwy ddarparu tai, cyfleusterau a gwasanaethau'n lleol, ble mae gofyn amdanynt ac maent yn gyraeddadwy drwy amryw ddulliau o deithio. Yn ei dro, dylai hyn hyrwyddo cadw'r boblogaeth gynhenid a chan hynny hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg.<br><br>Mae Polisi PS3 (Strategaeth aneddleoedd) yn amlinellu'r hierarchaeth ar gyfer darpariaeth gwasanaeth a buddsoddiad, dosbarthiad gofodol tai ac mae Polisi PS8 yn darparu'r fframwaith i ddosbarthu twf cyflogaeth drwy ardal y Cynllun. Mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn cydnabod bod gan ganolfannau a phentrefi llai, os ydynt am aros yn gynaliadwy, gyfle i roi lle i ddatblygiadau newydd.<br><br>Bydd hyn yn gwarchod y lefel o gyfleusterau a gwasanaethau mewn aneddiadau presennol. Er mwyn ymdrin â'r angen lleol am dai mewn ardaloedd mwy gwledig, mae clystyrau all dderbyn datblygiadau mewnlenwi ar raddfa fechan hefyd yn cael eu hadnabod. Yn gyffredinol, mae'r Polisi yn sicrhau bod graddfa'r datblygiad yn addas i faint yr anheddiad a bod capasiti ieithyddol yn cael ei ystyried. Yn ychwanegol, mae'r Polisi yn pennu na fydd unrhyw safle tai marchnad agored yn cael ei ddyrannu mewn rhai mathau o Bentrefi ac ym mhob Clwstwr, a ddylai fod yn haws i bobl leol brynu cartrefi newydd, ac yn ei dro, annog pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg i aros yn eu cymunedau neu ddychwelyd.<br><br>Mae Polisïau PS11 (Darpariaeth tai cytbwys) a PS12 (Tai fforddiadwy) yn uniongyrchol yn hwyluso nifer digonol o dai i ddiwallu anghenion cymunedau lleol o ran y math o dai a'u fforddiadwyedd. Yn ogystal, maent yn hwyluso datblygiad ystod o fathau o dai a daliadaeth i ddiwallu anghenion pob rhan o'r boblogaeth gan gynnwys tai ar gyfer pobl hŷn. Bydd hyn yn cynorthwyo i greu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol.<br><br>Mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn anelu at ddiogelu safleoedd neu ddynodi ardaloedd cyflogaeth benodol yn bennaf oddi mewn i'r Ganolfan Isranbarthol a'r canolfannau Gwasanaeth Trefol, gan ddyrannu rhai ardaloedd oddi mewn i'r Canolfannau Gwasanaeth Gwledig. Cefnogir cyfleoedd cyflogaeth briodol ar raddfa fechan yn y Pentrefi, y clystyrau a chefn gwlad hefyd, ac o'u hamgylch. Dylai hyn gynorthwyo i gadw pobl ifanc yn eu cymunedau, gan felly olygu y bydd yr iaith Gymraeg yn elwa.<br><br>Dylai polisïau strategol sydd yn ymwneud â'r economi, sef PS8, PS9 a PS10 fod o fudd i gymunedau drwy hwyluso datblygiad economaidd lleol a fydd yn gwella bywiogrwydd cymuned, gan felly gynorthwyo i gadw'r boblogaeth bresennol. |

| | |
|---|---|
| **4. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at newid strwythur oedran y gymuned?**<br><br>a) Arwain at bobl ifanc / canol oed / hyn sy'n siarad Cymraeg yn gadael / symud i'r ardal, gan arwain at:<br><br>i) Newidiadau mewn patrymau gweithgareddau traddodiadol, gan arwain at gynyddu'r<br>awydd i symud ymaith?<br><br>ii) Tensiynau cymdeithasol / rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol yn dadfeilio | Mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn cydnabod fod y boblogaeth yn heneiddio. Mae dosbarthiad cyfatebol datblygiad, a hwyluswyd dan yr opsiwn gofodol hwn a ffafrir, yn debygol o annog pobl ieuengach i aros yn eu cymunedau neu ddychwelyd iddynt, gan greu cymunedau mwy cytbwys fydd o ganlyniad yn gwella hyfywedd cymunedol a chydlyniant yn Ardal y Cynllun cyfan. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gynnig amrywiaeth o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy, ynghyd â darparu ar gyfer ystod o anghenion cyflogaeth fydd wedi'u dosbarthu ar draws Ardal y Cynllun. Mae Polisi PS12 ar Dai Fforddiadwy yn benodol â'r bwriad o hwyluso datblygiad tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol ac a ddylai annog pobl ifanc i aros yn eu cymunedau.<br><br>Mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn anelu at ddiogelu safleoedd neu ddynodi ardaloedd cyflogaeth benodol yn bennaf oddi mewn i'r Ganolfan Isranbarthol a'r canolfannau Gwasanaeth Trefol, gan ddyrannu rhai ardaloedd oddi mewn i'r Canolfannau Gwasanaeth Gwledig. Cefnogir cyfleoedd cyflogaeth briodol ar raddfa fechan yn y Pentrefi, y clystyrau a chefn gwlad hefyd, ac o'u hamgylch. Hefyd, dylai hyn gynorthwyo i gadw pobl ifanc yn eu cymunedau, gan felly olygu y bydd yr iaith Gymraeg yn elwa.<br><br>Er mwyn cyfarch y boblogaeth sy'n heneiddio, mae'n bwysig darparu ystod o dai addas, ynghyd â darpariaeth o ddatblygiadau gofal preswyl fel gall y boblogaeth hŷn aros yn eu cymunedau. Bydd cyfran sylweddol o'r cynnydd a ragwelir mewn aelwydydd yn y dyfodol yn bobl dros 65 mlwydd oed, felly ceisir am ddarpariaeth o dai addas ar gyfer pobl hŷn, yn enwedig mewn cynlluniau datblygiadau mawr.<br><br>Fodd bynnag, gan fod nifer o wasanaethau allweddol (e.e. gwasanaethau a chyfleusterau iechyd) wedi'u lleoli yn yr aneddiadau allweddol, gallai pobl hŷn mewn cymunedau gwledig ei chael hi'n anodd cael mynediad atynt. Bydd yr union effaith yn dibynnu ar leoliad y datblygiad (tai yn ogystal â datblygiad iechyd perthnasol) mewn perthynas â rhwydwaith trafnidiaeth effeithiol.<br><br>Ar y cyfan, fodd bynnag, mae'n anodd rhagweld yr union ystod o effeithiau posib ar strwythur oedran y boblogaeth yn Ardal y Cynllun. Dibynna llawer ar amryw o ffactorau gan gynnwys y ddarpariaeth o gyfleusterau a gwasanaethau mewn aneddleoedd, prisiau tai a chyfleoedd cyflogaeth. |
| **5. A yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar iechyd pobl leol?**<br><br>a) Cynyddu'r risg o salwch, felly lleihau'r atyniad i fyw yn y gymuned? | Ni ystyrir y bydd y strategaeth a'r cynigion arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar iechyd y boblogaeth am nifer o resymau.<br><br>Mae dosbarthiad cyfatebol datblygiad yn ardal y Cynllun yn diwallu anghenion y boblogaeth drefol yn ogystal â'r boblogaeth wledig ac yn sicrhau bod gan gyfran fwy o'r boblogaeth fynediad da i wasanaethau a |

| | |
|---|---|
| b) Posibilrwydd y gallai wneud bywyd yn ddrytach, felly cynyddu'r risg o broblemau / straen ariannol ar y boblogaeth leol sy'n siarad Cymraeg. | chyfleusterau economaidd cymdeithasol.<br><br>Felly, byddai'r manteision iechyd cyffredinol yn cael eu dosbarthu'n gyfartal ar draws Ardal y Cynllun. Drwy hyrwyddo tai newydd a darparu datblygiad economaidd bydd y Strategaeth yn gwella bywiogrwydd a lles y gymuned.<br><br>Bydd y strategaeth yn helpu i sicrhau'r ddarpariaeth o isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen i gynnal a gwella cymunedau. Mae'r polisïau i gynorthwyo gwireddu'r deilliant hwn yn cynnwys PS5 (Cyfraniadau at yr Isadeiledd gan ddatblygwyr), PS6 (Cynigion am brosiectau isadeiledd mawr), PS20 (Isadeiledd Cymunedol) a PS22 (Cludiant, datblygiad a hygyrchedd cynaliadwy). Bydd y rhain yn cynorthwyo i gefnogi mentrau sy'n adeiladu cymunedau sefydlog, diogel, iach a chryf sy'n golygu parchu a gwella'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.<br><br>Bydd canolbwyntio'r mwyafrif o'r datblygiad yn y prif ganolfannau hefyd yn golygu y byddai preswylwyr yn agosach at wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth, felly lleihau'r angen i deithio a ddylai gynorthwyo i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â chludiant preifat a gwella iechyd y boblogaeth gyffredinol. |
| **6. A yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar fwynderau'r ardal leol?**<br><br>a) Dirywiad yn yr ansawdd amgylcheddol, felly lleihau'r atyniad i fyw yn y gymuned? | Dylai datblygiad newydd sydd wedi'i reoli'n iawn, gynnal ardaloedd o bwysigrwydd hanesyddol / diwylliannol neu wella ansawdd yr amgylchedd adeiladol presennol.<br><br>Gan fod yr opsiwn gofodol a ffafrir yn caniatáu dosbarthu datblygiadau mewn modd sy'n fwy cymesur, bydd yr effaith posib ar yr amgylchedd, gan gynnwys tirweddau a threfweddau yn fwy gwasgaredig ar draws Ardal y Cynllun.<br><br>Caniateir nifer cyfyngedig o ddatblygiadau newydd yn y rhan fwyaf o aneddiadau a fydd yn cyfrannu at batrymau twf naturiol aneddiadau a fydd wedyn yn llai tebygol o effeithio ar werthoedd amwynder ardaloedd lleol.<br><br>Er y gall patrwm datblygu gwasgaredig leihau cyfraniadau datblygwyr at gyfleusterau a mwynderau cyhoeddus, bydd y gwir effaith yn dibynnu'n fawr ar raddfa, natur a lleoliad datblygiadau newydd o ran trefweddau a thirweddau o werth. Byddai'n rhaid dylunio datblygiadau i safon uchel gan ymgorffori'r drefwedd a'r cymeriad gwledig presennol. |

| | |
|---|---|
| | Nod y strategaeth yw cynnal y cymysgedd arbennig o gymeriad trefol / gwledig ardal y cynllun yn ogystal â'i gymeriad ieithyddol a diwylliannol nodedig. Bydd cymeriad unigol a swyddogaethau cyflenwol y canol trefi yn gwella drwy ddatblygiad, gwelliannau i'r stadau cyhoeddus, i gyfleusterau cludiant cyhoeddus ac i gysylltiadau cerddwyr / beicio. Bydd y strategaeth yn helpu i sicrhau'r ddarpariaeth o isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen i gynnal a gwella cymunedau.<br><br>Nod Polisi PS1 (Datblygiad Cynaliadwy), PS15 (Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol) a PS16 (Gwarchod a gwella'r asedau diwylliannol a hanesyddol) yw: hyrwyddo gwelliannau i'r amgylchedd adeiladu, hanesyddol a naturiol; gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol; a gwarchod a gwella'r asedau diwylliannol a hanesyddol yn ôl eu trefn; a dylai hyn oll gael effaith fanteisiol ar fwynderau. |
| **7. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at y peryg o fwy o droseddu a thrais<br>yn y gymuned?**<br><br>a) Cynyddu'r risg o droseddu neu drais, felly lleihau'r atyniad i fyw yn y gymuned? | Mae gan amddifadedd cymdeithasol gysylltiad anesboniadwy â throseddu. Fel arfer mae nodweddion ardaloedd o amddifadedd yn cynnwys cyfraddau diweithdra uchel, tai o ansawdd gwael a diffyg cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Mae dosbarthiad mwy cyfatebol o ddatblygiadau yn debygol o leihau amddifadedd yn Ardal y Cynllun yn gyffredinol drwy'r ddarpariaeth uniongyrchol o dai newydd, datblygiad economaidd a chyfleusterau cymunedol ac mae angen isadeiledd newydd i gynnal a gwella'r cymunedau a fydd yn helpu i leihau troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r ofn o droseddu.<br><br>Mae Polisi PS6 (Cynigion am brosiectau isadeiledd mawr) a Pholisi PS7 (Datblygiad niwclear yn Wylfa) yn hwyluso datblygiadau graddfa fawr a fydd yn arwain at fewnlifiad o weithwyr o du allan i'r ardal. Gallai hyn arwain at amlygiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'i achosi gan densiynau cymdeithasol o fewn cymunedau. Ar y llaw arall, mae maen prawf o fewn y polisi yn nodi'r angen i gynigion gynnwys mesurau priodol i hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol a diogelwch cymunedol.<br><br>Bydd unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd yn cael ei liniaru i ryw raddau gan Bolisi Strategol PS1 (Datblygiad Cynaliadwy) sy'n hyrwyddo'n benodol safonau dylunio uchel i leihau troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r ofn o droseddu. |
| **8. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith andwyol ar fusnesau lleol?**<br><br>a) Posibilrwydd o arwain at fusnesau lleol – iaith Gymraeg – yn cau o ganlyniad i:<br>• Ostyngiad yn y boblogaeth leol yn gyffredinol? | Bydd yr union effaith ar fusnesau lleol yn dibynnu ar raddfa, natur a lleoliad datblygiadau newydd mewn perthynas â busnesau sy'n bodoli yn yr ardal. Mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth mewn aneddiadau o fewn ardaloedd trefol a gwledig a allai gyfrannu at ddatblygiad economaidd amrywiol. Mae'r strategaeth economaidd sydd wedi'i chynnwys yn y Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn amlygu'r angen i gynyddu allbwn economaidd o amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu'r nifer o swyddi, a darparu hefyd ar gyfer ffurfio busnesau newydd. Mae Polisi PS8 (Darparu cyfle i economi ffyniannus) yn arbennig yn cefnogi datblygiad economaidd ar draws Ardal y Cynllun yn ogystal |

| | |
|---|---|
| • Cynnydd mewn preswylwyr di-gymraeg?<br>• Cynnydd mewn cystadleuaeth niweidiol / cynorthwyol? | â darparu cyfleodd addysg a hyfforddi. |
| **9. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith andwyol ar swyddi lleol?**<br><br>a) Creu swyddi ar gyfer y boblogaeth leol – sy'n siarad Cymraeg (efallai yn rhinwedd<br>bod pobl leol sy'n siarad Cymraeg â'r sgiliau cywir)?<br><br>b) Bygwth swyddi'r boblogaeth leol - sy'n siarad Cymraeg (efallai drwy achosi busnesau lleol i gau). | Nid yw'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn debygol o gael effaith andwyol ar swyddi lleol yn Ardal y Cynllun. Mae'r strategaeth economaidd sydd wedi'i chynnwys yn y Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn amlygu'r angen i gynyddu allbwn economaidd gan amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu'r nifer o swyddi, a darparu hefyd ar gyfer ffurfio busnesau newydd a ddylai yn ei dro gynorthwyo i gadw gafael ar weithlu sy'n siarad Cymraeg a denu cyn trigolion oed gweithio i ddychwelyd i'r ardal.<br><br>Gan fod yr opsiwn gofodol a ffafrir yn hwyluso dosbarthiad mwy cyfatebol o ddatblygiadau, bydd yn caniatáu datblygiad economaidd y prif ganolfannau yn ogystal â'r aneddiadau mwy gwledig. Bydd hyn yn arwain at ddarparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer amrediad daearyddol eang o'r boblogaeth ac yn cynorthwyo i wella'r gwahaniaethau rhwng grwpiau incwm. Mae'r Strategaeth yn diogelu safleoedd ac yn dynodi ardaloedd cyflogaeth benodol yn bennaf oddi mewn i'r Ganolfan Isranbarthol a'r canolfannau Gwasanaeth Trefol, gan ddyrannu rhai ardaloedd oddi mewn i'r Canolfannau Gwasanaeth Gwledig. Cefnogir cyfleoedd cyflogaeth briodol ar raddfa fechan yn y Pentrefi, y clystyrau a chefn gwlad hefyd, ac o'u hamgylch.<br><br>Mae'r Strategaeth hefyd yn hwyluso amrywiaeth o fentrau i gael sgiliau uwch, yn cynnwys hyrwyddo prentisiaethau, cadw mwy o raddedigion yn lleol o brifysgolion yr ardal a negodi cytundebau gyda datblygwyr i ddarparu hyfforddiant i'r gweithlu.<br><br>Mae polisi strategol PS8 (Darparu cyfle i economi ffyniannus) yn cefnogi datblygiad economaidd ar draws Ardal y Cynllun yn uniongyrchol yn ogystal â darparu cyfleoedd addysg a hyfforddi, tra bo Polisi PS9 (Economi Ymwelwyr) hefyd yn cefnogi datblygiadau twristiaeth a ddylai hefyd fod o fudd i gymunedau lleol a chefnogi'r economi leol. Mae Polisi PS10 (Canol Trefi a Manwerthu) yn diogelu siopau a gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn erbyn eu colli'n ddianghenraid, a chefnogir cynigion ar gyfer gwasanaethau cymunedol amlbwrpas. Bydd Polisi PS7 (Datblygiad Niwclear yn Wylfa) yn hwyluso'r ddarpariaeth o gyfleoedd gyflogaeth ar gyfer cymunedau lleol yn y tymor byr a'r tymor hir.<br><br>Gallai cynnydd yn y boblogaeth breswyl olygu y bydd yna ragor o alw am siopau a gwasanaethau masnachol, gan greu economi leol hyfyw. Fodd bynnag, bydd yr union effaith ar gyflogaeth yn dibynnu ar leoliad a lefel y buddsoddiad ddaw i mewn i'r ardal. |

| | |
|---|---|
| **10. Ydy'r strategaeth yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd?**<br><br>a) Posibilrwydd o arwain at fwy o swyddi gwahanol ar gyfer y boblogaeth leol – sy'n siarad Cymraeg o ganlyniad i arallgyfeirio economaidd?<br><br>b) Arwain at fwy o bobl ddi-gymraeg yn mewnfudo? | Gan fod yr opsiwn gofodol a ffafrir yn hwyluso dosbarthiad mwy cyfatebol o ddatblygiad, byddai'n caniatáu datblygiad economaidd y prif ganolfannau yn ogystal â'r aneddiadau mwy gwledig. Bydd hyn yn arwain at ddarparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer amrediad daearyddol eang o'r boblogaeth ac yn cynorthwyo i wella'r gwahaniaethau rhwng grwpiau incwm.<br><br>Mae'r strategaeth economaidd sydd wedi'i chynnwys yn y Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn hyrwyddo datblygiad economaidd amrywiol yn Ardal y Cynllun ac yn amlygu'r angen i gynyddu allbwn economaidd o amrywiaeth o sectorau gan gynyddu'r nifer o swyddi. Mae'r Strategaeth yn dynodi tir cyflogaeth i gyflawni'r amcanion hyn.<br><br>Mae'r ffigwr ar gyfer darpariaeth o dir cyflogaeth ar safleoedd diwydiannol a busnes yn seiliedig ar gyfrifiadau a gynhwyswyd yn Adolygiad Tir Cyflogaeth Ynys Môn a Gwynedd (2011). Mae ffigyrau darpariaeth tir cyflogaeth yn fwy na'r hyn sy'n debygol o gael ei adeiladu a bydd hyn yn rhoi dewis i ddatblygwyr a deiliaid a ddylai helpu hwyluso patrwm amrywiol o ddatblygiad economaidd.<br><br>Fodd bynnag, gallai cyfleoedd cyflogaeth ddenu gweithwyr di-gymraeg i'r ardal. Ar y llaw arall, diffyg cyfleodd economaidd yw un o'r prif resymau pam fod pobl ifanc yn allfudo, felly bydd y ddarpariaeth o gyfleoedd newydd yn helpu i gadw'r boblogaeth ifanc yn eu cymunedau. Mae polisi PS14 (Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru) yn ceisio rhwystro unrhyw niwed arwyddocaol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned a achosir gan ddatblygiad anaddas ac mae angen cyfraniad ariannol drwy gytundeb Adran 106 mewn amgylchiadau priodol.<br><br>Gweler hefyd meini prawf naw ac wyth uchod. |
| **11. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar lefelau tâl / cyflog lleol?**<br><br>a) Posibilrwydd o gynyddu / ostwng lefelau tâl / cyflog o ganlyniad i gynnydd yn y<br>gweithlu / cystadleuaeth busnes? | Nid yw'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn debygol o gael effaith andwyol ar lefelau cyflog yn Ardal y Cynllun. Mae'r strategaeth economaidd sydd wedi'i chynnwys yn y Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn amlygu'r angen i gynyddu allbwn economaidd o amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu'r nifer o swyddi, a darparu hefyd ar gyfer ffurfio busnesau newydd ac yn ei dro dylai gynorthwyo i gadw gafael ar weithlu sy'n siarad Cymraeg.<br><br>Gweler hefyd meini prawf wyth, naw a deg uchod. |
| **12. A yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar gostau cyfartalog tai?** | Mae'n anodd penderfynu yn y cam hwn beth fydd union effaith y Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi ar brisiau tai yn Ardal y Cynllun. Fodd bynnag, dylai'r Strategaeth gynyddu argaeledd tai, eu fforddiadwyedd |

| | |
|---|---|
| a) Gorfodi siaradwyr Cymraeg lleol i adael y gymuned?<br><br>b) Y posibilrwydd o arwain at gynnydd mewn digartrefedd / straen tai ymhlith aelwydydd lleol o siaradwyr Cymraeg?<br><br>c) Rhwystro pobl leol sy'n siaradwyr Cymraeg rhag dychwelyd i'r ardal / gymuned? | ac ystod y mathau o dai gwahanol yn ardal y Cynllun.<br><br>Mae'r strategaeth tai yn hwyluso darparu tai fforddiadwy o ddyluniad a maint addas.<br><br>Yn seiliedig ar y rhagolygon twf a ffafrir o ran y gofynion tai, mae'r Strategaeth yn darparu 7,665 o aelwydydd ychwanegol yn ystod 2011-2026 yn ardal y cynllun. Mae hyn yn rhoi mwy o gyfle am gyfradd datblygu uwch sy'n realistig /y gellir ei rheoli na'r hyn a ddarparwyd yn y ddegawd ddiwethaf. Bydd cyfradd o'r tai newydd yn dai fforddiadwy, naill ai yn rai canolradd neu yn gartrefi yn y sector rhentu cymdeithasol yn seiliedig ar hyfywdra. Dylai hyn ei gwneud hi'n haws i ddarpar berchnogion tai allu prynu neu rentu tai newydd, yn enwedig preswylwyr sydd â chysylltiadau lleol.<br><br>Yn wir, mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu cyfleoedd tai sy'n diwallu anghenion y gymuned leol, yn enwedig anghenion pobl ifanc a phobl hŷn. Bydd dosbarthiad y tai ar draws Ardal y Cynllun yn rhoi mwy o ddewis a mwy o hyblygrwydd i bobl allu aros yn eu cymunedau. Yn ogystal, mae'r strategaeth yn hwyluso'r ddarpariaeth o dai a chyfleoedd economaidd mewn ardaloedd gwledig. Yn ogystal, dylai hyn gynorthwyo i gadw pobl ifanc yn y cymunedau hyn.<br><br>Bydd y polisïau strategol a ganlyn a gynhwysir yn y Strategaeth yn cynorthwyo i hyrwyddo datblygu tai fforddiadwy sy'n diwallu gofynion y boblogaeth leol.<br><br>i) Nod Polisi PS1 (Datblygiad Cynaliadwy) yw sicrhau bod unedau tai yn diwallu anghenion y boblogaeth leol gydol eu hoes o ran ansawdd, mathau o ddaliadaeth a fforddiadwyedd.<br><br>ii) Mae Polisi PS3 (Strategaeth anheddleoedd) yn sicrhau bod graddfa'r datblygiad yn addas i faint yr anheddiad ac y cymerir i ystyriaeth y capasiti ieithyddol. Yn ychwanegol, mae'r Polisi yn nodi nas dyrennir safleoedd tai marchnad agored mewn Pentrefi a chlystyrau a dylai hyn ei gwneud hi'n haws i bobl leol brynu neu rentu cartrefi newydd.<br><br>iii) Mae Polisïau PS11 (Darpariaeth gytbwys o dai) a PS12 (Tai fforddiadwy) – yn uniongyrchol yn hwyluso nifer digonol o dai i ddiwallu anghenion cymunedau lleol o ran y math o dai a'u fforddiadwyedd. Yn ogystal, mae'n hwyluso datblygiad ystod o fathau o dai a daliadaeth sy'n diwallu anghenion pob rhan o'r boblogaeth gan gynnwys tai ar gyfer pobl hŷn. Bydd hyn yn cynorthwyo i greu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol. |

| | |
|---|---|
| | iv) Mae Polisi PS14 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) hefyd yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun ac yn ceisio osgoi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol a grëir gan ddatblygiad amhriodol mewn cymuned. |
| **13. A yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar ysgolion lleol?**<br><br>a) Bygwth / sicrhau ysgolion lleol oherwydd cynnydd / lleihad yn nifer y disgyblion?<br><br>b) Newid y cydbwysedd rhwng myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg a rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg? | Mae'n anodd yn ystod y cyfnod hwn i benderfynu beth fydd effaith debygol y Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi ar ysgolion lleol gan y bydd yr effaith yn dibynnu ar raddfa a lleoliad datblygiadau newydd.<br><br>Gallai datblygu tai newydd ychwanegol mewn dalgylchoedd ysgolion roi pwysau gormodol ac annerbyniol ar eu gallu i weithredu'n effeithiol oherwydd y plant ychwanegol fydd angen eu cefnogi. Gallai cydweithio a datblygu mewn camau liniaru'r effeithiau. Gall ymrwymiadau cynllunio, sy'n sicrhau cyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at ysgolion lleol fod yn fodd o ddatrys hyn. Mae Polisi PS5 (Yr Isadeiledd a chyfraniadau at gan ddatblygwyr) yn cyfeirio'n uniongyrchol i'r gofyn am amodau cynllunio neu ymrwymiadau fel rhan o ddatblygiadau mewn achosion penodol.<br><br>Yn ogystal, gall datblygiad newydd arwain at fewnlifiad o bobl nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg a allai darfu ar gydbwysedd ieithyddol ysgolion. Mae datblygiadau sy'n fwy tebygol o gael effaith annerbyniol ar yr iaith fel arfer yn rai sy'n sylweddol eu maint o ran strwythur y gymuned sy'n bodoli / gallu cymuned i ymgorffori datblygiadau tai newydd / y math o farchnad dai sy'n weithredol mewn ardal, h.y. mae rhai ardaloedd marchnad dai yn fwy tebygol o fod yn ddeniadol i breswylwyr sydd eisoes yn byw yn ardal y Cynllun yn hytrach na denu perchnogion ail gartrefi / tai haf.<br><br>Fodd bynnag, fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi, ystyriwyd cyfleusterau allweddol mewn aneddiadau, gan gynnwys ysgolion lleol, a'u capasiti. Yn ogystal, cafodd aneddiadau eu categorïo mewn hierarchaeth sy'n cymryd i ystyriaeth presenoldeb ysgolion a'u gallu i ymgorffori datblygiadau newydd o ran eu cymeriad cymdeithasol. Hefyd, mae Polisi PS14 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun yn uniongyrchol ac yn ceisio osgoi niwed sylweddol i'r cymeriad a'r cydbwysedd ieithyddol a grëir gan ddatblygiad amhriodol mewn cymuned. |
| **14. A yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar ofal iechyd lleol?**<br><br>a) Bygwth / sicrhau cyfleusterau / gwasanaethau lleol drwy gyfrwng y Gymraeg? | Ystyriwyd darpariaeth gofal iechyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi. Cydnabyddir fod cynnydd yn y boblogaeth yn debygol o roi straen ychwanegol ar gapasiti cyfleusterau gofal iechyd presennol. Fodd bynnag, gellid lliniaru'r effaith hwn drwy ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygwyr gyfrannu tuag at wasanaethau o'r fath.<br><br>Lleolir y rhan fwyaf o wasanaethau a chyfleusterau iechyd allweddol yn y prif ganolfannau. Golyga hyn fod y |

| | |
|---|---|
| | strategaeth ofodol a ffafrir sy'n canolbwyntio cyfran uwch o ddatblygiadau yn y prif ganolfannau yn caniatáu i fwyafrif y boblogaeth gael mynediad da at y cyfleusterau hyn.<br><br>Ar y llaw arall, fodd bynnag, mae mynediad at wasanaethau iechyd mewn rhai ardaloedd gwledig yn wael. Mae'r Strategaeth aneddleoedd ddrafft ym Mholisi PS3 yn cyfeirio datblygiadau i rwydwaith o aneddleoedd a gefnogir gan rwydwaith cludiant cynaliadwy a thrwy hynny sicrhau fod preswylwyr unedau tai newydd â mynediad rhesymol at gyfleusterau a gwasanaethau. Mae'n bwysig fod y cynllun yn hwyluso datblygu rhwydwaith cludiant cynaliadwy sy'n gwella hygyrchedd yn yr ardaloedd hyn. Mae Polisi PS22 (Cludiant Cynaliadwy, datblygu a hygyrchedd) hefyd yn hwyluso gwelliannau mewn mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. Yn ogystal, mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi'n hwyluso darparu cyfleusterau iechyd newydd. |
| **15. A yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau lleol megis siopau?**<br><br>a) Bygwth / sicrhau siopau lleol / swyddfeydd post / banciau / tafarndai mewn<br>cymunedau Cymreig ac felly gorfodi rhai rhannau o'r boblogaeth i symud allan o'r ardal / gymuned, e.e. pobl hyn, yr anabl neu bobl ifanc. | Nid yw'r Strategaeth yn debygol o gael effaith andwyol ar y ddarpariaeth o wasanaethau lleol megis siopau yn y cyfnod hwn. Mae'r Strategaeth yn ceisio sicrhau y caiff datblygiadau eu dosbarthu er mwyn cryfhau'r rhwydwaith o aneddiadau yn unol â'r rolau a gynhwysir yn Hierarchaeth Aneddiadau'r Cynllun.<br><br>Bydd y dull hwn yn cynorthwyo i gynnal y gymysgedd arbennig o gymeriad trefol / gwledig ardal y cynllun yn ogystal â'i chymeriad ieithyddol a diwylliannol nodedig.<br><br>Mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi wedi cymryd i ystyriaeth argaeledd gwasanaethau mewn aneddleoedd. Mae aneddleoedd wedi'u categoreiddio mewn hierarchaeth yn seiliedig ar argaeledd gwasanaethau sy'n diwallu gofynion y preswylwyr. Dylai hyn sicrhau na fydd gwasanaethau o fewn cymunedau yn cael eu heffeithio'n andwyol gan lefelau amhriodol o ddatblygu.<br><br>Yn ogystal, bydd y Strategaeth yn sicrhau fod cymeriad unigol a swyddogaethau cyflenwol y canol trefi yn gwella drwy ddatblygiad, gwelliannau i'r stadau cyhoeddus, i gyfleusterau cludiant cyhoeddus ac i gysylltiadau cerddwyr / beicio. Yn ogystal, bydd yn helpu i sicrhau'r ddarpariaeth o isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen i gynnal a gwella cymunedau. Yn benodol, mae Polisi PS10 (Canol Trefi a Manwerthu) â'r bwriad o ddiogelu siopau a gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn erbyn eu colli'n ddianghenraid a chefnogir cynigion ar gyfer gwasanaethau cymunedol amlbwrpas. |
| **16. A yw'r strategaeth â'r potensial i arwain at dyndra cymdeithasol, gwrthdaro**<br>**neu rwygiadau difrifol yn y gymuned** | Bydd yr union effaith ar wahanol rannau o'r gymuned yn dibynnu ar leoliad y datblygiad a'r math o ddatblygiad. Fodd bynnag, gall dosbarthiad cymesur o ddatblygiad fod â'r potensial i leihau anghydraddoldebau drwy hwyluso dosbarthiad mwy cyfartal o ddatblygiad yn nhermau gofodol. Mae'n caniatáu datblygiad newydd cyfyngedig, yn enwedig tai yn y mwyafrif o aneddiadau ac yn cyfrannu at dwf |

| | |
|---|---|
| **sy'n siarad Cymraeg?**<br><br>a) Ag effaith arwyddocaol anwastad ar wahanol rannau o'r gymuned leol, gyda'r potensial o roi mantais i rai grwpiau a rhoi eraill dan anfantais?<br><br>b) Amharu ar werthoedd traddodiadol rhannau penodol o'r gymuned? | organig yr anheddiad nad yw wedyn yn effeithio'n andwyol ar hyfywdra cymunedol. Yn ogystal, bydd yn cynorthwyo i gefnogi bywiogrwydd cymunedol a chefnogi cynhwysiad cymdeithasol ac yn ei dro cynorthwyo i gynnal gwerthoedd diwylliannol o fewn y cymunedau hynny.<br><br>Mae'r Strategaeth yn ceisio sicrhau y caiff datblygiadau eu dosbarthu er mwyn cryfhau'r rhwydwaith o aneddiadau yn unol â'r rolau a gynhwysir yn Hierarchaeth Aneddiadau'r Cynllun. Bydd y dull hwn yn cynorthwyo i gynnal y gymysgedd arbennig o gymeriad trefol / gwledig ardal y cynllun yn ogystal â'i chymeriad ieithyddol a diwylliannol nodedig.<br><br>Yn ogystal, mae Polisi PS14 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun yn uniongyrchol ac yn ceisio osgoi unrhyw niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned a grëir gan ddatblygiad amhriodol. |
| **17. A yw'r strategaeth â'r potensial o arwain at newidiadau yn y traddodiad / diwylliant Cymreig?**<br><br>a) Â'r canlyniad bod aelwydydd sy'n siarad Cymraeg yn symud i ffwrdd o ardaloedd?<br><br>b) Arwain at gynnydd sylweddol mewn aelwydydd nad ydynt yn lleol ac nad ydynt yn siarad Cymraeg?<br><br>c) Arwain at erydiad mewn cysylltiadau teuluol neu rwydweithiau cymdeithasol eraill?<br><br>d) Arwain at newidiadau sylweddol i'r cyd-destun economaidd neu'r cyd-destun cymdeithasol a bygwth ffyrdd o fyw traddodiadol? | Yn gyffredinol, mae'r Strategaeth yn annhebygol o arwain at newidiadau sylweddol yn y traddodiad a'r diwylliant Cymreig a allai gael effaith andwyol ar yr iaith.<br><br>Mae'r Strategaeth yn ceisio sicrhau y caiff datblygiadau eu dosbarthu er mwyn cryfhau'r rhwydwaith o aneddiadau yn unol â'r rolau a gynhwysir yn Hierarchaeth Aneddiadau'r Cynllun. Bydd y dull hwn yn cynorthwyo i gynnal y gymysgedd arbennig o gymeriad trefol / gwledig ardal y cynllun yn ogystal â'i chymeriad ieithyddol a diwylliannol nodedig.<br><br>Fel y nodir yn yr adrannau uchod, mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn cynorthwyo i gadw preswylwyr ifanc sy'n siarad Cymraeg yn eu cymunedau drwy hwyluso datblygu tai fforddiadwy a thrwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth. Yn ogystal, mae bywiogrwydd a hyfywdra cymunedol yn cael eu gwella drwy wahanol bolisïau yn y Strategaeth. Bydd y rhain yn cynorthwyo i gefnogi mentrau sy'n adeiladu cymunedau sefydlog, diogel, iach a chryf sy'n golygu parchu a gwella'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. |

| | |
|---|---|
| e) Effaith ar aelwydydd lleol sy’n siarad Cymraeg drwy gyflwyno / gyflymu newid cymdeithasol? | |
| **18. A yw’r strategaeth yn debygol o gael effaith ar grwpiau gwirfoddol / gweithgareddau / ieuenctid lleol?**<br><br>a) Gorfodi pobl leol sy’n weithgar mewn grwpiau lleol i symud o’u cymunedau oherwydd:<br>• Cynnydd mewn diweithdra / straen economaidd?<br>• Cynnydd mewn prisiau tai /straen tai? | Gweler asesiad o feini prawf 9 a 12. |

*Crynodeb yn defnyddio gwybodaeth o - Ffynhonnell:* Cyngor Sir Ynys Môn & Cyngor Gwynedd, 2013, Atodiad 5

Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Cyngor Sir Ynys Môn, 2007)

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA): Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2007) yn rhoi arweiniad ar sut y bydd Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried lles yr iaith Gymraeg yn y broses ddatblygu a pha wybodaeth ategol allai fod yn ofynnol fel bod modd asesu ceisiadau cynllunio unigol yn ddigonol. Fe fabwysiadwyd y CCA yma gan Gyngor Sir Ynys Môn ym mis Medi 2007.

O ran y broses rheoli datblygu, fel arfer bydd effaith ieithyddol llawer o ddynodiadau defnydd tir wedi cael ei hasesu yn y broses o baratoi'r cynllun datblygu, fel y digwyddodd gyda CDU Ynys Môn. Fodd bynnag, gyda chynigion datblygu penodol na chawsant eu dyrannu'n ffurfiol yn y cynllun, bydd angen i'r awdurdod asesu pa effaith a gâi datblygiad ar gymuned leol. Yn gyntaf gwneir hyn drwy ofyn bod Datganiad Iaith yn cael ei gyflwyno gyda'r cais cynllunio. Fel gofyniad lleiaf, bydd gofyn i'r datblygwr ddarparu datganiad wedi'i seilio ar rannau perthnasol y gofynion gwybodaeth datganiad ieithyddol, sydd i'w gweld yn **Nhabl 34**. Bydd hyn yn caniatáu i'r awdurdod cynllunio lleol sgrinio'r cais am effeithiau ieithyddol mwy arwyddocaol.

Unwaith y bydd datganiad iaith wedi'i baratoi a'i ddadansoddi gan yr awdurdod cynllunio lleol, gall benderfynu bod angen asesiad mwy manwl o'r effaith ar yr iaith. Os yw hynny'n digwydd bydd yr awdurdod cynllunio yn datgan ei resymau'n glir ac yn dweud pa faterion ddylai gael eu cynnwys mewn Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith. Seilir yr asesiad manwl o'r effaith ar yr iaith ar y model a ddangosir yn **Atodiad 4**. Gall y cyngor gyflogi cynghorwyr arbenigol fel sy'n ofynnol i asesu'r dystiolaeth a gyflwynir fel rhan o ddatganiad iaith neu asesiad o'r effaith ar yr iaith.

Bydd angen datganiad iaith gyda phob cais ac eithrio ceisiadau gan ddeiliaid tai a mân geisiadau eraill. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn wedi nodi'r trothwyon datblygu a welir yn **Nhabl 33** fel meini prawf lle mae angen asesiad llawnach o'r effaith ar yr iaith pan fydd cais yn cael ei gyflwyno. Fodd bynnag, gall y cyngor fynnu cael gwybodaeth am yr effaith ieithyddol mewn cysylltiad â datblygiadau islaw'r trothwyon hyn, os yw effaith gronnus y cynigion datblygu yn dod yn destun pryder mewn unrhyw ardal.

**Tabl 33: Trothwyon datblygu lle bydd angen asesiad llawnach o'r effaith ar yr iaith yn Ynys Môn**

| Math o Ddatblygiad | Trothwy datblygu lle bydd angen asesiad llawnach o'r effaith ar yr iaith | |
|---|---|---|
| a) Preswyl | Prif Ganolfannau<br>Canolfannau Eilaidd<br>Pentrefi | Datblygiad tai o fwy na 50 annedd<br>Datblygiad tai o fwy na 25 annedd<br>Datblygiad tai o fwy na 5 annedd |
| b) Cyflogaeth | Cynigion creu cyflogaeth sy'n golygu mwy na: | Tir – 2 hectar neu fwy<br>Swyddi a grëir – 50 neu fwy o swyddi. |
| c) Twristiaeth | Dylai cynigion sy'n sbarduno'r rheoliadau asesu effeithiau amgylcheddol hefyd gynnwys asesiad o'r effaith ieithyddol. | |
| ch) Datblygiadau/ Prosiectau Eraill | Bydd cyngor yn cael ei roi gan yr Awdurdod fesul achos ond sylfaen y cyngor hwnnw fydd: | a) eu bod yn darparu ar gyfer cryn lawer mwy na'r anghenion lleol, ar eu pen eu hunain neu'n gronnus<br>b) eu bod yn gymharol fawr o'u cymharu â'r galw yn y farchnad leol<br>c) y byddant yn denu mewnlifiad cymharol arwyddocaol o siaradwyr di-Gymraeg<br>ch) y byddant yn fodd i dueddiadau o'r gorffennol, y gwyddys eu bod yn cael effaith niweidiol ar les yr iaith, barhau. |

*Ffynhonnell: Cyngor Sir Ynys Môn (2007) Canllawiau Cynllunio Atodol: Datblygu a'r Iaith Gymraeg.*

**Tabl 34: Gwybodaeth a allai fod ei hangen ar gyfer datganiad ieithyddol**

| Gwybodaeth a allai fod ei hangen ar gyfer datganiad ieithyddol | |
|---|---|
| 1. Cyflogaeth (gan gynnwys adwerthu) | 1.1 A ydyw'r datblygiad cyflogaeth yn cwrdd ag anghenion lleol yn bennaf?<br><br>1.2 A ydyw'r datblygiad yn cydymffurfio â strategaethau lleol a chenedlaethol?<br><br>1.3 Faint o swyddi fydd yn cael eu creu a faint fydd yn cael eu recriwtio'n lleol?<br><br>1.4 A ydyw'r sgiliau llafur gofynnol ar gael yn lleol (o fewn yr ardal Teithio i'r Gwaith)?<br><br>1.5 Ar gyfer datblygiadau twristiaeth, beth yw'r dalgylch disgwyliedig?<br><br>1.6 A oes datblygiadau tebyg eraill gyda chaniatâd cynllunio yn yr ardal?<br><br>1.7 A ydyw'r datblygiad yn debygol o arwain at fuddsoddiad pellach tebyg?<br><br>1.8 Lle mae angen hyfforddiant i ddysgu sgiliau newydd i'r gweithlu lleol, a fydd hyn yn cynnwys Hyfforddiant Iaith Gymraeg i'w ddarparu gan y datblygwr?<br><br>1.9 Sut fydd y cyflogau yn cymharu â chyflogau cyfartalog yn yr ardal?<br><br>1.10 A fydd y datblygiad yn cystadlu â neu'n cyd-fynd ag atyniadau twristiaeth presennol? |
| 2. Tai | 2.1 Beth yw'r pris marchnad disgwyliedig ar gyfer y tai a sut y mae hyn yn cymharu ag incwm aelwydydd yn lleol?<br><br>2.2 A oes datblygiadau tebyg o ran maint wedi eu cwblhau yn y 5 mlynedd diwethaf? Os oes, a ydynt wedi cwrdd ag anghenion lleol yn bennaf?<br><br>2.3 A ydyw'r datblygiad yn cynnwys elfen briodol o dai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol?<br><br>2.4 Mewn sawl cam y cyflwynir y datblygiad?<br><br>2.5 A ydyw'r datblygiad yn cydymffurfio â'r math o dai, a'r galw am dai, sydd wedi ei ddarogan yn y cynllun datblygu?<br><br>2.6 Beth oedd cyflymder y twf preswyl yn y gymuned yn y 5 mlynedd diwethaf?<br><br>2.7 Beth yw canran meddiannaeth pobl leol o dai newydd a gwblhawyd yn y 5 mlynedd diwethaf? |
| 3. Addysg | 3.1 A ydyw'r datblygiad yn debygol o arwain at fod angen mwy o leoedd ysgol? |
| 4. Seilwaith | 4.1 A fyddai'r datblygiad yn gwella hygyrchedd yn sylweddol i'r Ardal Ieithyddol Sensitif ac yn lleihau amseroedd teithio o drefi cyfagos mwy? |
| 5. Cyffredinol | 5.1 A oes gwasanaethau lleol priodol fel siopau, cyfleusterau preswyl / cymunedol i wasanaethu'r datblygiad?<br><br>5.2 A fydd y datblygiad yn creu cyfleoedd newydd i hybu'r iaith a mentrau lleol yn y gymuned?<br><br>5.3 Sut fydd y datblygiad yn hybu'r defnydd o'r iaith yn y gymuned?<br><br>5.4 Beth yw'r mesurau lliniaru arfaethedig? |

*Ffynhonnell: Cyngor Sir Ynys Môn (2007) Canllawiau Cynllunio Atodol: Datblygu a'r Iaith Gymraeg.*

## Atodiad 1: Ystadegau cychwynnol am yr Iaith Gymraeg yn Ynys Môn, 2001-2011

| | 2001 | | 2011 | | Newid mewn nifer | Newid mewn nifer (%) | Newid mewn Pwynt Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau iaith Gymraeg** | | | | | | | |
| **Pob preswylydd arferol 3+ oed** | 64,679 | | 67,403 | | 2,724 | 4.2% | |
| Dim sgiliau Cymraeg | 19,145 | 29.6% | 20,524 | 30.4% | 1,379 | 7.2% | 0.8% |
| Gallu deall Cymraeg llafar yn unig | 5,649 | 8.7% | 7,215 | 10.7% | 1,566 | 27.7% | 2.0% |
| Gallu siarad Cymraeg | 38,893 | 60.1% | 38,568 | 57.2% | -325 | -0.8% | -2.9% |
| Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | 4,135 | 6.4% | 4,726 | 7.0% | 591 | 14.3% | 0.6% |
| Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 1,902 | 2.9% | 2,905 | 4.3% | 1,003 | 52.7% | 1.4% |
| Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 32,672 | 50.5% | 30,756 | 45.6% | -1,916 | -5.9% | -4.9% |
| Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg | 1,176 | 1.8% | 1,277 | 1.9% | 101 | 8.6% | 0.1% |
| **Proffil iaith Gymraeg yn ôl grwpiau oed eang** | | | | | | | |
| **Pob preswylydd arferol 3+ oed** | 64,679 | | 67,403 | | 2,724 | 4.2% | |
| 3-15 oed | 10,871 | 16.8% | 9,513 | 14.1% | -1,358 | -12.5% | -2.7% |
| 16-64 oed | 41,205 | 63.7% | 42,244 | 62.7% | 1,039 | 2.5% | -1.0% |
| 65 oed a throsodd | 12,603 | 19.5% | 15,646 | 23.2% | 3,043 | 24.1% | 3.7% |
| **Gallu siarad Cymraeg (3+ oed)** | 38,893 | 60.1% | 38,568 | 57.2% | -325 | -0.8% | -2.9% |
| Gallu siarad Cymraeg: 3-15 oed | 8,115 | 74.6% | 7,221 | 75.9% | -894 | -11.0% | 1.3% |
| Gallu siarad Cymraeg: 16-64 oed | 23,911 | 58.0% | 23,602 | 55.9% | -309 | -1.3% | -2.1% |
| Gallu siarad Cymraeg: 65 oed a throsodd | 6,867 | 54.5% | 7,745 | 49.5% | 878 | 12.8% | -5.0% |
| **Un neu fwy o sgiliau yn Gymraeg (3+ oed)** | 45,534 | 70.4% | 46,879 | 69.6% | 1,345 | 3.0% | -0.8% |
| Un neu fwy o sgiliau yn Gymraeg: 3-15 oed | 9,069 | 83.4% | 8,183 | 86.0% | -886 | -9.8% | 2.6% |
| Un neu fwy o sgiliau yn Gymraeg: 16-64 oed | 28,868 | 70.1% | 29,715 | 70.3% | 847 | 2.9% | 0.3% |
| Un neu fwy o sgiliau yn Gymraeg: 65 oed a throsodd | 7,597 | 60.3% | 8,981 | 57.4% | 1,384 | 18.2% | -2.9% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl KS025, Tabl CS146 & Tabl CS133; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS207WA & Tabl KS208WA*

## Atodiad 2: Ystadegau cychwynnol am yr Iaith Gymraeg yng Nghymru, 2001-2011

| | 2001 | | 2011 | | Newid mewn nifer | Newid Canran | Newid mewn Pwynt Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau iaith Gymraeg** | | | | | | | |
| **Pob preswylydd arferol 3+ oed** | 2,805,701 | | 2,955,841 | | 150,140 | 5.4% | |
| Dim sgiliau Cymraeg | 2,007,984 | 71.6% | 2,167,987 | 73.3% | 160,003 | 8.0% | 1.8% |
| Gallu deall Cymraeg llafar yn unig | 138,416 | 4.9% | 157,792 | 5.3% | 19,376 | 14.0% | 0.4% |
| Gallu siarad Cymraeg | 582,368 | 20.8% | 562,016 | 19.0% | -20,352 | -3.5% | -1.7% |
| Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | 79,310 | 2.8% | 80,429 | 2.7% | 1,119 | 1.4% | -0.1% |
| Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 38,384 | 1.4% | 45,524 | 1.5% | 7,140 | 18.6% | 0.2% |
| Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 457,946 | 16.3% | 430,717 | 14.6% | -27,229 | -5.9% | -1.8% |
| Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg | 83,661 | 3.0% | 73,392 | 2.5% | -10,269 | -12.3% | -0.5% |
| **Proffil iaith Gymraeg yn ôl grwpiau oed eang** | | | | | | | |
| **Pob preswylydd arferol 3+ oed** | 2,805,701 | | 2,955,841 | | 150,140 | 5.4% | |
| 3-15 oed | 489,771 | 17.5% | 448,681 | 15.2% | -41,090 | -8.4% | -2.3% |
| 16-64 oed | 1,811,156 | 64.6% | 1,944,616 | 65.8% | 133,460 | 7.4% | 1.2% |
| 65 oed a throsodd | 504,774 | 18.0% | 562,544 | 19.0% | 57,770 | 11.4% | 1.0% |
| **Gallu siarad Cymraeg (3+ oed)** | 582,368 | 20.8% | 562,016 | 19.0% | -20,352 | -3.5% | -1.8% |
| Gallu siarad Cymraeg: 3-15 oed | 184,407 | 37.7% | 168,750 | 37.6% | -15,657 | -8.5% | -0.1% |
| Gallu siarad Cymraeg: 16-64 oed | 299,517 | 16.5% | 302,334 | 15.5% | 2,817 | 0.9% | -1.0% |
| Gallu siarad Cymraeg: 65 oed a throsodd | 98,444 | 19.5% | 90,932 | 16.2% | -7,512 | -7.6% | -3.3% |
| **Un neu fwy o sgiliau yn Gymraeg (3+ oed)** | 797,717 | 28.4% | 787,854 | 26.7% | -9,863 | -1.2% | -1.7% |
| Un neu fwy o sgiliau yn Gymraeg: 3-15 oed | 224,704 | 45.9% | 208,218 | 46.4% | -16,486 | -7.3% | 0.5% |
| Un neu fwy o sgiliau yn Gymraeg: 16-64 oed | 437,191 | 24.1% | 446,684 | 23.0% | 9,493 | 2.2% | -1.2% |
| Un neu fwy o sgiliau yn Gymraeg: 65 oed a throsodd | 135,822 | 26.9% | 132,952 | 23.6% | -2,870 | -2.1% | -3.3% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl KS025, Tabl CS146 & Tabl CS133; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS207WA & Tabl KS208WA*

## Atodiad 3: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg a Grŵp Iaith, fesul ward, 2001 & 2011

| Enw Ward | % Siarad Cymraeg 2001 | Grŵp Iaith 2001 | % Siarad Cymraeg 2011 | Grŵp Iaith 2011 | Newid mewn Pwynt Canran | Newid mewn Grŵp Iaith |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberffraw | 69.4% | >60% i ≤70% | 60.4% | >50% i ≤60% | -9.0% | ⇩ |
| Amlwch – Ward y Porth# | 67.3% | >60% i ≤70% | 64.5% | >60% i ≤70% | -2.8% | ⇩ |
| Amlwch – Ward Wledig | 57.0% | >50% i ≤60% | 54.3% | >50% i ≤60% | -2.7% | ⇔ |
| Biwmares | 39.7% | ≤40% | 39.5% | ≤40% | -0.2% | ⇔ |
| Bodffordd | 77.9% | >70% | 73.3% | >70% | -4.6% | ⇔ |
| Bodorgan | 72.7% | >70% | 68.3% | >60% i ≤70% | -4.4% | ⇩ |
| Braint | 77.1% | >70% | 73.2% | >70% | -3.9% | ⇔ |
| Bryngwran | 76.1% | >70% | 71.2% | >70% | -4.9% | ⇔ |
| Brynteg | 51.0% | >50% i ≤60% | 48.7% | >40% i ≤50% | -2.3% | ⇩ |
| Cadnant | 51.8% | >50% i ≤60% | 47.4% | >40% i ≤50% | -4.4% | ⇩ |
| Cefni | 83.1% | >70% | 80.5% | >70% | -2.6% | ⇔ |
| Cwm Cadnant | 56.2% | >50% i ≤60% | 57.5% | >50% i ≤60% | 1.3% | ⇔ |
| Cyngar | 84.7% | >70% | 80.8% | >70% | -3.9% | ⇔ |
| Gwyngyll | 73.9% | >70% | 70.5% | >70% | -3.4% | ⇔ |
| Caergybi – Ward y Dref | 43.2% | >40% i ≤50% | 39.1% | ≤40% | -4.1% | ⇩ |
| Kingsland | 48.0% | >40% i ≤50% | 42.9% | >40% i ≤50% | -5.1% | ⇔ |
| Llanbadrig | 54.4% | >50% i ≤60% | 52.4% | >50% i ≤60% | -2.0% | ⇔ |
| Llanbedrgoch | 45.5% | >40% i ≤50% | 43.9% | >40% i ≤50% | -1.6% | ⇔ |
| Llanddyfnan | 69.9% | >60% i ≤70% | 64.7% | >60% i ≤70% | -5.2% | ⇔ |
| Llaneilian | 61.5% | >60% i ≤70% | 58.9% | >50% i ≤60% | -2.6% | ⇩ |
| Llanfaethlu | 67.1% | >60% i ≤70% | 64.4% | >60% i ≤70% | -2.7% | ⇔ |
| Llanfair-yn-Neubwll | 51.5% | >50% i ≤60% | 50.5% | >50% i ≤60% | -1.0% | ⇔ |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 78.3% | >70% | 75.8% | >70% | -2.5% | ⇔ |
| Llangoed | 54.6% | >50% i ≤60% | 48.4% | >40% i ≤50% | -6.2% | ⇩ |
| Llanidan | 68.7% | >60% i ≤70% | 65.1% | >60% i ≤70% | -3.6% | ⇔ |
| Llannerchymedd | 72.3% | >70% | 69.9% | >60% i ≤70% | -2.4% | ⇩ |
| Ffordd Llundain | 51.8% | >50% i ≤60% | 45.3% | >40% i ≤50% | -6.5% | ⇩ |
| Maeshyfryd | 43.7% | >40% i ≤50% | 40.6% | >40% i ≤50% | -3.1% | ⇔ |
| Mechell | 64.0% | >60% i ≤70% | 61.1% | >60% i ≤70% | -2.9% | ⇔ |
| Moelfre | 51.4% | >50% i ≤60% | 52.3% | >50% i ≤60% | 0.9% | ⇔ |
| Morawelon | 45.3% | >40% i ≤50% | 40.4% | ≤40% | -4.9% | ⇩ |
| Parc a'r Mynydd | 53.8% | >50% i ≤60% | 50.4% | >40% i ≤50% | -3.4% | ⇩ |
| Pentraeth | 58.2% | >50% i ≤60% | 54.8% | >50% i ≤60% | -3.4% | ⇔ |
| Porthyfelin | 45.7% | >40% i ≤50% | 39.7% | ≤40% | -6.0% | ⇩ |
| Rhosneigr | 42.6% | >40% i ≤50% | 36.0% | ≤40% | -6.6% | ⇩ |
| Rhosyr | 63.7% | >60% i ≤70% | 59.3% | >50% i ≤60% | -4.4% | ⇩ |
| Trearddur | 42.6% | >40% i ≤50% | 38.1% | ≤40% | -4.5% | ⇩ |
| Tudur | 83.6% | >70% | 80.7% | >70% | -2.9% | ⇔ |
| Tysilio | 64.4% | >60% i ≤70% | 59.2% | >50% i ≤60% | -5.2% | ⇩ |
| Y Fali | 55.0% | >50% i ≤60% | 54.7% | >50% i ≤60% | -0.3% | ⇔ |
| | | | | | | |
| Ynys Môn | 60.1% | >60% i ≤70% | 57.2% | >50% i ≤60% | -2.9% | ⇩ |
| Cymru | 20.8% | >20% i ≤30% | 19.0% | >10% i ≤20% | -1.8% | ⇩ |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl UV84; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS207WA*
*≤ Llai na neu hafal i; > Mwy na*
□ Dim newid i grŵp iaith; □ Symud i grŵp iaith is
*#Nodyn: Yn 2001 bu i 450 o ffurflenni'r Cyfrifiad a methu a chael eu prosesu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a fu arwain i dan gyfrif o 1,035 yn boblogaeth y ward. Golygai hyn y na ellir cymharu ffigyrau 2001 a 2011*

# Atodiad 4: Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith,

**Cyngor Sir Ynys Môn (2007) Canllawiau Cynllunio Atodol: Datblygu a'r Iaith Gymraeg.**

**ASESU EFFEITHIAU TEBYGOL DATBLYGIAD AR GYMUNED AC IAITH**

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Lle mae'r awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried nad yw'r Datganiad Ieithyddol yn darparu digon o wybodaeth i asesu'r effaith ar iaith yn iawn, neu lle mae niwed sylweddol yn debygol, dylid defnyddio'r fethodoleg fwy manwl ganlynol i baratoi Asesiad llawn o Effaith ar Iaith o fewn yr Ardal Ieithyddol Sensitif fel a ddiffiniwyd.

## 2. PWRPAS

2.1 Pwrpas y Fethodoleg ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iaith yw galluogi awdurdodau cynllunio lleol i fesur ac asesu effeithiau posibl datblygiad ar gymuned leol yn gyffredinol, ac ar yr iaith Gymraeg yn enwedig. Yn ei hanfod, mae asesiad o effaith ar iaith yn broses o asesu effeithiau tebygol ei wahanol elfennau, a pholisïau, yn y dyfodol, ac effeithiau cyfunol cais neu bolisi cyfan ac agweddau arnynt ar amrediad o nodweddion cymunedol.

2.2 Ar ôl darparu Datganiad Ieithyddol a dangos pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i'r gymuned, efallai y bydd awdurdodau cynllunio yn gofyn i ddatblygwyr sy'n gwneud ceisiadau cynllunio unigol baratoi Asesiad o Effaith ar Iaith. Mae'r asesiad yn rhoi'r iaith Gymraeg yng nghyd-destun nodweddion cymuned, a'r dymuniad i greu cymunedau cynaliadwy. Gallent hwythau hefyd ddefnyddio'r fethodoleg i ddatblygu polisïau ac ymddiried yng ngoblygiadau dyraniadau defnydd tir newydd.

2.3 Mae'r Fethodoleg ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iaith yn cynnwys rhestr wirio fel bo'r datblygwr a'r awdurdod cynllunio lleol yn gallu asesu effaith debygol cais datblygu yn erbyn y pum dimensiwn ar fywyd y gymuned:

a) Poblogaeth (lefelau a nodweddion y boblogaeth honno)

b) Ansawdd bywyd (sy'n creu cymhelliad i bobl aros, gadael neu symud i'r gymuned)

c) Yr economi (sy'n effeithio ar gyfleoedd gwaith i wahanol grwpiau yn ogystal ag ar gost byw ac, yn fwy penodol, ar gost tai)

ch) Seilwaith (sydd ei angen i gynnal y gymuned, yn enwedig ysgolion, gofal iechyd a gwasanaethau hanfodol)

d) Bywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymuned (a fynegir drwy asbri ei sefydliadau diwylliannol, yn enwedig rhai sy'n ymwneud â phobl iau).

2.4 Mae sefydlogrwydd neu dwf cymedrol y boblogaeth, wedi'i gyfuno ag ansawdd bywyd da, economi gref, seilwaith o safon uchel a bywyd cymdeithasol a diwylliannol byrlymus, i gyd yn greiddiol i gynaliadwyedd ac unoliaeth y gymuned. Lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithas yn y gymuned, mae ei thynged a'i lles yn anochel yn annatod wrth ffyniant ehangach y gymuned honno. Os yw datblygiad yn debygol o fod yn andwyol i unrhyw un o'r agweddau hyn, gall gael effaith

niweidiol ar yr iaith Gymraeg hefyd. Fodd bynnag, os yw’n sensitif i’r cyd-destun lleol, e.e. mae’n cynnal yr economi leol, yna mae’r effaith yn llawer mwy tebygol o fod yn gadarnhaol.

2.5 Mae’r rhestr wirio yn rhoi canllawiau ar gyfer asesu effaith debygol datblygiad yn erbyn y pum dimensiwn ar fywyd cymunedol, gyda golwg ar sefydlu ei effaith ar y gymuned yn gyffredinol, ac ar yr iaith Gymraeg yn fwy penodol. Cyfarwyddyd ydyw i rai sy’n gyfrifol am fesur yr effeithiau tebygol hynny, am lunio polisi ac am gynghori ar benderfyniadau datblygu.

2.6 Bydd angen i ddatblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol chwilio drwy’r ystadegau perthnasol sydd ar gael yn lleol a chenedlaethol i wneud asesiad clir o’r ffynonellau data ar y pum agwedd ar fywyd cymunedol. Mae rhestr o’r ffynonellau data mwyaf perthnasol, a’u gwefannau, yn Atodiad Ch. Gellir cael gafael yn hawdd ac yn ddi-dâl ar y rhan fwyaf o’r data, ac mae rhai mathau o ddata yng nghyswllt cymunedau penodol ar gael ar beiriannau chwilio ar-lein.

## 3. METHODOLEG AC ASESU

3.1 Dyfeisiwyd y Fethodoleg ar gyfer Asesu’r Effaith ar Iaith ar ôl ystyried y math o fethodolegau asesu effaith a ddefnyddir eisoes ar gyfer gwahanol agweddau ar gynllunio a datblygu. Mae’r methodolegau hyn fel arfer yn cynnwys naill ai system sgorio tic / croes yn ateb i bob cwestiwn, neu system sgorio rhifol

### Sgorio’r Rhestr Wirio

3.2 Mae’r Fethodoleg ar gyfer Asesu’r Effaith ar Iaith yn broses oddrychol a’i nod yw sefydlu’r effeithiau tebygol sy’n deillio o bolisi neu gais datblygu. Pan fydd swyddogion yn defnyddio’r rhestr wirio, dylid ateb pob cwestiwn gyda sgôr cadarnhaol, negyddol neu niwtral i adlewyrchu effaith dybiedig y datblygiad yn erbyn y pum dimensiwn. Rhaid rhoi sgôr rhifol yn ateb i bob cwestiwn ar y rhestr wirio, gyda +1 yn cynrychioli effaith gadarnhaol dybiedig, -1 yn golygu effaith negyddol dybiedig, a 0 yn golygu effaith niwtral dybiedig.

3.3 Yn raddol, bydd sgoriau o +1, -1 a 0 yn cael eu rhoi yn atebion i bob cwestiwn ar y rhestr wirio ar gyfer pob un o’r pum agwedd ar fywyd cymunedol. Mae gallu cymharu opsiynau yn bwysig ar gyfer gwneud asesiad, gan dywys yr asesydd at y dewis ‘gorau’ yn gyffredinol. Mae’r asesiad o effaith yn helpu i oleuo penderfyniadau ynghylch pa bynciau ar y rhestr wirio sy’n perfformio’n well nag eraill yn erbyn y pum dimensiwn ar fywyd cymunedol drwy ddatgelu’r effeithiau posibl. Rhaid i’r dewisiadau yn y pen draw gael eu gwneud gan yr asesydd. Os na ellir ateb unrhyw gwestiwn, awgrymir y bydd angen i’r aseswyr greu data a thystiolaeth newydd i chwilio am ateb. Yn y broses asesu, bydd methiant i ateb cwestiwn (h.y. lle na roddir ateb o gwbl) yn cael ei ddileu o’r sgôr cyffredinol. Bydd matrics terfynol y Mynegai Asesu Effaith Gyffredinol (gweler isod) yn nodi pa opsiynau sy’n cael effeithiau mwyandwyol neu, i’r gwrthwyneb, yn cyfrannu’n llesol.

3.4 Nid awgrymir y bydd ychwanegu a chymharu’r effeithiau hyn yn gwneud y dewis terfynol i’r datblygwr / awdurdodau cynllunio lleol yn un hawdd. Fodd bynnag, bydd matrics sy’n canfod effeithiau sylweddol cymharol gadarnhaol neu negyddol, ac sy’n cynnwys sylwadau, yn helpu gwneuthurwyr penderfyniadau i ddewis yr opsiwn mwyaf cynaliadwy. Bydd y pwysigrwydd neu’r pwysau a roddir i gwestiwn rhestr wirio yn amrywio ar gyfer gwahanol bolisïau a chynigion datblygu, a mater i’r aseswyr yw dyfarnu hynny. Er enghraifft, bydd angen i’r datblygwr a’r awdurdod cynllunio lleol farnu faint o bwysau i’w rhoi i’r atebion rhestr wirio hynny sy’n ymwneud â’r tymor byr neu hir.

3.5 Bydd nifer o achosion lle na fydd y categoreiddio hwn yn bosibl a dylid cofnodi'r rhain fel 'ddim yn gwybod' neu gyda nod ymholiad. Hefyd, bydd achosion lle na fydd yn bosibl categoreiddio'r polisi gan fod geiriad y polisi yn golygu na ellir mesur ei effeithiau tebygol. Dylid trin hyn, hefyd, fel ymholiad (gweler y blwch isod). Dylid ail lunio'r polisïau hyn fel y gellir eu mesur gyda tharged neu ddangosydd addas.

3.6 Bydd llawer o'r gwerthuso a fydd yn deillio o'r fethodoleg arfaethedig o leiaf yn rhannol ansoddol, ac yn dibynnu ar grebwyll yr aseswyr. O'r herwydd, mae'r dull a hybir yn un sy'n defnyddio system mewnosod testun ar gyfer y fframwaith gwerthuso, yn lle dibynnu'n unig ar symbolau. Yn aml, bydd y materion a godir gan y testun yn deillio o 'gysylltiad meddwl' yn hytrach na'n uniongyrchol o'r fframwaith gwerthuso. Mae cysylltiadau o'r fath yn aml yn bur werthfawr, gan wneud rhyng-gysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar effaith – ni fyddai asesiad symbolau yn rhoi hyn.

**Cyfrifo'r Mynegai Effaith Gyffredinol**

3.7 Y rhan derfynol o'r fethodoleg asesu yw'r Mynegai Asesu Effaith Gyffredinol. Mae hwn yn cynnwys tabl cryno mesuredig fel bo'r asesydd yn gallu cyfrifo sgôr cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar gyfer yr effeithiau tybiedig sy'n debygol o ddigwydd. Bydd y sgôr yna'n dod yn ystyriaeth berthnasol wrth asesu cais am ganiatâd cynllunio yng nghyswllt rheoli datblygu, neu'n ddangosydd ar gyfer asesu a ddylid mabwysiadu polisi neu gais datblygu neu beidio.

3.8 Mae pob un o'r cwestiynau o fewn pob un o'r pum agwedd ar fywyd cymunedol - nodweddion poblogaeth, ansawdd bywyd, ffactorau economaidd, cyflenwad seilwaith, materion cymdeithasol a diwylliannol - yn cynhyrchu ystod o sgoriau a elwir yn fynegai sylfaenol. Gellir yna defnyddio'r 18 sgôr hyn i gyfrifo'r Sgôr Mynegai Sylfaenol Cyffredinol sef, yn syml, y sgôr cyfartalog ar draws yr holl atebion. Mae Sgôr Sylfaenol Cyffredinol rhwng 0.1 a 1.0 yn dynodi effaith gadarnhaol; mae sgôr o 0 yn dynodi effaith niwtral; mae sgôr rhwng -1.0 a -0.1 yn dynodi effaith negyddol, gyda ffigurau gwirioneddol yn cynrychioli difrifoldeb cymharol dybiedig yr effaith.

3.9 Mae'r tabl cryno yn awtomatig yn cyfrifo mynegai dimensiynol, sy'n sgôr cyfartalog ar gyfer pob un o'r pum agwedd ar fywyd cymunedol – cyfartalog boblogaeth; cyfartalog ansawdd bywyd; cyfartalog ffactorau economaidd; cyfartalog seilwaith; a chyfartalog ar gyfer materion cymdeithasol. Mae hyn yn galluogi'r aseswyr i gymharu'r sgôr cyfartalog ar gyfer pob un o'r pum dimensiwn, tra'n cydnabod yr effeithiau mwyaf tybiedig, ac unrhyw gyfnewidiadau posibl, rhwng y naill ddimensiwn a'r llall.

3.10 Gan ddibynnu ar flaenoriaethau polisi'r awdurdod cynllunio lleol, amcanion y cynllun datblygu, a phroffil economaidd-gymdeithasol y gymuned lle bwriedir cyflwyno'r datblygiad, yn y cam hwn o'r asesiad gall yr asesydd roi mwy o bwyslais ar un neu fwy o'r pum dimensiwn pan ddefnyddir y Mynegai Effaith Gyffredinol fel arf i wneud penderfyniad. Mater i'r awdurdod cynllunio yw rhoi mwy o bwysau neu beidio ar ddimensiwn penodol, a chyfiawnhau hynny ar sail amgylchiadau lleol a blaenoriaethau polisi. Ond hefyd, gall yr asesydd ystyried bod y pum agwedd ar fywyd yr un mor bwysig â'i gilydd, gan felly roi'r un pwysau iddynt.

3.11 Gellir yna defnyddio'r Sgôr Mynegai Sylfaenol Cyffredinol i gyfrifo Sgoriau Effaith ar Iaith. Rhennir y sgoriau hyn yn dri amrywiad – i gynrychioli faint mor bwysig yw'r iaith yn y lleoliad arbennig hwnnw: os tybir bod gan yr iaith bwysigrwydd 'uchel'; os ystyrir bod gan yr iaith bwysigrwydd 'canolig'; ac os bernir bod gan yr iaith bwysigrwydd 'isel'. Cyfrifir y ffigurau hyn yn awtomatig. Mater i'r awdurdod cynllunio lleol fydd defnyddio arwyddocâd 'uchel', 'canolig' neu 'isel' i

nodi pwysigrwydd iaith, a phenderfynir hyn ar sail lleoliad arfaethedig y datblygiad ac ar sail canlyniadau'r ymarfer Proffil Ieithyddol.

## 4. DEFNYDDIO'R SGORIAU EFFAITH AR IAITH YM MAES CYNLLUNIO

4.1 Lle cymhwysir y fethodoleg i gais am ganiatâd cynllunio yng nghyswllt rheoli datblygu, bydd canlyniadau'r asesiad yn ystyriaeth berthnasol gyda phenderfynu'r cais hwnnw. Lle cymhwysir y fethodoleg i bolisi neu gynigion datblygu y bwriedir eu cynnwys mewn strategaeth neu gynllun datblygu, bydd canlyniadau'r asesiad yn rhoi syniad i'r awdurdod cynllunio lleol ynghylch a ddylai symud ymlaen gyda'r polisi neu beidio.

4.2 Mae'r Sgôr Effaith ar Iaith (a'r asesiad o effaith gyffredinol) yn rhannol yn fater o grebwyll; mae'r sgôr yn cyflwyno barn ystyriol ar ran y datblygwr / awdurdod cynllunio lleol, yn benodol ynghylch lles iaith a chymuned, a byddai disgwyl i'r datblygwr / awdurdod cynllunio lleol gyfiawnhau a rhoi rhesymau dros ddefnyddio'r fethodoleg asesu mewn achosion unigol.

4.3 Ar adegau, bydd angen gwneud penderfyniadau sy'n diogelu'r iaith yn erbyn buddiannau cymdeithasol ac economaidd eraill. Lle mae'r awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu bod effaith debygol cais datblygu neu bolisi yn andwyol i les y gymuned ac yn fygythiad posibl i'r iaith, dylai'r awdurdod cynllunio ddangos drwy ganlyniadau'r fethodoleg asesu pam y byddai'r iaith Gymraeg, fel budd o bwysigrwydd cydnabyddedig, yn cael ei niweidio'n amlwg pe bai'r datblygiad yn mynd yn ei flaen.

4.4 Bydd soffistigeiddrwydd y fethodoleg asesu effaith ar iaith yn sicrhau bod sylfaen gadarn yn seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei darparu i wneuthurwyr penderfyniadau o'i defnyddio i lunio polisi cynllunio ac wrth reoli datblygu. I ddechrau, bydd angen i'r Asesiad o Effaith ar yr Iaith Gymraeg gael ei gydnabod mewn polisi cynllunio cenedlaethol gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn rhoi elfen o sicrwydd i awdurdodau cynllunio lleol ac fel y gellir rhoi'r fethodoleg ar waith yn ymarferol. Trosolwg

4.5 Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r nodyn hyn fel canllaw i'w hasesiadau eu hunain, yng nghyswllt y data a ddefnyddir a'r cysylltiadau a nodir rhwng datblygiadau a'u heffeithiau. Fodd bynnag, cryfheir y fethodoleg asesu yn sylweddol drwy fonitro datblygiadau lleol a mesur eu heffaith ar draws y pum agwedd ar fywyd cymunedol. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau i ddarogan yr effaith debygol ar iaith a chymuned yn fwy hyderus.

4.6 Dylid gweld y rhestr wirio a nodir yma fel man cychwyn a chanllaw i asesu effaith yn y dyfodol. Dylid ei defnyddio ar y cyd ag ystod eang o ddata lleol a chenedlaethol, a gwybodaeth leol. Dylai'r fethodoleg asesu arwain at ddyfarniadau mwy gwybodus ynghylch effeithiau datblygiad ar gymuned, ac felly, at bolisïau a phenderfyniadau mwy priodol. Er hynny, ni all gynnig datganiad diffiniedig na meintiol ar effeithiau datblygiad.

4.7 Dylai'r dewis o gwestiynau rhestr wirio a'r agweddau ar fywyd cymunedol y mesurir y broses asesu effaith ar iaith yn eu herbyn fod ar sail, a dylid hefyd eu cysylltu i, amcanion sy'n ymwneud yn benodol â bwriad ac nid â disgrifiad. Dylid cyfyngu nifer y pynciau rhestr wirio a chymunedol am resymau ymarferol ac ariannol, gan osgoi'r posibilrwydd o orlwytho gwybodaeth. Dylid eu cadw i'r lleiafswm, ac un maen prawf hanfodol yw bod data ar gael i gynorthwyo gwneud dyfarniad ystyriol ynghylch pob un am gost resymol. Mae'n holl bwysig bod cynnydd gyda gweithredu'r asesiad o

effaith ar iaith yn cael ei fonitro a'i effaith yn cael ei adolygu yng nghyswllt yr amcanion ar gyfer yr iaith Gymraeg a chymunedau cynaliadwy.

4.8 Mae un o'r angenrheidiau ar gyfer asesiad o effaith ar iaith yn glir: rhaid i'r cwestiynau rhestr wirio fod yn ddigon penodol eu bwriad i alluogi eu hasesu. A chymryd bod cwmpas a natur yr asesiad o effaith yn gyson â'r cyngor yn PPW Cymru a'r TAN perthnasol, dylai fod yn bosibl ei weithredu a'i ddefnyddio ar gyfer llunio polisi, gwerthuso polisi a rheoli datblygu. Lle nad yw'r fethodoleg asesu effaith ar iaith yn gallu rhoi syniad clir o effeithiau posibl polisi neu gynigion datblygu arbennig, bydd yn arwydd felly bod y polisi neu'r cynnig datblygu yn aneglur ac nad yw'n ddigon penodol ac, o ganlyniad, yn awgrymu bod angen ei ddiwygio.

Cwestiynau Rhestr Wirio ar yr Effeithiau ar Iaith a Chymuned

A fyddech gystal â llenwi'r holiadur canlynol, gan roi gymaint o fanylion â phosibl. Ar ôl y prif gwestiwn, rhoddir cyfle i wneud sylwadau pellach ar faterion allweddol. Mae rhan (a) yn dilyn pob cwestiwn yn gyfle i wneud asesiad cyffredinol; mae rhan (b) yn ddatganiad tystiolaeth, fel arfer yn seiliedig ar brofiad blaenorol; rhan (c) yw eich asesiad chi, ar sail tystiolaeth, o'r effaith gyffredinol ar y gymuned, ac mae rhan (ch) yn trafod mesurau lliniaru posibl. Bydd angen bwydo'r asesiad rhifol yn rhan (c) ym mhob cwestiwn i'r 'arf' ar gyfer mesur effaith gyffredinol ar ddiwedd yr holiadur.

**NODWEDDION POBLOGAETH**

**1. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o arwain at gynnydd / lleihad yn y boblogaeth a allai:**

| | |
|---|---|
| Effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg / Saesneg (mewn ffordd negyddol / gadarnhaol)? neu | |
| Arwain at ddirywiad absoliwt neu gyfrannol yn nifer y siaradwyr Cymraeg?<br><br>a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda | |
| b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau achos lleol / cenedlaethol ar sail Cyfrifiad 1991 a 2001 y Deyrnas Unedig) | |
| c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan | |
| ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL? | |

**2. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?**

| | |
|---|---|
| A allai hyn arwain at gynnydd parhaol yng nghyfran yr aelwydydd di Gymraeg? | |
| A fydd y newid yn barhaol neu'n un dros dro?<br>a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda | |
| b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau achos lleol / cenedlaethol ar sail Cyfrifiad 1991 a 2001 y Deyrnas Unedig) | |
| c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan | |

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**3. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o arwain at fwy o allfudo?**

A ydyw'r broses o allfudo yn debygol o arwain at golli aelwydydd di Gymraeg?

A fydd y newid yn barhaol neu'n un dros dro?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau achos lleol / cenedlaethol ar sail Cyfrifiad 1991 a 2001 y Deyrnas Unedig)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**4. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o arwain at newid strwythur oed y gymuned? A allai:**

Arwain at fod pobl ifanc / canol oed / pobl hyn sy'n siarad Cymraeg yn gadael yr ardal neu'n symud i'r ardal, gan arwain at:

Newidiadau yn y patrymau gweithgarwch traddodiadol a fyddai, yn ei dro, yn arwain yn fwy o bobl yn dymuno symud i ffwrdd?

Tensiynau cymdeithasol / chwalu'r rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau achos lleol / cenedlaethol ar sail Cyfrifiad 1991 a 2001 y Deyrnas Unedig)

NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**ANSAWDD BYWYD**

**5. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol? A allai:**

Gynyddu'r risg o salwch, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Bod a'r potensial i wneud bywyd yn ddrytach, gan felly gynyddu'r risg o broblemau ariannol / straen ar y boblogaeth leol Cymraeg ei hiaith?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda
b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol neu Fynegai Amddifadedd)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**6. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith ar fwynder yr ardal leol? A allai:**

Arwain at ddirywiad yn ansawdd yr amgylchedd, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (asesiadau amgylcheddol lleol neu arolygon preswylwyr lleol)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**7. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o arwain at y bygythiad o fwy o droseddu neu drais yn y gymuned? A allai:**

Gynyddu'r risg o droseddu neu drais, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (ffigurau troseddu lleol / cofnodion yr heddlu mewn ardaloedd sydd a datblygiadau tebyg)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**FFACTORAU ECONOMAIDD**

**8. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith andwyol ar fusnesau lleol? A allai:**

Fod a'r potensial i arwain at sefyllfa lle byddai busnesau lleol – Cymraeg eu hiaith – yn cau, oherwydd:

Lleihad yn y boblgaeth leol yn gyffredinol?

Cynnydd yn nifer y preswylwyr di Gymraeg?

Cynnydd mewn cystadleuaeth andwyol / fanteisiol?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (arolygon busnes lleol neu asesiadau economaidd lleol)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y

GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**9. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith andwyol ar swyddi lleol? A allai:**

Greu swyddi i'r boblogaeth leol Cymraeg ei hiaith (efallai drwy fod gan bobl leol Cymraeg eu hiaith y sgiliau iawn?)

Bygwth swyddi'r boblogaeth leol Cymraeg ei hiaith (efallai drwy arwain at gau busnesau lleol)

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**10. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd? A allai:**

Fod a'r potensial i arwain at fwy o wahanol swyddi i'r boblogaeth leol Cymraeg ei hiaith, oherwydd arallgyfeirio economaidd?

Arwain at fwy o siaradwyr di Gymraeg yn mewnfudo?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol neu Gyfrifiad y Deyrnas Unedig)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**11. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith ar lefelau cyflog lleol? A allai:**

Fod a'r potensial i gynyddu / lleihau lefelau cyflog oherwydd cynyddu'r gweithlu / cystadleuaeth fusnes?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol neu Fynegai Amddifadedd Incwm)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**12. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith ar bris cyfartalog tai? A allai:**

Orfodi pobl leol Cymraeg eu hiaith i adael y gymuned?

Bod a'r potensial i arwain at fwy o ddigartrefedd / straen tai ymhlith aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith?

Atal pobl leol Cymraeg eu hiaith rhag dychwelyd i'r ardal / gymuned?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol gan asiantau tai neu wybodaeth a gasglwyd drwy arolygon angen tai)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**CYFLENWAD SEILWAITH**

**13. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol? A allai:**

Fygwth / diogelu ysgolion lleol o ganlyniad i fwy / llai o fyfyrwyr ar y gofrestr ysgol?

Newid y cydbwysedd rhwng myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a di Gymraeg?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol a data gan Awdurdodau Addysg Lleol)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**14. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith ar wasanaethau gofal iechyd? A allai:**

Fygwth / diogelu cyfleusterau / gwasanaethau lleol cyfrwng Cymraeg?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol a gwybodaeth ar gyfer Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**15. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau lleol, fel siopau / swyddfeydd post / banciau / tai tafarn? A allai:**

Fygwth / diogelu siopau / swyddfeydd post / banciau / tai tafarn lleol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan felly orfodi rhai grwpiau o'r boblogaeth i symud allan o'r ardal / gymuned, e.e. yr henoed neu'r anabl, neu'r ifanc?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol neu wybodaeth fasnachol sydd ar gael o gyfeiriaduron busnes, y swyddfa TAW

neu'r gofrestr trethi busnes)
c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan
ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**AGWEDDAU CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL**

**16. A oes gan y polisi / cynllun / rhaglen / prosiect botensial i arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned Cymraeg ei hiaith? A allai:**

Gael effaith anwastad sylweddol ar wahanol rannau o'r gymuned leol, gan greu mantais i rai grwpiau ac anfantais i eraill?
Mynd yn groes i werthoedd traddodiadol mewn rhai rhannau o'r gymuned?
a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda
b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau / asesiadau lleol)
c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan
ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**17. A oes gan y polisi / cynllun / rhaglen / prosiect potensial i arwain at newidiadau i'r traddodiadau / diwylliant Cymreig lleol? A allai:**

Arwain at fod aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith yn gorfod symud i ffwrdd o'r ardal?
Arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd di Gymraeg heb fod yn lleol?
Arwain at erydu cysylltiadau teuluol neu rwydweithiau cymdeithasol eraill?
Arwain at newidiadau sylweddol i'r cyd-destun economaidd neu gymdeithasol, gan fygwth ffyrdd traddodiadol o fyw?
Effeithio ar aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith drwy gyflwyno / cyflymu newid cymdeithasol?
a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda
b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau / asesiadau lleol)
c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan
ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**18. A oes gan y polisi / cynllun / rhaglen / prosiect botensial i gael effaith ar grwpiau gwirfoddol / gweithgarwch / ieuenctid lleol? A allai:**

Orfodi pobl leol sy'n weithgar mewn grwpiau lleol i symud allan o'r gymuned, oherwydd:
Effaith sy'n cynyddu diweithdra / straen economaidd?
Effaith sy'n arwain at godi prisiau tai / straen tai?
a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

| | |
|---|---|
| b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau ac asesiadau lleol / Mynegeion Amddifadedd) | |
| c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan | |
| ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL? | |

# Llyfryddiaeth


BBC Newyddion (2013) *TAN 20: Beirniadaeth,* [Ar-lein] Ar gael o: http://www.bbc.co.uk/newyddion/24468097 [Ymwelwyd Tachwedd 2013]

Consortiwm o sefydliadau (2005) *Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen.* [Ar-lein] Ar gael o: http://www.eryri-npa.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0017/24362/lingustic_impact_assessment_cym.pdf [Ymwelwyd Tachwedd 2013].

Cyngor Sir Ynys Môn & Cyngor Gwynedd (2013) *Adroddiad Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd & Môn.* [Ar-lein] Ar gael o: http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2013/05/15/w/r/y/Asesiad-Effaith-ar-yr-Iaith-Gymraeg.pdf [Ymwelwyd Tachwedd 2013].

Cyngor Sir Ynys Môn & Cyngor Gwynedd (2013) *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn: Y Ddogfen Hoff Strategaeth Drafft Ymgynghorol.* [Ar-lein] Ar gael o: http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2013/05/09/g/z/t/Hoff-Strategaeth-Mai-2013-2.pdf [Ymwelwyd Tachwedd 2013]

Cyngor Sir Ynys Môn (Ar-lein) *Polisi Cynllunio,* Ar gael o: http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/polisi-cynllunio/ [Ymwelwyd Tachwedd 2013]

Cyngor Sir Ynys Môn (2007) *Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.* [Ar-lein] Ar gael o: http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/public/attachments/68/Cynllunio_ar_Iaith_Gymraeg.pdf [Ymwelwyd Tachwedd 2013].

Cyngor Sir Ynys Môn (2011-2012) *Cynllun Strategol Y Gymraeg,* Adran Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngor Sir Ynys Môn (Ar-lein) *Asesiadau ac Arfarniadau.* Ar gael o: http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/polisi-cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-ar-y-cyd-ynys-mn-a-gwynedd/asesiadau-ac-arfarniadau/ [Ymwelwyd Tachwedd 2013].

Jones, Emyr. (2011) *Cynllunio a'r Iaith Gymraeg Gosod y Cyd-Destun: Cefndir y Polisi Cyfredol*, Cyflwyniad Cynllunio - Cynhadledd RTPI [Ar-lein] Ar gael o: http://www.rtpi.org.uk/media/9538/Emyr-Jones.pdf [Ymwelwyd Tachwedd 2013]

Jones, Hywel. M (2012) *Darlun ystadegol o sefyllfa'r Gymraeg* [Ar-lein] Ar gael o: http://www.comisiynyddygymraeg.org/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Darlun%20ystadegol%20Cymraeg.pdf [Ymwelwyd Tachwedd 2013].

Llywodraeth Cymru (2012) *Iaith fyw: iaith byw, Strategaeth y Gymraeg 2012-17.* [Ar-lein] Ar gael o: http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf [Ymwelwyd Tachwedd 2013]

Llywodraeth Cymru (2013) *Cyhoeddi Canllawiau ar Gynllunio a'r Gymraeg* [Ar-lein] Ar gael o*: http://wales.gov.uk/newsroom/planning/2013/131009tan/?skip=1&lang=cy [Ymwelwyd Tachwedd 2013]*

Menter Iaith Môn (2012) *Proffil Iaith Ynys Môn*.

Mudiad Meithrin (Ar lein) *Cylchoedd Meithrin.* Ar gael o : http://www.meithrin.co.uk/cylchoedd-meithrin/ [Ymwelwyd Tachwedd 2013].

Mudiad Meithrin (Ar-lein) *Cefndir Mudiad Meithrin.* Ar gael o: <http://www.meithrin.co.uk/cefndir-mudiad-meithrin/> [Ymwelwyd Tachwedd 2013].

Mudiad Meithrin (Ar-lein) *Cylchoedd Ti a Fi.* Ar gael o : http://www.meithrin.co.uk/cylchoedd-ti-a-fi/ [Ymwelwyd Tachwedd 2013].